cronfa
dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol – Dosbarthu'r Loteri
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol – Dosbarthu'r Loteri
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Senedd yn unol ag Adran 34(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 35(5) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993


**Gorchmynnwyd iddynt gael eu hargraffu ar 12 Gorffennaf 2017 gan Dŷ'r Cyffredin**
**Fe'u cyflwynwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidog yr Alban ar 12 Gorffennaf 2017**
**Fe'u cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 14 Gorffennaf 2017**
**Fe'u cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Medi 2017**

HC133
SG 2017/68

**© Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2017**
Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a'r holl logos adrannol neu asiantaethol, lle maent yn bresennol) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a nodi teitl y ddogfen. Lle mae deunydd trydydd parti wedi cael ei nodi, mae'n rhaid ceisio caniatâd gan y deiliad hawlfraint o dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn atom ni i'r cyfeiriad canlynol:
Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol,
7 Holbein Place, London, SW1W 8NR.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications

| | |
|---|---|
| Argraffedig ISBN | 9781474142410 |
| Ar y we ISBN | 9781474142427 |

| | |
|---|---|
| ID 22031701 | 07/17 |

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r swyddog cyfrifyddu** | **2** |
| Adroddiad perfformiad | 2 |
| Adroddiad atebolrwydd | 14 |
| Y datganiadau ariannol | 36 |
| **Datganiad o wariant net cynhwysfawr** | **36** |
| **Datganiad o newidiadau mewn ecwiti** | **37** |
| **Datganiad o'r sefyllfa ariannol** | **38** |
| **Datganiad o lifoedd arian** | **39** |
| **Cysoni llifoedd arian net i symudiad mewn cronfeydd net** | **39** |
| **Nodiadau i'r cyfrifon** | **40** |
| **Cyfarwyddiadau polisi** | **63** |
| Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â Chymru | 70 |
| Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban | 72 |
| **Cynnydd ar grantiau dros £5miliwn** | **74** |
| **Monitro cyflogaeth** | **84** |

# Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r swyddog cyfrifyddu

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

#### Ein perfformiad yn 2016–17 – datganiad gan y prif weithredwr

Yn ystod 2016–17, bu newid sylweddol i'n rôl ni o ddosbarthu grantiau Cronfa'r Loteri. Mae'r ffaith inni gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol y gwnaethom eu pennu ar ddechrau'r flwyddyn yn llwyddiannus yn dyst i ymroddiad y timau sy'n gweithio ar ochr Cronfa'r Loteri ein busnes, ochr yn ochr â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ('y Bwrdd') a'r Bwrdd Rheoli.

Ar ôl cynnal adolygiad o'n fframwaith strategol cyfredol (SF4) yn 2015–16, ymroddodd y Bwrdd i rai rhaglenni newydd yn 2016–17:

- Cyflwynwyd Treftadaeth Gydnerth yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2016, ac rydym yn disgwyl gweld galw uwch amdani dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf;
- Ailgyflwynwyd Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn llwyddiannus yn 2016–17 gan ddenu ceisiadau o ansawdd uchel ledled y wlad, a chan amrediad eang o gonsortia; a
- Chyflwynwyd Tynnu'r Llwch, rhaglen dreftadaeth newydd ar gyfer pobl ifanc; rydym yn disgwyl gwneud ein dyfarniadau cyntaf yn gynnar yn 2017–18.

Gan adeiladu ar y Papur Gwyn Diwylliant, a gweithio mewn modd cydweithiol gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr, gwnaethom lansio rhaglen Lleoedd Gwych, gan wneud dyfarniadau gwerth cyfanswm o £20miliwn ym mis Chwefror 2017 ar draws amrediad o drefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig yn Lloegr (ein cyfraniad ni oedd £10miliwn). Rydym wedi estyn y cynllun peilot hwn yn ddiweddar ar draws Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

Yn rhan o'r gwaith ar y Papur Gwyn Diwylliant, gwnaethom hefyd weithio gyda Nesta i gefnogi ymchwil i sut y gellir defnyddio cyllido torfol i gefnogi ac i fuddsoddi mewn prosiectau treftadaeth.

Yn ein gwaith loteri, rydym yn parhau i weld nifer ac ansawdd eithriadol o uchel o geisiadau, ac rydym wedi cael blwyddyn arall sydd wedi gweld y nifer uchaf o brosiectau'n cael eu cyflawni.

Er ein bod wedi sicrhau adnoddau ychwanegol, rydym yn cydnabod y risgiau mae llwythi gwaith ychwanegol yn eu peri i ymgeiswyr/grantïon a'r Gronfa ei hun. Yng ngoleuni hyn, gan ddechrau ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gomisiynu adolygiad o brosesau busnes i fynd i'r afael â goblygiadau'r llwythi gwaith hyn a newidiadau polisi. Bu cynnydd da hyd yn hyn ac rydym eisoes wedi achub y cyfle i wella ein prosesau a'n gwasanaethau ar gyfer ymgeiswyr/grantïon – ond rydym yn cydnabod bod rhagor i'w wneud.

Rydym wedi gweithio mewn modd cydweithiol gyda rhanddeiliaid ar yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Eglwysi ac Eglwysi Cadeiriol Lloegr ('Adolygiad Eglwysi') a'r Adolygiad o Amgueddfeydd yn Lloegr ('Adroddiad Amgueddfeydd') ac rydym yn edrych ymlaen at weld eu casgliadau ac at weithio i weithredu eu hargymhellion.

Ym mis Chwefror, gwnaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyhoeddi ein hadolygiad wedi'i deilwra – yr ydym wedi gwneud dechrau addawol arno – ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r adran a'n holl randdeiliaid yn y misoedd nesaf ar y darn o waith pwysig hwn.

Yn olaf, gadewch imi ddiolch i'n staff ni sy'n gweithio ar grantiau'r Loteri. Maent yn gweithio gyda llawer o unplygrwydd a phroffesiynoldeb, ac maent wir wedi ymroddi i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ac yn darparu gwasanaeth eithriadol i gymunedau a threftadaeth y genedl nad yw'n cael ei lawn gydnabod yn aml.

#### Ein diben a'n gweithgareddau

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu 'y Gronfa') yn cael ei breinio a'i gweinyddu gan gorff corfforaethol a adwaenir fel Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae hwn yn cynnwys cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau wedi'u penodi gan y prif weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980'), mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol, yn gofeb i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y Deyrnas Unedig (DU). Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w chaniatáu i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr eu hymestyn

gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 ('Deddf 1998').

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol sy'n cael ei chlustnodi i dreftadaeth. Rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer ei gwaith fel dosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer y symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980, ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer derbyniadau o dan Ddeddf 1993.

O dan Adran 21(1) Deddf 1993, mae cronfa a adwaenir fel Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) yn cael ei chynnal o dan oruchwyliaeth a rheolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ('yr ysgrifennydd dros ddiwylliant'). Mae'r holl symiau a dderbynnir gan drwyddedai'r Loteri Genedlaethol o dan Adran 5(6) yn cael eu talu i'r ysgrifennydd dros ddiwylliant, sy'n eu rhoi nhw i CDLG. Mae CGDG yn ymgeisio i CDLG am gyllid i gyflawni ei rhwymedigaethau o ran taliadau grant y Loteri a chostau gweinyddu.

O dan Adran 22 Deddf 1993, bydd yr ysgrifennydd dros ddiwylliant yn dyrannu 20% o'r swm a delir i CDLG i'w wario ar dreftadaeth genedlaethol neu ar bethau sy'n gysylltiedig â hi. Mae Adran 23 (3) yn sefydlu ymddiriedolwyr CGDG fel dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd y dyraniad canrannol i 16⅔% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r llywodraeth greu Cronfa Cyfleoedd Newydd. Aeth yn ôl i 20% o 1 Ebrill 2012, ar ôl bod ar 18% trwy gydol 2011–12.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar ffurf sy'n cael ei chyfarwyddo gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant, gyda chydsyniad Trysorlys ei Mawrhydi yn unol ag Adran 35(3) Deddf 1993.

O dan Adran 3 a 3a Deddf 1980, caiff CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddibenion caffael, cynnal neu warchod:

a) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol, neu wyddonol eithriadol;

b) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn nhw, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol; ac

c) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp, sydd yn ei gyfanrwydd, yn eu barn nhw, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol.

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd) yn estyn pwerau'r ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol trwy ddarparu cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu i ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, mae'r ymddiriedolwyr bellach yn gallu rhoi cymorth i brosiectau sydd â'r nod o gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o dreftadaeth ac o ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i ymddiriedolwyr roi grantiau refeniw i ehangu mynediad i dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau ynglŷn â grantiau'r Loteri i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir trwy chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae CDL yn ceisio rhoi grantiau i gynnal a thrawsnewid ein treftadaeth, gan wneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth, pobl a chymunedau:

- dros y 22 mlynedd diwethaf, mae'r cyhoedd, rhanddeiliaid a llywodraethau olynol wedi ymddiried ynom i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol mewn modd doeth, gan gefnogi prosiectau treftadaeth llwyddiannus ledled y DU gyfan;
- rydym yn arbenigo mewn rhoi grantiau ac yn brofiadol wrth sicrhau bod ein cyllid yn cyflawni canlyniadau gwych. Rydym yn annibynnol, yn ystyriol ac yn canolbwyntio ar ansawdd;

- rydym wedi datblygu'r cydberthnasau a'r sgiliau i weithio gydag eraill i wella treftadaeth ac ansawdd bywyd ledled y DU; a
- diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae ein buddsoddiad wedi cael effaith enfawr ar dreftadaeth y genedl, gan ei thrawsnewid ar gyfer pobl a chymunedau. Gyda thua £300miliwn i'w ddosbarthu'r flwyddyn nesaf, bydd CDL yn un o'r ffynonellau cyllid mwyaf pwysig, a bydd yn parhau i wneud buddsoddiadau a fydd yn rhyddhau potensial enfawr treftadaeth y DU.

### Ein materion a'n risgiau allweddol

Mae Cronfa'r Loteri wedi wynebu nifer o risgiau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi rheoli'r rhain yn weithredol i leihau'r effaith ar ymgeiswyr/grantïon a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â'r sefydliad ei hun.

Mae ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau a wynebir gan y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd a thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae cofrestr yn cael ei chreu o'r risgiau uchaf, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r manylion yn cael eu hamlinellu yn y datganiad llywodraethu ar dudalen 16.

Y prif risgiau yw'r peryglon i'n buddsoddiad Loteri gan newidiadau yn y sector treftadaeth o ran cyllid, perchnogaeth a chynnal asedau, capasiti a gallu sefydliadol, a modelau busnes sy'n newid. Risg gymhlyg a chymhleth yw hon ar draws gwahanol rannau'r DU, ac mae'n dod i'r amlwg mewn ffyrdd gwahanol ac ar adegau gwahanol ledled y DU. Mae ein timau gweithredol yn effro i newidiadau i brosiectau cyfredol a blaenorol, ac yn aml mae nodi risgiau a'u trafod â grantïon yn allweddol i ddod o hyd i ateb. Er mai adfachu grantiau yw ein dewis olaf fel arfer, rydym yn cadw'r hawl i ddiogelu buddsoddiad blaenorol a chyllid a dderbyniwyd oddi wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Mae effeithiau parhaus setliadau datganoli ledled rhannau o'r DU hefyd yn peri risg inni o ran modelau cyllid, busnes a gweithredu. Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau'n agos a rheoli goblygiadau penodol pan fyddant yn codi fesul achos, wrth gynnal uniondeb ein hymagwedd ganolog at roi grantiau.

Mae maint ac amrywiaeth llwythi gwaith hefyd yn peri risg inni. Mae deall tueddiadau'r rhain a'u goblygiadau o ran adnoddau'n rhan allweddol o'n gwaith. Rydym wedi buddsoddi mewn deall ein trefniadau ar gyfer prisio, darparu adnoddau ac effeithlonrwydd yn ddyfnach o lawer dros y ddwy flynedd diwethaf, ac rydym wedi dechrau defnyddio'r data hwnnw i gynllunio lefelau adnoddau.

Mae ein prif risg arall yn gysylltiedig â'n hadolygiad wedi'i deilwra – nad oeddem yn gwybod y canlyniad ar adeg llofnodi'r cyfrifon hyn. Rydym yn hyderus y bydd y tîm adolygu'n cydnabod pwysigrwydd y Gronfa i dreftadaeth y genedl a'r ffordd effeithlon rydym yn dosbarthu ein cymorth grant ac arian y Loteri Genedlaethol.

### Busnes weithredol

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, fel sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu rhyngwladol, ac oherwydd nad oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu bod gan y llywodraeth unrhyw gynlluniau i newid canran arian achosion da'r Loteri mae CGDG yn ei dderbyn, nac i newid dosbarthwyr yr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol.

### Crynodeb perfformiad

Rydym yn parhau i berfformio er gwaethaf y galw ar ein hadnoddau a lefel o gyflawni sy'n uwch nag erioed o'r blaen. Mae'r manylion sy'n cael eu hamlinellu ar dudalen pump ac yn adran yr adroddiad hwn ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar dudalen naw yn dangos ein bod wedi bodloni neu wedi rhagori ar y mwyafrif helaeth o'n mesurau perfformiad yn 2016–17.

Mae manylion ein perfformiad yn erbyn ein targedau lefel gwasanaeth yn cael eu hamlinellu ar dudalen pump:

*Targedau lefel gwasanaeth – perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017*

| | | **Blwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017** | Blwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhoi'r penderfyniadau ar wefan CDL ymhen 20 diwrnod gwaith i'r cyfarfod. | **100%** | 100% |
| 2 | Gwneir taliadau grant i'r ymgeisydd, ar gyfartaledd, o fewn naw diwrnod gwaith i dderbyn y cais am daliad. | **84% (7 diwrnod ar gyfartaledd)** | 83% (6 diwrnod ar gyfartaledd) |
| 3 | Yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau:<br>**Grantiau Treftadaeth rownd 1:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **99% (14 wythnos ar gyfartaledd)** | 97% (15.3 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau Treftadaeth rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **94% (14.4 wythnos ar gyfartaledd)** | 93% (15.9 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau Treftadaeth – casgliad mawr rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **89% (14.7 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (13.8 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Menter Treftadaeth rownd 1:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (13.8 wythnos ar gyfartaledd)** | 94% (14.2 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Menter Treftadaeth rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **91% (14.8 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (14.8 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Partneriaethau Tirwedd rownd 2:**<br>16 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (15.9 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (16 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli rownd 1:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **98% (15.9 wythnos ar gyfartaledd)** | 99% (15 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **96% (10.8 wythnos ar gyfartaledd)** | 98% (11 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Treftadaeth Treflun rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (15.2 wythnos ar gyfartaledd)** | 85% (19 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **99% (7.1 wythnos ar gyfartaledd)** | 96% (7.2 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Ein Treftadaeth:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **98% (7.1 wythnos ar gyfartaledd)** | 96% (7.1 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Rhannu Treftadaeth:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **99% (7.3 wythnos ar gyfartaledd)** | 96% (7.2 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Gwreiddiau Ifanc:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **99% (8.7 wythnos ar gyfartaledd)** | 95% (7.2 wythnos ar gyfartaledd) |
| 4 | Byddwn yn cynnal arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus ac yn ceisio sicrhau bod 80% o'n cwsmeriaid o leiaf yn fodlon ar ein prosesau asesu. | **81.7%** | 79.1% |
| 5 | Byddwn yn cynnal arolwg tebyg o'r rhai hynny y dyfarnwyd grantiau iddynt ac yn ceisio sicrhau bod bod 85% ohonynt o leiaf yn fodlon ar ein prosesau monitro ac ôl-ddyfarnu. | **89.3%** | 89.6% |
| 6 | Bydd o leiaf 87% o ymgeiswyr o'r farn bod gwefan CDL yn rhwydd ei defnyddio. | **84% – gweler nodyn 1 isod** | 80% |
| 7 | Byddwn yn cymryd camau pendant i hyrwyddo detholiad eang o'n dyfarniadau trwy'r cyfryngau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr posibl a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. | **Bodlonwyd – gweler nodyn 2 isod** | Bodlonwyd |

Nodyn: Mae llawer o'n rhaglenni grant yn gweithredu proses ddwy rownd. Dyfernir cyllid datblygu i gais cychwynnol, os yw'n llwyddiannus, a phâs rownd gyntaf. Mae'r cyllid datblygu'n rhoi amser ac arian i'r ymgeisydd ddatblygu cais llawn am gyllid yn ystod rownd dau.

1 Bu newid i'r data a ddefnyddir i gasglu'r data hwn. O ganlyniad, rydym wedi ailddatgan y ffigur cymharol ar gyfer 2015–16 (wedi'i ostwng o 86%).

2 Hyrwyddo dyfarniadau yw'r unig ran o'r cyhoeddusrwydd a wneir gan CDL; rydym hefyd yn cynorthwyo grantïon i ddarparu cyhoeddusrwydd ynglŷn â'n dyfarniadau. Yn ystod 2016–17, gwnaethom gyhoeddi 24 o ddatganiadau cenedlaethol a 67 o ddatganiadau rhanbarthol i'r wasg a oedd yn ymwneud yn benodol â dyfarniadau newydd ledled y DU. Gwnaethom hefyd gyfrannu at 392 o ddatganiadau newyddion wedi'u cyhoeddi gan dderbynyddion grant ynghylch dyfarniadau grant. Mae llawer o'r rhain hefyd wedi cael eu cynnwys mewn erthyglau newyddion ar wefan CDL a'r cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig i hybu traffig. Mae newyddion am grantiau, felly, yn amlwg iawn yn y sylw rydym yn ei gynhyrchu, sydd, yn gyffredinol, yn cyrraedd cyfanswm o 191 miliwn o ddefnyddwyr bob mis ar gyfartaledd.

## Dadansoddiad perfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant wreiddiol, sef CGDG, a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sef CDL. Mae'n ofynnol gan gyfarwyddiadau'r ysgrifennydd dros ddiwylliant ynghylch cyfrifon adrodd am y gweithgareddau hyn ar wahân, ac, felly, nid yw unrhyw gyfrifon cyfunol yn cael eu paratoi. Mae'r adolygiad hwn yn trafod gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn unig.

Mae CGDG yn derbyn ceisiadau am arian y Loteri gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r DU, ac yn dyfarnu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri ddechrau ym 1994, rydym wedi derbyn bron 74,000 o geisiadau'n gofyn am dros £17.6biliwn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi gwneud bron 51,000 o ddyfarniadau gwerth £7.7biliwn.


Yn ystod 2016–17, gwnaethom dderbyn mwy na 3,700 o geisiadau grant, yn gofyn am £1.16biliwn. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o 16% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a dyma'r lefel uchaf ers 2013–14. Cafodd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2012–13 a 2013–14 ei ystumio gan niferoedd sylweddol o geisiadau am symiau bach; gwnaethom dderbyn mwy na 1,000 o geisiadau i'r rhaglen Ein Holl Straeon yn 2012–13 a mwy na 500 o geisiadau i raglen y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw yn 2013–14.

Mae ystyried hyn yn golygu bod nifer y ceisiadau ar gyfer ein rhaglenni grant safonol wedi codi'n sylweddol, ac mae'r rhaglenni hyn yn gofyn am ragor o adnoddau asesu o ran amser staff a chost uniongyrchol, ond hefyd mae angen rhagor o waith monitro gan fod y prosiectau'n cymryd llawer o flynyddoedd i'w cwblhau. Er enghraifft, roedd nifer y ceisiadau i'n rhaglen Grantiau Treftadaeth (gan gynnwys Menter Treftadaeth a Gwaddolion Treftadaeth) ar y lefel uchaf ers 2002–03.

Roedd gwerth y ceisiadau yn 2016–17 yn 3.5 gwaith cymaint â'n hincwm ac yn 2.7 gwaith cymaint â'n cyllideb dyfarnu grantiau. Mae hyn yn golygu, yn anffodus, roedd yn rhaid inni siomi llawer o'n hymgeiswyr. Gan fod ein cyllideb dyfarnu grantiau wedi cael ei haddasu i £300miliwn yn 2017–18, byddai lefel debyg o geisiadau'n golygu y byddem wedi cael ein gordanysgrifio o bron pedair gwaith.

Roedd 2015–16 yn un o'r blynyddoedd gorau o ran gwerthiannau tocynnau'r Loteri. Fodd bynnag, gostyngodd gwerthiannau o 8.8% yn ystod 2016–17, gan gyfrannu at ostyngiad yn ein hincwm o £388miliwn i £327miliwn eleni. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r Comisiwn Gamblo i ddeall achosion hyn, ac mae Camelot UK, gweithredwr y Loteri Genedlaethol, hefyd yn cynnal

*Ceisiadau a wnaed i CDL yn ôl blwyddyn (nifer)*



adolygiad strategol o'i fusnes. Beth bynnag yw'r rheswm, mae'n debyg y bydd y gostyngiad yn yr enillion sy'n mynd i achosion da yn parhau yn y tymor canolraddol, ac rydym yn cynllunio ar sail incwm tebyg yn y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad, mae cyllidebau dyfarnu grantiau wedi cael eu lleihau o gryn dipyn. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2016–17, ar £435miliwn, yn uwch na'r incwm a ragwelir o fwriad, gyda'r nod o leihau balans ein cyllid yn CDLG, a llwyddwyd i wneud hyn. Ar yr adeg honno, roeddem yn disgwyl y byddai'r gyllideb ar gyfer 2017–18 yn mynd yn ôl i tua £375miliwn.

Fodd bynnag, gyda'r gostyngiad mewn incwm yn ystod y flwyddyn, penderfynodd yr ymddiriedolwyr fod cyllideb o £300miliwn yn fwy cynaliadwy.

Gostyngodd incwm buddsoddi i £1.1filiwn o £1.6miliwn yn ystod y flwyddyn flaenorol. Elw gilt isel parhaus yw'r rheswm dros yr enillion incwm buddsoddi isel, gan fod CDLG yn buddsoddi mewn ystod gul o fuddsoddiadau elw isel, risg isel. Bydd y toriad yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 2016–17 wedi amharu ar enillion ymhellach. Nid oes gan ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad ar y polisi buddsoddi, sy'n cael ei bennu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rydym yn derbyn 20% o'r enillion buddsoddi yn CDLG, ni waeth beth fo balans ein cronfeydd. Felly, nid yw'r ffaith i'n balansau cyfartalog ni yn CDLG ostwng yn ystod y flwyddyn yn golygu y dylai ein hincwm ostwng o ganran debyg.


Gostyngodd balans ein cyllid yn CDLG o £595miliwn i £497miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er bod lefel ein dyfarniadau grant cryn dipyn yn uwch na'n hincwm ni, mae'n annhebygol y gellir priodoli llawer o'r gostyngiad hwnnw yn y balans i'r ffaith hon; mae'n cymryd llawer o flynyddoedd i dalu cyfanswm y dyfarniad ar gyfer y rhan fwyaf o'n prosiectau ni, ac fel arfer mae'r swm a delir mewn un flwyddyn yn gymharol fach. Prif achos y dirywiad i'n balans yw'r ffaith bod ein taliadau grant ar gyfer dyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol yn uwch na'n hincwm ac maent ar y lefelau uchaf erioed. Er y lefelau uchaf erioed hyn, trwy ddefnyddio ein model llifoedd arian, gallwn barhau i osod cyllideb dyfarnu grantiau resymol, wrth sicrhau bod gennym ddigon o arian parod i ddiwallu ein hanghenion tymor hir. Ein cyllideb dyfarnu grantiau gyfartalog yn ystod y cyfnod o 1999–00 i 2016–17 oedd £316miliwn, felly nid yw cyllideb flynyddol o £300miliwn yn y dyfodol yn peri pryder yn y sector treftadaeth.

Cododd lefel y rhwymedigaethau grant newydd o £381miliwn i £453miliwn. Roedd y ffigur ar gyfer 2015–16 yn is na'r disgwyl a gwnaethom ymchwilio i weld a oedd tystiolaeth bod yr amser roedd ymgeiswyr yn ei gymryd i ddychwelyd eu ceisiadau ail rownd wedi cynyddu. Nid oeddem yn gallu dod i unrhyw gasgliadau o'r ymchwil hon, ac roedd y ffigurau ar gyfer 2016–17 yn dangos ei bod yn debyg mai sefyllfa dros dro oedd hon.

Er y lefelau uchel o daliadau grant yn ystod y flwyddyn, cododd balans y rhwymedigaethau grant o £996miliwn i £1.02biliwn. Y rheswm syml dros hyn oedd bod dyfarniadau newydd yn uwch na'r taliadau grant.

Bu i lefel y rhwymedigaethau amodol – pasiau rownd gyntaf a roddir i ymgeiswyr lle byddwn yn aros am benderfyniad ail rownd – godi o £634miliwn i £661miliwn. Nid oedd hyn yn

*Taliadau grant yn ôl blwyddyn (£miliwn)*



syndod o ystyried bod ein cyllideb rownd gyntaf mor uchel eleni. Gall gymryd rhwng 18 mis a dwy flynedd i ymgeisydd ddychwelyd ei gais rownd dau.

O ystyried yr holl rwymedigaethau gwirioneddol ac amodol, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roeddem wedi ymrwymo mwy na £1.19biliwn (ar 31 Mawrth 2016: £1.03biliwn) mwy nag a oedd gennym yn CDLG. Mae'r lefel hon o rwymedigaethau a rhwymedigaethau amodol yn golygu ein bod wedi gorymrwymo o'r hyn sy'n gyfwerth â 5.2 flynedd o incwm disgwyliedig (ar 31 Mawrth 2016: 4.2). Mae hyn yn dangos penderfyniad yr ymddiriedolwyr i geisio cadw'r balans yn CDLG rhag cynyddu. Roedd balans ein rhwymedigaethau cytundebol yn uwch o gryn dipyn na'n hasedau net, ac roedd diffyg net ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol o £523miliwn ar 31 Mawrth 2017.

Mae ymddiriedolwyr yn cydnabod bod monitro llifoedd arian tymor hir yn bwysig iawn, gan y gall y prosiectau rydym yn rhoi grantiau iddynt gymryd llawer o flynyddoedd i'w cwblhau. Nid yw ein cyllid gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn sicr, ac nid oes sicrwydd ynghylch faint o gyllid y bydd y Loteri Genedlaethol yn ei gynhyrchu inni. Felly, mae'r ymddiriedolwyr wedi dyfeisio cymarebau canllaw mewn perthynas â lefel y rhwymedigaethau sy'n weddill, arian parod ac incwm disgwyliedig. Daeth y gostyngiad sydyn i incwm yn 2016–17 â'r cymarebau hyn i flaen ein cynllunio. Roeddent yn dangos bod ein cyllideb grant ar gyfer 2016–17 yn briodol ar y lefel disgwyliedig o incwm, ond wrth i'r incwm gwirioneddol ostwng yn is, bu i hyn sbarduno camau gweithredu gan reolwyr a arweiniodd at gyllideb grant is ar gyfer 2017–18 a chynlluniau ar gyfer rheolaeth lymach ar gynyddu grantiau ac ati pan fydd y fframwaith strategol nesaf ar waith.


Cododd ein costau gweithredu cyffredinol yn ystod y flwyddyn i 11%. Roedd y codiad wedi'i gynllunio ac roedd wedi cael ei ymgorffori yn ein cyllideb weithredu ar gyfer 2016–17. Roedd y codiad yn anochel o ystyried y cynnydd enfawr yn nifer y dyfarniadau a cheisiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Roeddem yn gwybod y byddai angen rhagor o adnoddau er mwyn cynnal ein hystadegau bodlonrwydd cwsmeriaid, felly'r codiad o 11% i gostau staff. Y prif gynnydd i gostau cyffredinol oedd ein costau TG wrth inni ymbaratoi ar gyfer ein rhaglenni grant newydd (wedi'u sbarduno gan y Papur Gwyn Diwylliant ac adolygiad tymor canolraddol y Bwrdd ei hun o'r newidiadau i Fframwaith Strategol 4) Tynnu'r Llwch, Lleoedd Gwych, Gwaddolion Treftadaeth a Threftadaeth Gydnerth a dechrau prosiect tymor hir o wella symudedd TG, gan ganiatáu gweithio'n fwy effeithiol y tu allan i'r swyddfa. Er y codiad hwn mewn costau, rydym yn credu bod y sefydliad yn parhau i fod yn ddosbarthwr effeithlon cyllid gan y Loteri Genedlaethol. Dangosir tystiolaeth o hyn yn y siart isod a chan y ffordd rydym yn bodloni ein targedau effeithlonrwydd a bennir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, hyd yn oed gyda'r gostyngiad sydyn mewn incwm.

Mae nifer y prosiectau sy'n cael eu monitro (y prosiectau hynny a dderbyniodd dyfarniadau nad oeddent wedi cael eu cwblhau) wedi codi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae sicrhau bod y prosiectau hyn yn mynd yn eu blaen yn llwyddiannus yn dasg fawr sy'n gofyn am adnoddau sylweddol o ran staff a phenodi mentoriaid a monitoriaid. Mae hyn yn helpu i egluro'r cynnydd yn ein costau gweinyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r cymarebau hyn fel a ganlyn:

| Cymhareb | Ystod darged | **ar 31 Mawrth 2017** | ar 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm rhwymedigaethau i incwm | Uchaf yn yr ystod 4.4:1 i 4.6:1 | **5.2:1** | 4.3:1 |
| Rhwymedigaethau net i incwm (h.y. cyfanswm rhwymedigaethau llai arian parod) | Uchaf yn yr ystod 3.0:1 i 3.2:1 | **3.7:1** | 2.8:1 |
| Rhwymedigaethau pendant i arian parod | Uchaf yn yr ystod 2.3:1 i 2.5:1 | **2.1:1** | 1.7:1 |
| Arian parod ar gael | Yn yr ystod £500miliwn i £525miliwn | **£497miliwn** | £595miliwn |

*Prosiectau sy'n cael eu monitro yn ôl blwyddyn (nifer)*




Mae ein costau gweithredu hefyd yn elwa ar dri chyfraniad gan gyrff llywodraeth ganolog:

1 Gan y Gronfa Loteri Fawr tuag at cynnal rhaglen Parciau i Bobl, y mae'n cyfrannu rhywfaint o gyllid grant iddi. Cynyddodd ei chyfraniad ychydig o £302,000 i £314,000.

2 Gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd tuag at y gost am y rhan o'r llawr cyntaf yn ein swyddfa yn Llundain mae'n ei defnyddio. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi bod yn derbyn llety ers mis Mai 2011 ac mae ei gyfraniad yn talu am rent a ffioedd gwasanaeth. Yn ystod 2016–17, cafodd y lle mae'n ei ddefnyddio ei leihau, felly gostyngodd y cyfraniad. Yn 2016–17, codwyd £156,000 arno (2015–16: £234,000).


3 Gan Gyngor Celfyddydau Lloegr tuag at y gost o sefydlu'r rhaglen Lleoedd Gwych yn Lloegr, y mae'n cyfrannu 50% o'r cyllid ati. Yn 2016–17, codwyd £100,000 arno (2015–16: £0).

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylid llwyddo i fod yn ddosbarthwr effeithlon arian y Loteri ar draul gwasanaeth ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae'n dda ganddynt adrodd, er y cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a dyfarniadau dros y blynyddoedd diwethaf, rydym yn parhau i fodloni ein targedau lefel gwasanaeth ar gyfer ymgeiswyr a grantïon. Mae gwybodaeth bellach am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael yn rhannau arall yr adroddiad hwn.

### Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae gan CGDG enw da fel dosbarthwr effeithlon arian y Loteri. Mae'r llinell ddu ar y siart ar dudalen 10 yn amlinellu ein costau gweithredu yn ystod pob un o'r ychydig o flynyddoedd diwethaf. Mae'r llinell lwyd yn dangos gwerth y costau gweithredu a aed iddynt yn ystod y flwyddyn y gwnaethom greu ein strwythur gweithredu cyfredol (2003–04) ac wedi'u cynyddu yn unol â dadchwyddydd cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) Trysorlys ei Mawrhydi, amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi'r DU. Er bod ein costau wedi codi yn ystod 2016–17, mae'n dda gan yr ymddiriedolwyr nodi bod costau gweithredu eleni yn £6.5miliwn yn is (neu 22%) nag y byddai chwyddiant ers 2003–04 wedi awgrymu, sy'n cynrychioli cryn ostyngiad mewn termau real i gostau gweithredu ac yn rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer grantiau. Pe bai'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei ddefnyddio yn lle'r dadchwyddydd CMC, byddai costau'n £10.2miliwn yn uwch (neu 45%) nag yr oeddent (pe bai'r Mynegai Prisiau Manwerthu'n cael ei ddefnyddio, byddai ein costau'n uwch o £7.6miliwn).

*Costau gweithredu gwirioneddol o gymharu â chostau ar ôl ystyried chwyddiant ar gyfer 2003–04 yn ôl blwyddyn*




| | 2008–09 | 2009–10 | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | **2016–17** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| - Costau – gwirioneddol *(£m)* | **20.0** | **19.4** | **17.6** | **17.4** | **18.7** | **19.2** | **19.8** | **20.3** | **22.5** |
| - Costau ar ôl ystyried chwyddiant (£m) – costau 2003–04 | 25.6 | 26.0 | 26.4 | 26.8 | 27.4 | 27.8 | 28.2 | 28.4 | 29.0 |

Noder nad oedd costau gweithredu o 2006–07 ac yn gynt yn cael eu cynhyrchu o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Yn 2016–17, gwnaethom gyflawni'r canlynol:

| | **Targed** | **Gwirioneddol 2016–17** | Gwirioneddol 2015–16 | Gwirioneddol 2014–15 | Gwirioneddol 2013–14 | Gwirioneddol 2012–13 | Gwirioneddol 2011–12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant gweithredu fel cyfran o gyfanswm yr incwm | **8%** | **6.9%** | 5.2% | 5.1% | 5.7% | 4.8% | 5.7% |
| Prosesu gwariant fel cyfran o gyfanswm yr incwm | **5%** | **4.8%** | 3.7% | 3.7% | 4.1% | 3.8% | 4.5% |

Mae'n dda gan ymddiriedolwyr nodi bod ein targedau'n parhau i gael eu bodloni er y cynnydd yn ein costau sylfaenol a'r ffaith bod nifer uchel y ceisiadau am grantiau a'r prosiectau sy'n cael eu monitro wedi parhau.

### Talu biliau

Mae CGDG yn dilyn y safon llywodraeth gyfan ar gyfer talu biliau, a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n datgan y dylid talu pob bil dilys o fewn 30 diwrnod. Yn 2016–17, yr amser cyfartalog ar gyfer talu anfoneb oedd pum diwrnod gwaith (2015–16: pum diwrnod gwaith). Talwyd 95% y cant o anfonebau o fewn 30 diwrnod calendr (2015–16: 96%).

Ffordd arall o fesur ein hymroddiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwyr – sef cymhareb y symiau masnach sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm y pryniannau yn ystod y flwyddyn mewn diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2017, y ffigur oedd 29 diwrnod (2015–16: 29 diwrnod).

### Adrodd am bolisïau amgylcheddol a chynaliadwyedd

Mae Trysorlys ei Mawrhydi yn gofyn i bob corff sector cyhoeddus baratoi adroddiad cynaliadwyedd blynyddol. Yn anffodus, nid yw'r gwaith o gasglu'r data hwn yn wyddoniaeth fanwl. Er enghraifft, nid oedd ond ychydig o landlordiaid ein deg swyddfa ranbarthol a chenedlaethol yn fodlon rhoi ffigurau inni ynglŷn â chilowatau awr o nwy neu drydan sy'n cael eu defnyddio, ac nid ydynt chwaith yn gallu ein bilio ni'n ddigon cyflym ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn darparu ffigurau mewn pryd i baratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Gan fod y rhan fwyaf o'n swyddfeydd ni'n adeiladau bach gyda landlordiaid sector preifat, mae adrodd mewn modd cwbl gadarn yn her. Mae

hyn yn golygu ei bod yn rhaid inni ddefnyddio amcangyfrifon ar gyfer y rhan fwyaf o'r swyddfeydd. Yn ogystal, rydym wedi llofnodi contract cost osod gyda chyflenwr dŵr ein prif swyddfa, sy'n golygu nad ydym bellach yn derbyn data defnydd. At ei gilydd, mae'r sefyllfa'n gwella ychydig gydag amser, ond mae'n dal i fod yn rhaid inni amcangyfrif llawer o'n defnydd ni. O 2013–14, gwnaethom hefyd ddechrau cyfrifo ein defnydd cyfwerth â charbon deuocsid ar gyfer dŵr a gwastraff.

Hefyd, mae'r ail dabl isod yn adrodd am ddata ar sail swyddi cyfwerth ag amser llawn – hynny yw, y defnydd ar gyfer pob aelod o staff. Fodd bynnag, gan ein bod yn cynnwys allyriadau a berir gan y rhai nad ydynt yn aelodau o staff, e.e. ymddiriedolwyr a rhai cyflenwyr, mae'n anodd ategu cymhariaeth rhai o'r rhifau hyn, dros y blynyddoedd ac â sefydliadau eraill.

Yn olaf, mae'r ffactorau trosi a ddefnyddir i gyfrifo'r carbon deuocsid cyfatebol ar gyfer ein hallyriadau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Fel arfer, mae'r newidiadau'n gymharol fach ond, er enghraifft, mae'r ffigurau ar gyfer rhai oeryddion a ddefnyddir mewn systemau aerdymheru wedi codi o tua 20% ar gyfer 2016–17, lle mae eraill wedi gostwng.

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn gweld llawer o werth mewn dyrannu adrodd am gynaliadwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau dyrannu'r Loteri. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cynnwys holl weithgareddau CGDG.

### Crynodeb o berfformiad

Mae ein hallyriadau nwy tŷ gwydr wedi gostwng yn 2016–17 ar sail gros a hefyd wrth edrych ar y ffigurau fesul swydd cyfwerth ag amser llawn.

Nid oes gan CGDG reolaeth dros ond un o'r adeiladau mae'n eu defnyddio, sef ei phencadlys yn Holbein Place yn Llundain. Yn 2010–11, gwnaethom gyfnewid y dyfeisiau oeri ar gyfer y system aerdymheru a'r boeleri ar gyfer y system wresogi, a oedd yn 25 mlwydd oed, a gosod goleuadau sy'n sensitif i symud a hefyd i olau dydd. Ar ôl cwblhau gwaith newid offer mor fawr, nid oedd llawer o le i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr ymhellach yn yr unig swyddfa rydym yn ei rheoli. Yn benodol, ni fyddem yn ystyried unrhyw wariant ar gyfer manteision tymor hir cyn ein bod wedi

Adrodd am gynaliadwyedd

| Maes | | **2016–17** | 2015–16 | 2014–15 | 2013–14 | 2012–13 | 2011–12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwy tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3, sy'n cynnwys teithio busnes gan gynnwys hediadau a threnau rhyngwladol (tunelli cyfwerth â $CO_2$) | | **417** | 635 | 591 | 489 | 550 | 747 |
| Ynni ystadau | – defnydd (miliwn kWh) | **0.7** | 1.1 | 1.1 | 0.9 | 1.1 | 1.3 |
| | – gwariant (£) | **486,315** | 488,361 | 429,425 | 445,624 | 489,638 | 384,532 |
| Gwastraff ystadau | – defnydd (tunelli) | **23** | 28 | 26 | 28 | 24 | 19 |
| | – gwariant (£) | **19,115** | 13,268 | 14,095 | 12,400 | 5,518 | 6,640 |
| Dŵr ystadau | – defnydd ($m^3$) | **4,040** | 4,350 | 4,889 | 5,655 | 3,757 | 5,223 |
| | – gwariant (£) | **12,089** | 7,413 | 11,825 | 14,182 | 11,253 | 18,786 |

Adrodd am gynaliadwyedd wedi'i normaleiddio gan gyfartaledd yr aelodau staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogid yn ystod y cyfnod

| Maes fesul pob aelod staff cyfwerth ag amser llawn | | **2016–17** | 2015–16 | 2014–15 | 2013–14 | 2012–13 | 2011–12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwy tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3, sy'n cynnwys teithio busnes gan gynnwys hediadau a threnau rhyngwladol (tunelli cyfwerth â $CO_2$) | | **1.4** | 2.3 | 2.3 | 1.9 | 2.2 | 3.3 |
| Ynni ystadau | – defnydd (kWh) | **2,524** | 4,105 | 4,134 | 3,595 | 4,249 | 5,701 |
| | – gwariant (£) | **1,648** | 1,744 | 1,639 | 1,716 | 1,986 | 1,679 |
| Gwastraff ystadau | – defnydd (tunelli) | **0.1** | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | – gwariant (£) | **65** | 47 | 54 | 48 | 22 | 29 |
| Dŵr ystadau | – defnydd ($m^3$) | **13** | 16 | 19 | 22 | 15 | 23 |
| | – gwariant (£) | **41** | 26 | 45 | 55 | 46 | 82 |

adnewyddu ein prydles yn Holbein Place. Bydd adolygiad rhent yn 2019.

Yn y deg adeilad arall rydym yn eu defnyddio, rydym yn dibynnu ar y landlord yn llwyr i wella perfformiad, ac mae'n annhebygol y bydd hynny'n digwydd rhwng cyfnodau o waith ailwampio mawr. Felly, mae ein lle i wella o ran allyriadau cwmpasau un a dau yn gyfyngedig iawn. Dros y blynyddoedd, rydym wedi adleoli rhai o'n swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol i adeiladau llai, a fydd wedi lleihau defnydd. Ers mis Mai 2011, rydym hefyd wedi gosod rhan o un llawr yn Holbein Place i'w rhentu, gyda'r effaith o leihau'r defnydd rydym yn adrodd amdano. Rydym hefyd yn disgwyl lleihau maint ein prydlesi swyddfa yn y dyfodol, gyda staff yn cael eu hannog i ddefnyddio desgiau poeth a gweithio gartref rhagor.

### Allyriadau nwy tŷ gwydr

Mae allyriadau ynni uniongyrchol yn gysylltiedig â'r nwy a ddefnyddir mewn boeleri sy'n cael eu gweithredu gan CGDG, ac allyriadau sy'n cael eu rhyddhau gan y defnydd o systemau aerdymheru yn ein pencadlys yn Llundain. Rydym yn derbyn gwybodaeth am ddefnydd nwy mewn cilowatau awr o anfonebau ein cyflenwyr.

Mae cilowatau awr yn cael eu trosi'n dunelli cyfwerth â charbon deuocsid gan ddefnyddio ffactor trosi o'r tablau *UK Government GHG Conversion Factors for Company Reporting.* Mae'r tablau hyn ar gael yn www.gov.uk/government/collections/government-conversion-factorsfor-company-reporting. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn gyfrifol am y data trosi ar y cyd.

Mae allyriadau ynni anuniongyrchol yn gysylltiedig â thrydan sy'n cael ei gynhyrchu gan sefydliadau eraill a'i werthu inni yn uniongyrchol, yn ogystal â'r gwres rydym yn ei brynu gan landlordiaid ein swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol. Rydym yn cael gwybodaeth am y defnydd mewn cilowatau awr gan ein landlordiaid pan fydd hynny'n bosibl, er y gall eu methodolegau amrywio. Mae cilowatau awr yn cael eu trosi'n dunelli cyfwerth â charbon deuocsid, gan ddefnyddio'r ffactor trosi perthnasol. Rydym yn dibynnu'n drwm ar ein landlordiaid i wella effeithlonrwydd.

Mae'r rhan fwyaf o'n teithio ni ar y trên ac mae ein prif gyflenwr tocynnau'n darparu manylion allyriadau cyfwerth â charbon deuocsid ar gyfer yr holl siwrneiau yr ymgymerir â nhw. Mewn modd tebyg, mae ein prif gyflenwr ceir llog yn rhoi data inni ynglŷn â'r allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i staff ddiweddaru taenlenni adrannol â gwybodaeth am yr holl siwrneiau yr ymgymerir â nhw gan staff, ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor, panelwyr arbenigol a chyflenwyr ar ein cofrestr o wasanaethau cymorth (yn ymarferol, y monitoriaid a'r mentoriaid rydym yn eu penodi i oruchwylio prosiectau rydym yn eu hariannu ar y cyd). Gofynnir i benaethiaid adran sicrhau bod eu staff yn cofnodi eu holl deithio. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei throsi'n dunelli cyfwerth â charbon deuocsid gan ddefnyddio rhannau perthnasol yr un tablau o ffactorau trosi.

### Gwastraff

Mae'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu wedi gostwng yn 2016–17 er y bu rhywfaint o waith ailwampio yn ein prif swyddfa. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni fod yn ofalus ynghylch cywirdeb rhifau oherwydd, fel y trafodir yn yr adran hon, nid oes ffordd ddibynadwy o fesur faint o wastraff rydym yn ei gynhyrchu gan mai'r cyfan sy'n digwydd yw ei fod yn cael ei gasglu gan gynghorau ac ni fyddai caffael offer pwyso dim ond i wella ein hadrodd am y ffactor hwn yn ddefnydd priodol o adnoddau. Byddwn yn parhau i chwilio am ffordd ymarferol o gyfrifo ffigur dibynadwy. Rydym yn credu bod y ffigur ar gyfer 2015–16 yn uwch na'r tueddiad hirdymor oherwydd ei fod wedi cael ei effeithio gan symud swyddfeydd; mae'n anochel y bydd y lefel o wastraff yn codi pan fydd symud rhwng swyddfeydd gan fod y cyfle'n cael ei ddefnyddio i gael gwared ar eitemau dros ben sydd wedi cael eu cronni dros y blynyddoedd.

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid yw'n bosibl gwneud dadansoddiad pellach o'r hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff a gynhyrchwyd gennym. Mae'r holl wastraff na ellir ei ailgylchu'n cael ei gasglu gan gynghorau lleol yr ardal mae'r swyddfeydd yn gweithredu ynddi. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud gyda'r gwastraff ac rydym wedi gwneud tybiaethau

ynghylch lle mae'r gwastraff yn mynd er mwyn cynhyrchu'r ffigurau ar dudalen 11. Dim ond Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea sy'n ein hanfonebu ar wahân, ond rydym bellach wedi dechrau cynnwys cost casglu papur sydd wedi cael ei larpio yn y ffigurau. Rydym yn gwneud pob ymdrech i leihau faint o bapur rydym yn ei ddefnyddio, ac o ganlyniad faint rydym yn ei daflu. Mae rhagor o gosb yn cael ei rhoi ar dimau os ydynt yn mynd dros eu cyllideb lungopïo, mae dyfeisiau trydanol yn cael eu dosbarthu i staff i'w hannog i gynnal cyfarfodydd sy'n rhydd rhag papur, ac rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i swyddfeydd newydd fod yn llai na'r rhai cyfredol pan fydd prydlesi'n dod i ben.

Rydym hefyd yn bwriadu digideiddio'r rhan fwyaf o'n storfeydd archif yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at gynnydd un tro i faint o bapur rydym yn cael gwared arno. Fodd bynnag, dylai'r arbedion cost tymor hir fod yn sylweddol.

Mae ein swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol yn ddigon bach i bwyso'r gwastraff maent yn ei gynhyrchu. Nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y swmp llawer mwy o wastraff sy'n cael ei gasglu gan Fwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea, gan nad yw'r cyngor yn dweud wrthym am bwysau'r gwastraff mae'n ei gasglu. Rydym felly wedi amcangyfrif faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan bob unigolyn trwy amcangyfrif pwysau bag safonol o wastraff.

#### Defnydd adnoddau

Gostyngodd y defnydd o ddŵr yn 2016–17. Lle bo modd, rydym yn darbwyllo ein landlordiaid i ddarparu gwybodaeth am nifer y metrau ciwbig o ddŵr a ddefnyddir, sydd fel arfer yn seiliedig ar y lle rydym yn ei ddefnyddio yn hytrach na medryddu unigol. Yn 2015–16, gwnaethom osod cyfleusterau tai bach mwy effeithlon yn ein prif swyddfa. Rydym hefyd wedi llofnodi contract pris gosod ar gyfer cyflenwi dŵr i'n prif swyddfa. Mae hyn wedi arwain at gost is o lawer ond ar draul derbyn manylion ynglŷn â'r union ddefnydd gan y cyflenwr. Felly, rydym wedi defnyddio'r ffigur ar gyfer 2014–15.

Ddwy flynedd yn ôl, gwnaethom gynnal adolygiad o'r defnydd o drydan yn ein prif swyddfa. Roedd hyn yn cynnwys archwilio i'r defnydd o bŵer ar bob llawr trwy osod medryddion a chynnal gwaith cynnal a chadw gwell i wella effeithlonrwydd ein dyfeisiau trydanol. Mae defnydd o ynni ein hystadau wedi gostwng ers hynny. Gwnaethom lofnodi contractau i gapio costau nwy a thrydan ar gyfer ein prif swyddfa yn 2016–17 a thu hwnt. Fodd bynnag, rydym yn derbyn bod y tywydd yn cael effaith fwy ar ein defnydd nag unrhyw welliannau y gallem eu gwneud i'n heffeithlonrwydd ynni.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2017

## Adroddiad atebolrwydd

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadau strwythurau llywodraethu CGDG a sut maent yn ategu'r gwaith o gyflawni ein hamcanion.

### *Adroddiad y cyfarwyddwyr*

**Cadeirydd ac ymddiriedolwyr CGDG**

Cadeirydd
Syr Peter Luff [2]

Ymddiriedolwyr
Barwnes Kay Andrews OBE *o 1 Ebrill 2016*
Anna Carragher *o 7 Hydref 2016*
Syr Neil Cossons OBE
Sandie Dawe [1] CBE
Dr Angela Dean [1]
Syr Roger De Haan CBE [2] *i 19 Ionawr 2017*
Jim Dixon [1]
David Heathcoat-Amory [1] *i 19 Ionawr 017*
Perdita Hunt [2] DL OBE
Steve Miller
Richard Morris OBE
Atul Patel [2]
Y Fonesig Seona Reid DBE
Dr Tom Tew

Prif Weithredwr
Carole Souter CBE [2] *i 2 Mai 2016*
Colin Bailey [2] *dros dro o 3 Mai 2016 i 3 Gorffennaf 2016*
Ros Kerslake OBE [2] *o 4 Gorffennaf 2016*

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg
2 Aelod o'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (sy'n cynnwys taliadau cydnabyddiaeth hefyd )
Ceir manylion uwch-reolwyr eraill o fewn yr adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff ar dudalen 26.

Roedd y gymhareb o ran rhyw ein staff ar 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr | 7 | 6 | **13** |

**Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr**

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau cenedlaethol a rhanbarthol yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau am grantiau a chydberthnasau masnachol â CGDG, ac yn eithrio eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol o fewn CGDG. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grantiau, mae ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol er mwyn i'r staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan CDL – https://cymraeg.hlf.org.uk.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Mae ein hamcanestyniadau ar gyfer incwm yn 2017–18 a thu hwnt tua £325miliwn. Ar y sail hon, ac yn unol â'r fframwaith ariannol a osodwyd gan yr ymddiriedolwyr ym mis Rhagfyr 2014 gyda'r nod penodol o atal y balans yn CDLG rhag codi'n rhy uchel, mae'r ymddiriedolwyr wedi cynnig cyllideb dyfarnu grantiau o £300miliwn ar gyfer 2017–18 a blynyddoedd y dyfodol. Mae'r gostyngiad sylweddol mewn incwm yn 2016–17 yn ein hatgoffa ni i fod yn ochelgar ynghylch amcanestyniadau incwm, a byddwn yn monitro incwm yn fisol ac yn argymell addasiadau i gyllidebau grant i ymddiriedolwyr os oes unrhyw dueddiadau sy'n peri pryder.

Mae 2017–18 ar ôl pwynt canol ein fframwaith strategol ar gyfer 2013–19, sef Fframwaith Strategol 4 (estynnwyd fframwaith gwreiddiol 2013–18 o un flwyddyn), ac mae ein meddyliau'n troi at y fframwaith canlynol (Fframwaith Strategol 5). Ar yr un pryd â chynllunio gwaith ar gyfer y fframwaith nesaf, byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o brosesau busnes i ailwampio ein dulliau ar gyfer cyflawni'r fframwaith.

O fewn ein fframwaith cyfredol, gwnaethom bennu canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni grant fel a ganlyn:

Canlyniadau treftadaeth fel y byddai treftadaeth:
- yn cael ei rheoli'n well*;
- mewn cyflwr gwell*;
- yn cael ei dehongli a'i hesbonio'n well; ac
- yn cael ei hadnabod a'i chofnodi'n well.

Canlyniadau unigol fel byddai pobl:
- yn dysgu am dreftadaeth**;
- yn datblygu sgiliau*;
- yn newid eu hagweddau a/neu ymddygiad;

- yn cael profiad pleserus; ac
- yn gwirfoddoli amser.

Canlyniadau i'r gymuned a'r gymdeithas fel y byddai

- effeithiau amgylcheddol yn cael eu lleihau**;
- amrediad ehangach o bobl wedi ymgysylltu â threftadaeth**;
- sefydliadau'n fwy cydnerth;
- yr economïau lleol wedi cael eu hybu; ac
- ardaloedd/cymunedau lleol yn lle gwell i fyw ac i weithio ynddynt, ac i ymweld â nhw.

* Caiff y canlyniadau hyn eu pwysoli ar gyfer grantiau dros £100,000

** Caiff y canlyniadau hyn eu pwysoli ar gyfer pob grant

Mae Fframwaith Strategol 4 yn gosod y sefyllfa gyffredinol, y dull o gyllido, a sut y byddwn yn cyflawni ein strategaeth trwy bolisïau, rhaglenni a mentrau. Mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn fodlon ar gadernid y dull strategol hwn a'r cynnydd hyd yn hyn wrth gyflawni nodau ac amcanion y fframwaith.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y fframwaith, gwnaethom lansio chwe rhaglen grant newydd:

- Rhannu Treftadaeth;
- Grantiau Cychwynnol;
- Cyllid Trosglwyddo;
- Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw;
- Menter Treftadaeth; a
- Grantiau ar gyfer Mannau Addoli (GPOW).

Yn ystod 2016–17, gwnaethom ychwanegu Treftadaeth Gydnerth a Thynnu'r Llwch yn ogystal â phrosiect peilot bach gyda Nesta i ymchwilio i botensial cyllido torfol er mwyn amrywio cyllido yn y sector diwylliannol. Gwnaethom hefyd ymgymryd â'r rhaglen Lleoedd Gwych, a gafodd ei pheilota gyntaf yn Lloegr; yn ystod 2017–18, bydd yn cael ei hestyn i Ogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Rydym yn cydnabod bod creu rhaglenni newydd yn costio ac rydym yn credu ein bod wedi cynyddu ein portffolio i'r eithaf – felly, nid oes gennym gynlluniau ar gyfer unrhyw raglenni newydd nes i Fframwaith Strategol 5 ddod yn weithredol.

### Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol CGDG gan y rheolwr ac archwilydd cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu'r Loteri ymddiriedolwyr.

### Rhanddeiliaid allweddol

Rydym yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid allweddol ac yn ymgynghori â nhw'n helaeth wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a'n polisïau ac arfer dyfarnu grantiau. Yn eu plith y mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri, ymgeiswyr a grantïon, asiantaethau strategola chyrff arweiniol ar gyfer treftadaeth a meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllido ledled y DU, ac aelodau etholedig ar gyfer llywodraethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y DU gyfan (gweler tudalennau 63–73) ac yn rheoli CDLG, sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir o'r Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd.

### Ychwanegedd

Yn unol â chyfarwyddyd ariannol yr ysgrifennydd dros ddiwylliant, mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr arian y Loteri ystyried egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau Loteri yw y dylai ein harian fod yn ychwanegol i'r arian sydd ar gael gan y llywodraeth, ac nid yn ei le. Felly, ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau os ydym yn credu bod arian ar gael gan y llywodraeth ar adeg y penderfyniad. Yn rhan o'n prosesau asesu grantiau, rydym yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno achos clir dros fuddsoddiad arian Loteri, gan gynnwys dweud wrthym pa ffynonellau arian eraill sydd wedi cael eu hystyried.

### Data personol

Ni chafodd CGDG unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti, ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

## *Datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r swyddog cyfrifyddu*

O dan Adran 7 (3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant gyda chydsyniad Trysorlys ei Mawrhydi. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i hincwm a'i gwariant, adenillion a cholledion cydnabyddedig, a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau pwysig yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu.

Yn dilyn ymddeoliad Carol Souter CBE ym mis Mai 2016, gwnaeth prif swyddog cyfrifyddu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon benodi cyfarwyddwr cyllid a gwasanaethau corfforol yn brif weithredwr a swyddog cyfrifyddu dros dro ar gyfer y

Gronfa nes i Ros Kerslake OBE gyrraedd ym mis Gorffennaf 2016. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel swyddog cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r swyddog cyfrifyddu yn atebol amdano, am ddiogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol, yn cael eu hamlinellu yn yr adran sydd â'r teitl 'Accounting Officers' yn *Managing Public Money.*

Hyd y gŵyr y swyddog cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r swyddog cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## *Datganiad llywodraethu*

### Rhagair

Cefais fy mhenodi'n brif weithredwr a swyddog cyfrifyddu ar 4 Gorffennaf 2016. Fy rhagflaenydd oedd Carole Souter CBE, a ymddeolodd ar 2 Mai 2016.

Penodwyd Colin Bailey, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, yn brif weithredwr a swyddog cyfrifyddu dros dro o 3 Mai i 3 Gorffennaf 2016. Bu yn ei swydd wreiddiol cyn y cyfnod hwn ac aeth yn ôl iddi ar 4 Gorffennaf.

Rwyf wedi bodloni fy hun y bu trefniadau trosglwyddo cadarn a phriodol a oedd yn caniatáu i'r system o reolaethau mewnol weithredu'n effeithiol trwy gydol y cyfnod trosglwyddo hwn. Rwyf hefyd yn fodlon y bu trefniadau trosglwyddo effeithiol ar waith yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

### Cyflwyniad

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn grynodeb o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth CGDG, gan gynnwys sut rydym yn rheoli risg ac yn cydymffurfio â chod llywodraethu corfforaethol 2011 Trysorlys ei Mawrhydi ar gyfer adrannau'r llywodraeth ganolog.

Fel swyddog cyfrifyddu CGDG, mae'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant wedi pennu gofyniad i mi gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm, cymorth grant ac arian a ddeillir o'r Loteri Genedlaethol. Rwyf hefyd yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaethau mewnol sy'n cefnogi CGDG i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion, wrth ddiogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus rwy'n gyfrifol amdanynt yn bersonol. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Managing Public Money.*

Gweithredir CGDG a CDL fel endid unigol gan y credaf fod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. O ganlyniad, mae un strwythur llywodraethu ac mae'r datganiad hwn yn cwmpasu dosbarthiad grantiau cymorth grant a grantiau'r Loteri.

### Y strwythur llywodraethu

Amlinellir strwythur llywodraethu CGDG yn y diagram isod.

### Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- cymeradwyo dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- cymeradwyo cyllidebau gweinyddu a rhaglenni grant;
- goruchwylio'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau CGDG; ac
- adrodd am stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel grŵp a gwnaethant gynnal 11 cyfarfod yn ystod y flwyddyn i osod polisi ar gyfer CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y prif weithredwr a'r Bwrdd Rheoli. Roedd cworwm ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2016–17. Syr Peter Luff yw cadeirydd CGDG a chynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd trwy gydol y flwyddyn rhwng y cadeirydd, y prif weithredwr(wyr) a'r cyfarwyddwyr.

Fel arfer, mae'r Bwrdd yn cynnwys 15 o ymddiriedolwyr, gan gynnwys y cadeirydd, sef yr uchafswm a ganiateir. Yn 2016–17, penderfynwyd lleihau nifer cyffredinol yr ymddiriedolwyr er mwyn cydymffurfio'n well â chod llywodraethu corfforaethol Trysorlys ei Mawrhydi ar gyfer adrannau'r llywodraeth ganolog ac i wella effeithiolrwydd y Bwrdd. Mae'r nifer wedi cael ei leihau i 13 o ymddiriedolwyr yn dilyn ymddeoliad Syr Roger de Haan CBE a David Heathcoat-Amory pan ddaeth eu telerau swydd i ben ym mis Ionawr 2017.

Cymeradwywyd y newidiadau hyn gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r prif weinidog (gan fod yr ymddiriedolwyr a benodir yn dod o dan gylch gwaith y prif weinidog). Cytunodd yr adran a'r prif weinidog hefyd y gallai tymhorau rhai ymddiriedolwyr eraill gael eu hestyn neu y gellid rhoi ail dymor er mwyn darwahanu penodiadau'r dyfodol mewn modd synhwyrol dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf.

Gwnaeth Barwnes Kay Andrews OBE gymryd yr awenau fel ymddiriedolwr Cymru o fis Ebrill 2016, a phenodwyd Anna Carragher fel ymddiriedolwr Gogledd Iwerddon o fis Hydref 2016.

Roedd cyfradd presenoldeb yr ymddiriedolwyr yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd yn 92%. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u tasgau i'r tri phwyllgor a ddangosir yn y tabl isod – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau'r rheolwyr, ac yn rhoi arweiniad a chymorth i uwch staff. Mae cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn eitemau parhaol yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae cadeiryddion y pwyllgorau hefyd yn cyflwyno adroddiad llawn am eu gweithgareddau.

*Y strwythur llywodraethu*



Roedd y rhai a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd trwy gydol 2016–17 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff | 11 | 11 |
| Barwnes Kay Andrews OBE *o 1 Ebrill 2016* | 11 | 10 |
| Anna Carragher *o 7 Hydref 2016* | 6 | 6 |
| Syr Neil Cossons OBE | 11 | 10 |
| Sandie Dawe CBE | 11 | 9 |
| Syr Roger De Haan CBE *hyd at 19 Ionawr 2017* | 9 | 8 |
| Dr Angela Dean | 11 | 11 |
| Jim Dixon | 11 | 9 |
| David Heathcoat-Amory *hyd at 19 Ionawr 2017* | 9 | 9 |
| Perdita Hunt DL OBE | 11 | 10 |
| Steve Miller | 11 | 10 |
| Richard Morris OBE | 11 | 10 |
| Atul Patel | 11 | 11 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE | 11 | 10 |
| Dr Tom Tew | 11 | 10 |

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd hefyd benderfynu sefydlu paneli gwneud penderfyniadau dirprwyedig, a oedd yn cynnwys is-set o ymddiriedolwyr, ar gyfer rhai o'r rhaglenni. Yn 2016–17, roedd y rhain yn ymdrin â phenderfyniadau ynglŷn â rhaglenni Treftadaeth Treflun, Gwaddolion Treftadaeth, a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol. Yn 2017–18, byddwn yn ystyried rhaglenni Tynnu'r Llwch a Pharciau i Bobl (yr olaf ynghyd â chynrychiolwyr o'r Gronfa Loteri Fawr).

### Aelodau'r Bwrdd

O blith y 15 ymddiriedolwr a wnaeth fynychu'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn, roedd 40% yn fenywod a 60% yn ddynion. Roedd un (7%) yn perthyn i grŵp lleiafrifol ethnig.

### Gwrthdaro buddiannau o fewn y Bwrdd

Ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd, gofynnir i'r holl ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Nodir y rhain yn y cofnodion, ac mae'r ymddiriedolwyr a'r staff yn tynnu'n ôl o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny. Mae ymddiriedolwyr a staff hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion ar y Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr yn cael eu cynnal a'u diweddaru fel y bo'r angen.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Yn dilyn hyfforddiant yn 2014–15, gwnaethpwyd nifer o welliannau er mwyn gwella effeithiolrwydd y pwyllgor ymhellach. Mae'r rhain wedi parhau'n llwyddiannus drwy gydol 2016–17 – er enghraifft, cyn-gyfarfodydd preifat gan yr ymddiriedolwyr a chyda'r archwilwyr, ac eitemau parhaol ynglŷn â chwblhau argymhellion archwiliadau mewnol ac eithriadau caffael.

Gwnaeth y prif weithredwr a'r cyfarwyddwr cyllid a gwasanaethau corfforaethol fynychu pob cyfarfod pwyllgor, gydag uwch staff eraill yn mynychu yn ôl y gofyn. Mae'r pwyllgor yn cael ei gefnogi a'i wasanaethu gan Ysgrifenyddiaeth y Gronfa. Mae archwilwyr allanol y Gronfa (Swyddfa Archwilio Genedlaethol) a'r archwilwyr mewnol (Moore Stephens) yn mynychu'r cyfarfod hefyd.

Cytunodd y pwyllgor ar strategaeth archwilio tair blynedd gyda Moore Stephens ar adeg eu penodi. Roedd yr adolygiadau a wnaed yn ystod 2016–17 ac a adroddwyd i'r pwyllgor yn unol â'r dull strategol hwn. Mae cynllun manwl un flwyddyn o'r adolygiadau archwilio mewnol yn cael ei gymeradwyo bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor adroddiadau ar:

- fonitro prosiectau grant wedi iddynt gael eu cwblhau;
- cofnodion a rheoli gwybodaeth;
- rheolaethau cyllidol a rheoli perfformiad;
- systemau ariannol craidd;
- prosesau adnoddau dynol; a
- chaffael a rheoli contractau.

Mae cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu rhannu â'r Bwrdd, yn ogystal ag adroddiad blynyddol ffurfiol ar fusnes. Mae cadeirydd y pwyllgor yn rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer CGDG a CDL. Yn ystod 2016–17, yn ogystal

â'r adroddiadau a chyfrifon uchod, ystyriodd y pwyllgor y canlynol hefyd:

- y trefniadau ar gyfer cyfuno'r prosesau rheoli risg newydd ar lefel adrannol;
- achosion o dwyll a thwyll honedig; a
- threfniadau caffael, gan gynnwys unrhyw eithriadau i dendrau caffael arferol.

Gwnaeth y pwyllgor wella'r trefniadau adrodd ar gyfer achosion o dwyll a thwyll honedig er mwyn gwella tryloywder, dealltwriaeth o'r mathau gwahanol o achosion, a chynnydd o ran ymchwilio i achosion o'r fath.

Roedd y presenoldeb yng nghyfarfodydd y pwyllgor trwy gydol 2016–17 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Angela Dean *Cadeirydd* | 4 | 4 |
| Sandie Dawe CBE | 4 | 4 |
| Jim Dixon | 4 | 1 |
| David Heathcoat-Amory *hyd at 19 Ionawr 2017* | 3 | 3 |

### Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau

Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn, ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan ymddiriedolwr. Cyfarfu'r pwyllgor am bedwerydd tro, gan eistedd fel y Pwyllgor Tâl, er mwyn cytuno ar fonysau perfformiad ar gyfer uwch staff.

Mynychodd y prif weithredwr bob cyfarfod pwyllgor fel aelod. Mae'r cyfarwyddwr cyllid a gwasanaethau corfforaethol a'r cyfarwyddwr gweithrediadau'n mynychu cyfarfodydd, gydag uwch aelodau staff eraill yn mynychu fel y bo'r angen. Mae'r pwyllgor yn cael ei gefnogi a'i wasanaethu gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Mae'r pwyllgor yn goruchwylio staffio a rheolaethau recriwtio a ddefnyddir gan uwch-reolwyr. Bu i'r pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r canlynol yn ystod y flwyddyn hefyd:

- cyfrifon rheoli a gwybodaeth am reolaeth ariannol (gan gynnwys targedau effeithlonrwydd);
- data perfformiad yn erbyn safonau gweithredol a gwasanaeth;
- data rheoli perfformiad arall;
- data am lefelau staffio a phersonél fel absenoldeb oherwydd salwch, hyfforddiant, a gwariant ar ddatblygiad;
- cynigion buddsoddi TG; a
- strategaethau gweithredol ar gyfer TG, ystadau, adnoddau dynol a chyllid.

Cymeradwyodd y pwyllgor y cyllidebau arfaethedig ar gyfer rhaglenni grant a gweinyddiaeth i'w cyflwyno i'r Bwrdd. Bu i'r pwyllgor hefyd argymell ein cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2017–18 ('y Cynllun Busnes').

Mae cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu rhannu â'r Bwrdd, yn ogystal ag adroddiad ffurfiol ar fusnes bob chwe mis. Mae cadeirydd y pwyllgor yn rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ynglŷn â busnes a phenderfyniadau'r pwyllgor.

Roedd y presenoldeb yng nghyfarfodydd y pwyllgor trwy gydol 2016–17 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Atul Patel *Cadeirydd* | 3 | 3 |
| Syr Peter Luff | 3 | 2 |
| Colin Bailey *fel prif swyddog gweithredol dros dro* | 1 | 1 |
| Syr Roger De Haan CBE *hyd at 19 Ionawr 2017* | 2 | 2 |
| Perdita Hunt DL OBE | 3 | 1 |
| Ros Kerslake OBE *o 4 Gorffennaf 2016* | 2 | 2 |

### Pwyllgor Cyfathrebu

Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn, ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan ymddiriedolwr. Mae'r pwyllgor yn cynghori ar y strategaeth gyfathrebu ac yn gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer mentrau allweddol. Ym mis Rhagfyr 2016, penderfynwyd y byddai'n bosibl gwneud gwaith y pwyllgor yn fwy effeithiol drwy gyswllt beunyddiol rhwng y cadeirydd, y prif weithredwr a'r ymddiriedolwyr yn ôl yr angen. Daeth y pwyllgor i ben yn y fan hon.

Roedd y presenoldeb yng nghyfarfodydd y pwyllgor trwy gydol 2016–17 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff | 3 | 3 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE | 3 | 1 |
| Jim Dixon | 3 | 1 |
| Dr Tom Tew | 3 | 3 |

### Dirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o ddyfarniadau'r Loteri i bwyllgorau gwledydd a rhanbarthau. Mae 12 pwyllgor ac mae pob un yn cynnwys un ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau, mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu hardal, ac maent yn gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer gwaith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri. Mae cadeiryddion pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau'n cyfarfod â chadeirydd y Bwrdd a'r prif weithredwr, ynghyd ag uwch aelodau staff, ddwywaith y flwyddyn.

Mae aelodau newydd o'r pwyllgorau hyn yn cael sesiwn sefydlu ffurfiol gyda'r prif weithredwr ac uwch aelodau staff trwy gydol y flwyddyn, gan ddibynnu ar y cylch recriwtio a phenodi. Yn ystod 2016–17, gwnaethom gynnal sesiynau sefydlu ffurfiol ar gyfer nifer o aelodau newydd.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau o dan £100,000 i staff, yn benodol penaethiaid gweithrediadau mewn gwledydd a rhanbarthau. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar effaith grantiau dirprwyedig ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau a staff eu hadrodd i'r Bwrdd.

### Bwrdd Rheoli

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd i'r prif weithredwr, a gefnogir gan y Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys yr holl gyfarwyddwyr a dirprwy gyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd Rheoli'n cyfarfod yn wythnosol i gytuno ar gamau gweithredu ac ymatebion rheolwyr ynglŷn â materion gweithredu. Mae pob cyfarwyddwr adrannol yn cyflwyno adroddiad misol i'r Bwrdd ynglŷn â gweithgareddau a materion o fewn ei gylch gwaith. Mae'r prif weithredwr hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Fforwm Rheolwyr, sy'n cynnwys uwch-reolwyr a rheolwyr canol, ac yn sicrhau bod penderfyniadau a chyfarwyddiadau'r Bwrdd yn cael eu cyfathrebu'n uniongyrchol i aelodau staff allweddol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys adroddiadau llafar ar weithgareddau ar draws pob adran yn ogystal â thrafodaethau ar faterion thematig sy'n effeithio ar bob tîm – er enghraifft, rheoli risg a chynllunio busnes.

### Strwythur

Mae'r prif weithredwr yn cynnal strwythur pedair adran fel a ganlyn:

- Gweithrediadau;
- Datblygu Busnes a Strategaeth;
- Cyfathrebu; a
- Chyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae tîm yr Ysgrifenyddiaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r prif weithredwr.

Mae'r Cynllun Busnes yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn ochr yn ochr â'r cyllidebau ariannol a chynllunio rhaglenni grant. Fel o'r blaen, eleni rydym hefyd wedi integreiddio rheoli risg i mewn i'r broses cynllunio busnes. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sydd hefyd yn pennu cyfarwyddiadau ynglŷn â pholisi a chyllid, yr ydym wedi cydymffurfio â nhw yn ein gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Loteri. Mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â gweithgareddau'r Loteri yn y gwledydd hynny, ac rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny hefyd.

Rydym yn gweithredu yn unol â Chytundeb Rheoli a Memorandwm Ariannol ('Cytundeb Rheoli') rhyngom ni a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd â swyddogion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Diweddarwyd y Cytundeb Rheoli eleni a rhoddwyd cytundeb newydd ar waith ar gyfer 2016–20. Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i hwn i'w hadrodd.

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddwyd y byddem yn destun adolygiad wedi'i deilwra o'n gwaith, o dan arweiniad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Disgwylir yr adroddiad hwn yn 2017–18.

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae ein system o reoli risg a rheolaeth fewnol wedi'i dylunio i reoli risg hyd at lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisïau, nodau ac amcanion. Felly, gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig yn hytrach na sicrwydd llwyr. Yn arbennig, credaf yn bendant na ddylai'r dull o reoli risg rwystro arloesedd na newid i fusnes, lle y bo'r angen. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac i werthuso tebygolrwydd unrhyw risgiau a'u heffaith bosibl.

Caiff pob proses pennu polisi a phenderfynu ynglŷn â grantiau ei llywio gan ddiwylliant a dull rheoli risg CGDG. Yn 2014–15, gwnaeth y Bwrdd Rheoli ailwampio ein dull ar gyfer rheoli risg yn rhan o ymarfer ehangach ar sicrwydd ar draws CGDG. Yn 2015–16, gwnaethom ymgorffori hyn ymhellach mewn adrannau unigol, wrth i bob un ailadrodd y broses o ganfod a rheoli risg. Erbyn hyn, mae gan bob adran ei chofrestr risg ei hun i gefnogi'r gofrestr risg gorfforaethol. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2016–17.

Mae'r cofrestrau a'r broses sy'n sail iddynt yn penodi perchennog risg sy'n atebol i'r prif weithredwr am reoli'r risg honno'n effeithiol. Mae'r cofrestrau hefyd yn nodi risgiau cysylltiedig er mwyn ystyried unrhyw effaith gan luosydd. Maent hefyd yn gwahaniaethu rhwng y lefel risg gynhenid (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg weddillol fel bod modd barnu effeithiolrwydd rheolaethau a dulliau presennol ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hyn hefyd yn caniatáu i berchennog y risg nodi'r mesurau ychwanegol sydd eu hangen i ddod â'r risg o fewn ein harchwaeth risg a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau gweithredu hynny.

Gwnaeth y Bwrdd adolygu ei archwaeth risg ar gyfer 2017–18 hefyd. Mae'r newidiadau yn adlewyrchu mwy o awydd am newidiadau busnes a thrawsnewid a llai o awydd am barhad busnes. Gwnaeth y Bwrdd hefyd gydnabod y risgiau a'r heriau sy'n wynebu CGDG yn 2017–18, yn arbennig o ran ei swyddogaeth dosbarthu cyllid y Loteri, y disgwylir iddynt esblygu o'r meysydd o risg mwyaf sylweddol ar gyfer 2016–17 fel yr amlinellir isod. Yn ystod y flwyddyn sydd ar ddod, bydd rheoli risgiau yn effeithiol yn arbennig o bwysig.

Rydym hefyd yn cydnabod y dylid annog cymryd risgiau a ystyriwyd ac arloesedd er mwyn cyflawni nodau CGDG. Credaf fod y Gronfa'n dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n mynd ati'n syml i wneud penderfyniadau sy'n rhydd o risg.

I'r perwyl hwn, rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau yr ydym yn rhoi grantiau iddynt yn dangos cymhwysedd llawn wrth weinyddu'r grant hwnnw. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau, ac, o dan amgylchiadau prin, yn dileu'r grant. Mewn achosion lle yr amheuwn dwyll neu ymddygiad amhriodol, byddwn yn hysbysu'r heddlu am yr achos er mwyn ymchwilio iddo ymhellach. Fi sydd yn cymeradwyo pob achos o ddileu grantiau ac mae hyn yn caniatáu imi fonitro cyfanswm yr arian sy'n cael ei ddileu bob blwyddyn er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'n prosesau asesu a monitro.

Fel y gellir gweld o nodyn 16 ar dudalen 62, mae lefel y grantiau sy'n cael eu dileu yn hynod fach o'i chymharu â lefel y grantiau a ddyrennir gennym bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid a gafwyd mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gwaith yn rhy feichus i ymgeiswyr. O ganlyniad, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw reswm i boeni o ran lefel y risg sydd ymhlyg â'n prosesau dyfarnu grantiau.

Yn 2016–17, ystyriodd CGDG mai'r canlynol yw'r meysydd o risg mwyaf sylweddol:

- nid ystyrir ein bod yn effeithiol o ran diogelu treftadaeth ledled y Deyrnas Unedig;
- mae buddsoddiadau'r Loteri yn y gorffennol yn cael eu peryglu o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllid/buddsoddiad neu newidiadau i fodelau gweithredu'r rhai sy'n derbyn grantiau;

- efallai y bydd datganoli yn gofyn am newidiadau i'n model busnes;
- maint, amrywiaeth ac anwadalwch beichiau gwaith;
- effeithiau gwrthwynebus yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd; ac
- amrywiadau yn ein cyllid gan y Loteri Genedlaethol.

O ran y risg mewn perthynas ag amrywiaethau yn ein cyllid gan y Loteri Genedlaethol, ar ôl nifer o flynyddoedd o dderbyn lefelau incwm uwch nag erioed, gwnaeth ein hincwm Loteri leihau yn 2016–17 a chafwyd amrywiadau yn yr incwm drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Comisiwn Hapchwarae, Camelot a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol er mwyn deall yr achosion sydd wrth wraidd yr amrywiaethau hyn a sut y gallai'r rhain gael eu lliniaru'n llwyddiannus lle bo modd. Rydym hefyd wedi cytuno ar gamau eraill gyda'r rhanddeiliaid hyn er mwyn helpu i hyrwyddo brand y Loteri Genedlaethol a'r arian a godir ganddi at achosion da.

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar y Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am ei rheoli ac am sicrhau bod camau lliniaru priodol yn cael eu dilyn.

### Cronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig

Yn ystod Datganiad Hydref mis Rhagfyr 2014 a chyllideb mis Mawrth 2015, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai CGDG yn dyrannu cynllun grantiau ar gyfer mannau addoli rhestredig ledled y DU. Roedd gwerth gwreiddiol y rhan gyntaf o'r rhaglen yn £30miliwn yn 2014–15, a chyhoeddwyd £25miliwn pellach ar gyfer 2016–17.

Gwahoddwyd i geisiadau ar gyfer yr ail rownd gael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Chwefror 2016, a chafodd y rhain eu rheoli a'u prosesu'n llwyddiannus wedi hynny. Er mwyn parhau i reoli risg y rhaglen ychwanegol hon, rydym wedi gweithredu'r canlynol:

- penodi uwch-gyfarwyddwr rhaglen profiadol i reoli'r broses o'r cychwyn hyd y diwedd;
- goruchwyliaeth agos gan ddirprwy gyfarwyddwr gweithrediadau er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol;
- defnyddio staff profiadol sy'n ymwybodol o risgiau mewn swyddogaethau cymorth er mwyn cynorthwyo â chyflawni gweithredol;
- cytundeb cyllido ar wahân gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; a
- dyblygu rheolaethau, prosesau a systemau presennol sydd wedi'u hir sefydlu.

Gwnaeth y dull hwn ganiatáu inni gyflawni ail rownd y cam ymgeisio yn llwyddiannus. Gwnaethpwyd y cyhoeddiadau a phenderfyniadau grantiau yn haf 2016. Mewn cytundeb â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys ei Mawrhydi, mae £1miliwn wedi cael ei drosglwyddo o 2016–17 i 2017–18 er mwyn caniatáu inni gwblhau camau olaf y prosiectau sydd ar ôl gennym.

### Ymagwedd at dwyll a risg gwybodaeth

Mae gan CGDG bolisi twyll sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Gwnaeth yr holl aelodau staff o fewn CGDG ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol ar ymwybyddiaeth twyll yn 2015–16, a gafodd ei ddarparu gan dîm sicrwydd arbenigol o Moore Stephens gyda chymorth tîm ariannol CGDG. Roedd hwn yn canolbwyntio ar y risg o dwyll mewn perthynas â'r canlynol:

- dyrannu grantiau;
- caffaeliadau; a
- meysydd cyffredinol o dwyll.

Gwnaeth yr hyfforddiant hefyd nodi meysydd sy'n peri risg i CGDG a sut y gellid eu canfod a mynd i'r afael â nhw. Rydym wedi datblygu ar hyn gyda hyfforddiant ar-lein newydd o fewn y maes yn 2016–17.

Yn 2014–15, gwnaethom wella ymwybyddiaeth risg a threfniadau casglu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol ac rydym wedi parhau i weithredu hyn eleni trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau, ac ystyried defnyddio trydydd partïon arbenigol er mwyn nodi'r risg o dwyll.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a fframwaith y polisi diogelwch.

Mae'r holl staff newydd yn derbyn arweiniad ynglŷn â diogelwch gwybodaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Yn ystod 2015–16, gwnaethom ymgymryd ag adolygiad arbenigol o sicrwydd a rheoli gwybodaeth. Ar y cyfan, roedd y canlyniadau'n foddhaol ond gwnaethom nodi nifer o broblemau penodol, y gwnaethom weithredu ar rai ohonynt yn 2016–17. Rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud yn y maes hwn, ac mae gwaith ychwanegol wedi cael ei gynllunio yn 2017–18.

Rydym hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth o ran tryloywder gwariant, contractau ac ati. Yn 2016–17, gwnaethom barhau i wella rheolaethau a phrosesau caffael.

### Modelau sy'n bwysig i fusnes

Ystyriaf ein bod yn cydymffurfio â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn *Adroddiad Macpherson*. Rwy'n barnu ein bod yn defnyddio un model sy'n bwysig i fusnes, y rhagolwg o lif arian a ddefnyddir er mwyn pennu cyllidebau grant blynyddol o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Ein nod yw sicrhau ein bod yn dyfarnu'r swm uchaf posibl o ran grantiau heb beri'r risg bod yr arian yn dod i ben neu ein bod yn gorymestyn. Crëwyd y model rhyw ddeng mlynedd yn ôl ac mae'n parhau i fod ar ei ffurf wreiddiol i raddau helaeth, heblaw'r ffaith bod ei gylch bywyd wedi estyn. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio mewn perthynas â senarios o lefelau gwahanol o incwm gan y Loteri, cyfraniadau untro at Gemau Olympaidd Llundain 2012, a rhaglenni grant newydd sylweddol. Rydym wedi canfod ei fod yn cynnig rhagolwg rhesymol o'n cynaliadwyedd ariannol.

Yn 2014–15, yn seiliedig ar y model, crëwyd fframwaith ariannol gan y Bwrdd a oedd yn amlinellu cymarebau grantiau mewn perthynas â chyfanswm yr ymrwymiadau, dyledion gwirioneddol a gymeradwywyd, incwm gan y Loteri Genedlaethol, a gweddill ein harian yn CDLG. Rydym felly yn credu bod y model a'r fframwaith ariannol yn cynnig sail gadarn ar gyfer y grantiau a ddyrennir gennym. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2016–17.

Mae'r model yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn i adlewyrchu'r rhagamcanion incwm diweddaraf gan y Loteri Genedlaethol a roddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys yr alldro ariannol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf a gwblhawyd. Mae'r model, gan gynnwys y fframwaith ariannol, yn destun prawf straen mewn perthynas â senarios gwahanol gan ddefnyddio'r paramedrau a amlinellwyd yn y fframwaith ariannol.

### Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Y gweithgaredd mwyaf nodweddiadol ar gyfer y Bwrdd oedd goruchwylio'r gwaith parhaus o gyflwyno Fframwaith Strategol 4, gan gynnwys ei ddefnyddio ar gyfer penderfyniadau gan y Bwrdd. Yn 2015–16, ymgymerodd y Bwrdd hefyd ag adolygiad hanner cylch o Fframwaith Strategol 4, gan edrych ymlaen at yr amgylchedd gweithredu posibl a'r risgiau a fydd yn dod i'r amlwg dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf.

Gwnaethom gyflwyno'r canlynol yn 2016–17 o ganlyniad i hyn:

- rhaglenni newydd er mwyn ymateb i anghenion y sector treftadaeth – gan gynnwys Gwaddolion Treftadaeth (gan adeiladu ar lwyddiant rhaglenni gwaddoli blaenorol), Sgiliau ar gyfer y Dyfodol (eto, gan adeiladu ar y model llwyddiannus blaenorol), a Threftadaeth Gydnerth (yn cyfuno rhaglenni blaenorol a gynlluniwyd i adeiladu cynaliadwyedd sefydliadol yn y sector); a
- rhaglen newydd ar gyfer pobl ifanc mewn perthynas â phenderfyniadau yn 2017–18.

Mae'r cynnydd yn incwm y Loteri Genedlaethol ers 2012–13 wedi dod i ben. Roedd yr incwm yn 2016–17 yn £327miliwn. Mae'r dyb ddiweddaraf yn awgrymu y bydd incwm yn parhau ar y lefel hon, neu'n agos ati. O ystyried hyn, ac yn unol â'r fframwaith ariannol (gan gynnwys gweddill yr arian yn CDLG), cytunodd y Bwrdd i leihau cyllideb y rhaglen grantiau yn 2017–18 i £300miliwn, sy'n cyfateb yn well â lefelau cyfartaledd yn y gorffennol.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan unrhyw rai o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau'r adroddiad gan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Newidiodd aelodau'r Bwrdd yn 2016–17, er nad oedd hyn cymaint ag yn y blynyddoedd blaenorol, sydd wedi golygu gostyngiad o ran graddfa'r trosiant ymhlith ymddiriedolwyr.

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad interim o'i sgiliau trwy ddefnyddio model hunanasesu. Mae'n fodlon ei fod yn parhau i fodloni gofynion cod llywodraethu corfforaethol Trysorlys ei Mawrhydi.

Prif ganfyddiadau'r adolygiad hwn oedd y dylai'r Bwrdd wella'r cydbwysedd o ran ei sgiliau a'i gymwyseddau, a chynyddu ei amrywiaeth. Bwriadwn wneud hyn drwy ein penodiadau sydd ar ddod.

Er mwyn ychwanegu at y sgiliau hyn, cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau i benodi aelodau annibynnol anweithredol i ymuno â'r ymddiriedolwyr ar y pwyllgorau, a disgwylir i'r rhain gael eu penodi ar ddechrau 2017–18.

Ni wnaeth yr archwilwyr gyflwyno unrhyw faterion i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a oedd yn peri pryder iddo. O ganlyniad, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar y wybodaeth a'r sicrwydd a ddarparwyd gan y rheolwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau. Mae'r holl ymddiriedolwyr sydd newydd eu penodi yn cael hyfforddiant sefydlu pan fyddant yn dechrau eu swydd sy'n amlinellu eu rhwymedigaethau a'u dyletswyddau fel ymddiriedolwr ac sy'n esbonio gwaith, systemau a phrosesau CGDG, gan eu helpu nhw felly i wneud cyfraniad llawn at waith y Bwrdd. Mae'r rhaglen sefydlu ffurfiol hon yn parhau drwy raglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill ar gyfer ymddiriedolwyr. Mae'r cadeirydd yn arfarnu effeithiolrwydd ymddiriedolwyr yn rheolaidd. Mae perfformiad y cadeirydd hefyd yn cael ei oruchwylio gan yr ymddiriedolwr annibynnol uwch (cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg).

### Y flwyddyn lywodraethu

Fel swyddog cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol (Moore Stephens) a'r uwch-reolwyr yn CGDG, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith rheolaeth fewnol yn cael ei gynnal a'i weithredu'n effeithiol, ynghyd â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Gosodir cytundebau perfformiad ar gyfer pob uwch aelod o staff ar ddechrau'r flwyddyn, sy'n amlinellu eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth ac fe'u hadolygir yn ffurfiol mewn adolygiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Rwyf hefyd yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol â chyfarwyddwyr ar sail unigol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Rheoli'n cyfarfod yn wythnosol ac mae cyfarwyddwyr adrannau'n cyfarfod yn rheolaidd hefyd.

Rwyf wedi gweld y llythyr rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

O ganlyniad i'w rhaglen waith yn ystod y flwyddyn, mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif flynyddol o sicrwydd mewn perthynas â digonolrwydd y systemau a gweithrediad rheolaethau mewnol yn CGDG. Mae'r farn hon yn datgan bod rhywfaint o risg na fydd amcanion y rheolwyr yn cael eu cyflawni'n llawn. Mae angen gwelliannau yn y meysydd hynny i wella pa mor ddigonol a/neu effeithiol yw llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol. Rwyf yn cydnabod bod hyn yn dangos mymryn o ddirywiad yn y farn ers 2015–16, sydd o ganlyniad i un archwiliad o'n rheolaeth o gofnodion a storio data yn bennaf. Mae'r rheolwyr yn derbyn y canfyddiadau hyn ac mae dau brosiect wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r broblem – digideiddio a chynllun ffeil corfforaethol.

Pan gawsant eu penodi, cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio tair blynedd. Y llynedd oedd trydydd blwyddyn y cyfnod hwn a chynhaliwyd a chwblhawyd yr holl adolygiadau a fwriadwyd yn brydlon. Mae'r cynllun blynyddol yn deillio o'r strategaeth archwilio ac fe'i cysylltir â'r gofrestr risg a'r archwaeth risg.

Yn 2014–15, gwnaethom gyflwyno cyfarfodydd cyswllt newydd bob tri mis gyda'r archwilwyr mewnol er mwyn helpu i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r cynllun ac ailgyfeirio adnoddau i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r

rhain wedi parhau i gael eu defnyddio i fonitro sut mae'r rhaglen yn cael ei chynnal a'i datblygu.

Gwnaethom hefyd gyflwyno rheolaethau newydd yn 2014–15 i wella atebolrwydd am adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion archwiliadau mewnol. Mae'r rhain wedi parhau yn 2016–17 ac mae argymhellion y disgwyliwyd iddynt gael eu rhoi ar waith yn 2016–17 wedi cael eu rhoi ar waith yn foddhaol.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff, gan gynnwys y rhai hynny yr adroddwyd ar eu hadrannau. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i mi ac aelodau'r pwyllgor drafod yn fanwl y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau arfaethedig gan y rheolwyr. Lle y derbyniwyd argymhellion ar gyfer gwella neu gywiro, roedd yn ofynnol i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Caiff gweithrediad yr argymhellion hyn ei olrhain a'i fonitro gan yr adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r archwilwyr mewnol. Mae'r rhestr rheoli honno'n eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd.

Rwyf hefyd yn mynnu bod yr holl uwch-reolwyr a rheolwyr canol yn llofnodi memoranda cynrychiolaeth blynyddol i mi, yn nodi eu cyfrifoldebau ac yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn 2016–17. Mae pob un o'r rheolwyr wedi llofnodi'r memorandwm ac maent yn ymwybodol fy mod yn dibynnu ar yr haeriadau hynny yn y datganiad hwn.

Ers mis Ebrill 2015, cyflwynwyd llythyrau awdurdodau dirprwyedig ar gyfer pob cyfarwyddwr, sy'n amlinellu eu hawdurdodau dirprwyedig (ariannol, caffael ac ati) sydd i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn, i ategu'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Cwblhawyd y cylch hwn yn 2016–17.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa yn rhoi i mi'r lefel sicrwydd y gofynnaf amdani. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n fy arwain i gredu bod ein systemau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll, ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grantiau'r Loteri yn annigonol.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2017

## Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff

### *Taliadau cydnabyddiaeth y cadeirydd a'r ymddiriedolwyr*

Roedd hawl gan bob ymddiriedolwr i gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG. Yn ogystal, fe wnaeth CGDG ad-dalu costau teithio rhai ymddiriedolwyr wrth deithio o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Gwnaeth CGDG hefyd ddarparu prydau bwyd i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau pan oeddent yn cynnal cyfarfodydd yn eu mannau cyflogaeth. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar yr holl gostau hyn. Ildiodd Syr Roger De Haan CBE ei hawl i dderbyn cyflog yn 2016–17.

Mae tâl yr ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl ar y dde. Caiff yr holl ymddiriedolwyr eu penodi gan y prif weinidog. Cânt eu penodi am dair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

Dyrannwyd tâl yr ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar sail 1:99%. Cyfanswm tâl yr ymddiriedolwyr yn 2016–17 oedd £203,228 (2015–16: £162,440). Caiff tâl a chontractau'r ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Nid yw eu contractau yn cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad ydynt yn arian parod i'r ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr.

### *Taliadau cydnabyddiaeth y cadeirydd a'r ymddiriedolwyr (gwybodaeth archwiliedig)*

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff<br>*Cadeirydd* | **40–45** | 35–40 |
| Barwnes Kay Andrews OBE<br>*o 1 Ebrill 2016* | **20–25** | 0 |
| Anna Carragher<br>*o 7 Hydref 2016* | **10–15** | 0 |
| Syr Neil Cossons OBE | **10–15** | 0–5 |
| Sandie Dawe CBE | **5–10** | 5–10 |
| Dr Angela Dean | **5–10** | 5–10 |
| Syr Roger De Haan CBE<br>*i 9 Ionawr 2017* | **0–5** | 0–5 |
| Jim Dixon | **10–15** | 10–15 |
| David Heathcoat-Amory<br>*i 9 Ionawr 2017* | **5–10** | 5–10 |
| Perdita Hunt DL OBE | **5–10** | 5–10 |
| Steve Miller | **10–15** | 5–10 |
| Richard Morris OBE | **10–15** | 5–10 |
| Atul Patel | **15–20** | 10–15 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE | **20–25** | 25–30 |
| Dr Tom Tew | **10–15** | 10–15 |

*Taliadau cydnabyddiaeth cyflogeion (gwybodaeth archwiliedig)*

Roedd tâl y cyfarwyddwyr fel yr amlinellir yn y tabl isod ac yn y tabl ar dudalen 28:

| | **Cyflog 2016–17 £'000** | Cyflog 2015–16 £'000 | **Bonws 2016–17 £'000** | Bonws 2015–16 £'000 | **Budd-daliadau pensiwn cronedig yn ystod 2016–17 [3] £'000** | Budd-daliadau pensiwn cronedig yn ystod 2015–16 £'000 | **Cyfanswm 2016–17 £'000** | Cyfanswm 2015–16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake OBE<br>*Prif Weithredwr o 4 Gorffennaf 2016* | **100 i 105** | am | **0 i 5** | am | **39** | am | **140 i 145** | am |
| Eilish McGuinness<br>*Cyfarwyddwr Gweithrediadau* | **80 i 85** | 80 i 85 | **0 i 5** | 0 i 5 | **18** | 79 | **105 i 110** | 165 i 170 |
| Judith Cligman<br>*Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes* | **95 i 100** | 95 i 100 | **0 i 5** | 0 i 5 | **21** | 30 | **120 i 125** | 125 i 130 |
| Colin Bailey<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (Prif Weithredwr dros dro o 3 Mai 2016 i 3 Gorffennaf 2016)* | **100 i 105** | 100 i 105 | **5 i 10** | 0 i 5 | **30** | 27 | **140 i 145** | 130 i 135 |
| Louise Lane<br>*Cyfarwyddwr Cyfathrebu o 1 Ebrill 2016* [2] | **80 i 85** | am | **0 i 5** | am | **60** | am | **145 i 150** | am |
| Robin Seedhouse<br>*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o 3 Mai 2016 i 3 Gorffennaf 2016* [1] | **10 i 15** | am | **0** | am | **2** | amh | **15 i 20** | amh |
| Carole Souter CBE<br>*Prif Weithredwr i 2 Mai 2016* | **15 i 20** | 135 i 140 | **0** | **5 i 10** | **3** | 46 | **15 i 20** | 195 i 200 |

Mae rhai o'r ffigurau cymharol wedi cael eu newid i adlewyrchu ailgyfrifiadau o hawliau pensiwn cronedig.

1 Ar gyfer y cyfnod yn y swydd.

2 O 1 Ebrill 2016, cafodd swydd y cyfarwyddwr cyfathrebu ei hailraddio i fod yn swydd uwch-reolwr.

3 Caiff gwerth y budd-daliadau pensiwn cronedig yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn wedi eu tynnu o swm y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi ei luosi â 20. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddiad hawliau pensiwn.

Mae taliadau bonws sy'n daladwy i uwch-reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân. Mae hyn yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013.

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfandaliad £'000 | **Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/17 £'000** | CETV ar 31/03/16 £'000 | Cynnyd gwirioneddol mewn CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake OBE *Prif Weithredwr o 4 Gorffennaf 2016* | 0 i 2.5 | 0 i 5 | **36** | amh | 28 |
| Eilish McGuinness *Cyfarwyddwr Gweithrediadau* | 2.5 i 5 a 2.5 i 5 cyfandaliad | 20 i 25 a 60 i 65 cyfandaliad | **419** | 384 | 14 |
| Judith Cligman *Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes* | 0 i 2.5 a 2.5 i 5 cyfandaliad | 35 i 40 a 115 i 120 cyfandaliad | **846** | 791 | 20 |
| Colin Bailey *Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (Prif Weithredwr dros dro o 3 Mai 2016 i 3 Gorffennaf 2016)* | 0 i 2.5 a 0 cyfandaliad | 0 i 5 a 0 i 5 cyfan daliad | **82** | 49 | 23 |
| Louise Lane *Cyfarwyddwr Cyfathrebu o 1 Ebrill 2016* [2] | 2.5 i 5 a 7.5 i 10 cyfandaliad | 20 i 25 a 60 i 65 cyfandaliad | **462** | amh | 60 |
| Robin Seedhouse *Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o 3 Mai 2016 i 3 Gorffennaf 2016* [1] | 0 i 2.5 | 35 i 40 | **634** | amh | 2 |
| Carole Souter CBE *Prif Weithredwr i 2 Mai 2016* | 0 i 2.5 a 0 i 2.5 cyfandaliad | 60 i 65 a 185 i 190 cyfandaliad | **1,437** | 1,393 | 3 |

Mae rhai o'r ffigurau cymharol wedi cael eu newid i adlewyrchu ailgyfrifiadau o hawliau pensiwn cronedig.

1 Ar gyfer y cyfnod yn y swydd.

2 O 1 Ebrill 2016, cafodd swydd y cyfarwyddwr cyfathrebu ei hailraddio i fod yn swydd uwch-reolwr.

Cyfanswm y pensiwn cronedig yn y tabl isod yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd 60, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes yn 60. Yr oed pensiwn yw 60 i aelodau classic, premium a classic plus, a 65 i aelodau nuvos. Mae aelodau'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill ('alpha') yn derbyn budd-daliadau ar eu hoedran pensiwn arferol, sy'n cyfateb i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch).

### Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol.

Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir pob CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd y budd-daliadau pensiwn yn cael eu tynnu.

#### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob uwch gyflogai gontract cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (a adwaenir fel 'alpha'). Dyrannwyd eu costau rhwng CDL a CGDG ar sail 99:1% (2015–16: 99:1%). Mae tâl uwch-reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r swm yn seiliedig ar berfformiad mewn perthynas ag amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at strategaeth a nodau corfforaethol. Gosodir amcanion unigol i'r prif weithredwr gan gadeirydd y Bwrdd, ac mae'r prif weithredwr yn ei dro'n cytuno amcanion personol â'r cyfarwyddwyr swyddogaeth. Mae amcanion yn adlewyrchu nodau strategol a gweithredol y Gronfa a'r cyfraniad a ddisgwylir gan bob uwch-reolwr unigol i gyrraedd y nodau. Mae gan y Gronfa system rheoli perfformiad ,y mae perfformiad yn cael ei adolygu yn unol â hi. Caiff perfformiad ei adolygu bob blwyddyn ym mis Mawrth–Ebrill yn unol â graddfa o bedair gwahanol lefel cyflawniad. Mae cynllun bonws ar gyfer y cyfarwyddwyr sy'n ystyried barn y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (nodir aelodaeth y pwyllgor hwn ar dudalen 19) am gyfraniad yr unigolyn tuag at lwyddiant ehangach y sefydliad, gyda chyfeiriad penodol at:

- y ffordd y mae'n rheoli ei adran ei hun a'i effaith ar feysydd eraill;
- effaith yr unigolyn ar yr ymddiriedolwyr a'u heffeithiolrwydd; ac
- unrhyw gyfraniad neu gyflawniad eithriadol yn ystod y flwyddyn na chafodd ei adlewyrchu yn yr amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn.

Disgwylir i'r polisi hwn barhau yn y dyfodol. Penodir uwch-reolwyr ar gontractau penagored gyda chyfnodau rhybudd heb fod yn fwy na chwe mis. Pe byddai angen ystyried taliadau terfynu, byddai'r Gronfa yn cadw'n llawn at reolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan Drysorlys ei Mawrhydi neu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

### *Cymhareb taliadau cydnabyddiaeth (gwybodaeth archwiliedig)*

Un o ganlyniadau Adolygiad Tâl Teg Hutton yw ei bod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf a thâl canolrif ein gweithlu.

Band tâl blynyddol y cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf yn 2016–17 oedd £140,000 i £145,000, gan gynnwys taliad bonws. Roedd hyn tua 5.2 gwaith tâl canolrif y gweithlu, sef £27,100 (2015–16: £27,059). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Roedd y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn amodol ar derfyn 1% y llywodraeth ar godiadau cyflog.

### Pecynnau ymadael gwybodaeth archwiliedig)

O dan delerau Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 296, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 2011, mae'n ofynnol i CGDG gyhoeddi manylion yr holl becynnau ymadael a gytunwyd yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Mae diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeoliadau cynnar, iawndal am golli swydd, taliadau ex gratia ac ati yn dod o dan y diffiniad o becynnau ymadael. Nid oedd unrhyw daliadau o'r fath yn 2016–17 (2015–16: dim).

### Costau a niferoedd staff (gwybodaeth archwiliedig)

Roedd costau staff ar gyfer 2016–17 fel a ganlyn:

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **9,423** | 8,646 |
| Taliadau YG y cyflogwr | **887** | 582 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **1,847** | 1,740 |
| Costau staff dros dro | **150** | 129 |
| | **12,307** | 11,097 |

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri fel a ganlyn:

Roedd y rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith ein staff dosbarthu arian y Loteri ar 31 Mawrth 2017, ar sail cyfrif pennau, fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | Anneuaidd | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 1 | 4 | | **5** |
| Staff | 79 | 224 | 1 | **304** |

### Pensiynau

Darperir budd-daliadau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil, alpha, sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, gwnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno â chynllun alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd â phedair adran: tair sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y budd-daliadau'n cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd

| **2016–17** | **Ceisiadau grant** | **Gwasanaethau cyllid a chorfforaethol** | **Strategaeth a datblygu busnes** | **Cyfathrebu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 177 | 36 | 27 | 23 | 263 |
| Ar secondiad, staff contract a phrentisiaid | 12 | 3 | 4 | 1 | 20 |
| **Cyfanswm** | **189** | **39** | **31** | **24** | **283** |

| 2015–16 | Ceisiadau grant | Gwasanaethau cyllid a chorfforaethol | Strategaeth a datblygu busnes | Cyfathrebu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 168 | 37 | 24 | 21 | 250 |
| Ar secondiad, staff contract a phrentisiaid | 15 | 3 | 1 | 1 | 20 |
| Cyfanswm | 183 | 40 | 25 | 22 | 270 |

Nid yw staff dros dro a staff asiantaeth wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau yn caniatáu casglu a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Roedd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn deng mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai hynny a oedd rhwng deng mlynedd ac 13 blynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd budd-daliadau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS a bydd y budd-daliadau hynny yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Caiff aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant budd-daliadau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau classic (ac aelodau alpha a oedd yn aelodau classic yn union cyn ymuno ag alpha), a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau premium, classic plus a nuvos a holl aelodau eraill alpha. Mae budd-daliadau yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae budd-daliadau'n cronni ar gyfradd o 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas, mae classic plus yn gymysgedd gyda budd-daliadau am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic, a budd-daliadau am wasanaeth ar ôl Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premium. Yn y cynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff y cyfrif pensiwn a enillodd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae budd-daliadau alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, heblaw am y ffaith mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis cyfnewid pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £19,012 (2015–16: £17,609) i ddau o banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch).

Ar hyn o bryd, mae chwe aelod o staff sy'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ni wnaeth yr un aelod o staff ymddeol yn gynnar yn sgil iechyd yn ystod 2016–17.

Cyfanswm y pensiwn cronedig a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes dros oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth (p'un bynnag sydd uchaf) ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha fel y bo'n briodol. Pan fo gan y cyfarwyddwr fudd-daliadau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fudd-daliadau yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedran gwahanol.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar www.civilservicepensionscheme.org.uk

Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â budd-daliadau wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrheir gan y PCSPS ac alpha yn talu cost sicrhad pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronnus. Ar gyfer 2016–17, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1,846,850 (2015–16: £1,740,237) i PCSPS ac alpha ar y cyfraddau canlynol:

| Cyflog yn 2016–17 | % yn 2016–17 |
|---|---|
| £22,500 ac is | 20.0% |
| £22,501–£45,000 | 20.9% |
| £45,001–£76,000 | 22.1% |
| £76,001 ac uwch | 24.5% |

Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl prisiad cynllun llawn gan actwari'r cynlluniau. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu budd-daliadau wrth iddynt gronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynlluniau.

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog, yn unol â'r hyn a geir ar wefan Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

### *Absenoldeb oherwydd salwch*

Yn 2016–17, collwyd 1,029 o ddiwrnodau oherwydd 353 achos o salwch. Mae hyn yn parhau i fod ar lefel gymedrol o 1.44% o'r holl ddiwrnodau gwaith (2015–16: 1.79%). Mae'r Gronfa'n parhau i gefnogi a hyrwyddo polisïau lles trwy ddarparu cynllun cymorth i gyflogeion a buddiannau eraill cysylltiedig.

### *Ymgynghori â chyflogeion*

Mae natur gweithrediadau'r Gronfa yn golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau grant yn gweithio'n agos gyda'r ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso a monitro prosiectau, yn ogystal ag yn ymweld ag ymgeiswyr gyda'r ymddiriedolwyr. Mae llawer o aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o ddatblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, mae uwch-reolwyr yn sicrhau – trwy grynodebau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli mewn cylchlythyron misol mewnol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a lefel uchel o hygyrchedd personol – y gellir mynd i'r afael yn rhwydd â materion sy'n peri gofid i staff.

Mae'n hanfodol y caiff yr holl staff y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyflawni eu potensial eu hunain drwy ymgynghori a thrafod yn rheolaidd. Yn 2016, roedd y cytundeb ar y cyd a oedd yn cydnabod Undeb yr FDA ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) yn ei flwyddyn gyntaf a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr drwy gydol y flwyddyn.

Derbyniodd y Gronfa hefyd ganlyniadau ei harolwg ymgysylltu â chyflogeion cyntaf, a gyflawnodd fynegrif ymgysylltu o 75% yn seiliedig ar gyfradd ymateb o 92%.

Llwyddodd y Gronfa hefyd i gadw ei hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a chyfrannodd staff at arolwg fel rhan o'r broses a oedd yn rhoi adborth ar y swyddogaeth dysgu a datblygu a ddarperir gan y Gronfa.

### *Cyfle cyfartal*

#### Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Gronfa yn ymrwymedig i'w gofynion a'i rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn cymryd camau pendant i weithio tuag at gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth roi grantiau, yn ein gwaith llywodraethu, ac yn y gweithlu, trwy ein blaenoriaeth gorfforaethol a'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn ein Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant.

Fel cyflogwr, mae CGDG yn cadw at ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'r Gronfa yn gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr cymwys am swyddi gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod penderfyniadau am recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n

gysylltiedig â'r swydd yn unig. Nid yw CGDG yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Mae'r Gronfa'n croesawu ceisiadau am swyddi gan bobl ag anableddau. Gwnaethom ddisodli ein hymlyniad i'r Cynllun Tic Dwbl Anabledd gyda'r safon Cyflogwr Anabledd Hyderus newydd ym mis Awst 2016.

Mae oddeutu 4% o'n gweithlu yn bobl ag anableddau datganedig (2015–16: 3.3%). Mae hysbysebion recriwtio'r Gronfa yn parhau i annog ceisiadau am swyddi gan grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gydnabod nad yw ei gweithlu'n gwbl gynrychioliadol o amrywiaeth leol neu genedlaethol eto. Mae gofyn i'r holl staff gydweithredu i wneud i'r polisi hwn weithio'n effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd ein Grŵp Gweithredu Anabledd Staff i gyfarfod ac i wahodd elusennau dethol i fynychu a rhoi cyflwyniadau i staff hefyd. Fe wnaeth niferoedd da fynychu'r rhain, ac mae'r fformat yn sicrhau bod cydweithwyr yn y swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol yn gallu bod yn bresennol mewn sesiynau trwy fideo-gynadledda, sydd wedi cynyddu nifer y cyfranogwyr. Yn 2016–17, rhoddodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Dyslecsia Prydain ac Ymddiriedolaeth Shaw gyflwyniad i staff. Gwnaethom barhau i gefnogi rhaglen Leonard Cheshire Disability, Change 100, gan groesawu un o'i chyfranogwyr fel intern yn ein swyddfa yn yr Alban.

### *Gwariant ar ymgynghorwyr*

Gwariodd CGDG £478,000 ar ymgynghorwyr yn 2016–17 (2015–16: £477,000) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Mae CGDG wedi defnyddio'r diffiniadau o ymgynghorwyr a geir yn Atodiad 6.1 canllaw rheolaethau Swyddfa'r Cabinet: fersiwn 4.0. Roedd mwyafrif helaeth y gwaith ymgynghorol hwn yn ymwneud ag ymchwil a gynhaliwyd ar ein rhaglenni grant a'r sector treftadaeth.

### *Trefniadau treth cyflogeion y sector cyhoeddus*

Mae Trysorlys ei Mawrhydi yn mynnu bod pob corff llywodraeth ganolog yn adrodd ar faterion treth uwch-reolwyr a chontractwyr hirdymor. Yn benodol, mae Trysorlys ei Mawrhydi yn mynnu bod pob uwch-reolwr ar y gyflogres ac yn talu treth o dan y cynllun Talu Wrth Ennill. Mae'r holl uwch aelodau staff, yr holl ymddiriedolwyr, a holl aelodau pwyllgor gwledydd a rhanbarthau ar gyflogres CGDC ac felly'n talu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol trwy'r cynllun Talu Wrth Ennill. Yn 2014–15, gwnaethom nodi dau gontractwr nad oeddent yn bodloni canllawiau Trysorlys ei Mawrhydi. Nid oedd yr un ohonynt yn dal uwch swydd a chymerwyd camau i sicrhau bod y ddau ohonynt bellach yn cydymffurfio â'r canllawiau.

### *Rhwymedigaethau pensiwn*

Mae'r Gronfa yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2017

## Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio

### *Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban*

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y datganiad o wariant net cynhwysfawr, y datganiad o'r sefyllfa ariannol, y datganiad o lifoedd arian, y datganiad o newidiadau mewn ecwiti, a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

#### Cyfrifoldebau priodol yr ymddiriedolwyr, y swyddog cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r swyddog cyfrifyddu, mae'r ymddiriedolwyr a'r prif weithredwr, sef y swyddog cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

#### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, pa un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan weithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad perfformiad a'r adroddiad atebolrwydd er mwyn nodi anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i weld yn anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gafaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson â'r wybodaeth a gafaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau o bwys amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

#### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2017 ac o'i diffyg gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau gan yr ysgrifennydd gwladol a wnaed o dan y ddeddf honno.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr ysgrifennydd gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad perfformiad a'r adroddiad atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu nid yw datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn oddi wrth ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiad llywodraethu yn cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys ei Mawrhydi.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas CE Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

3 Gorffennaf 017

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

## Y datganiadau ariannol

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

| | Nodiadau | £'000 | 2016–17 £'000 | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 8 | | **325,989** | 384,665 |
| Incwm buddsoddiad CDLG | 8 | | **1,062** | 1,569 |
| | | | **327,051** | 386,234 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | | **62** | | 57 |
| Incwm amrywiol | 2 | **460** | **522** | 1,264 |
| **Cyfanswm incwm** | | | **327,573** | 387,555 |
| Dyfarniadau grant newydd | 10 | **(453,146)** | | (380,955) |
| Dadymrwymiadau grant | 10 | **20,500** | | 14,103 |
| | | | **(432,646)** | (366,852) |
| Costau staff (yn unol â'r adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff) | | **(12,307)** | | (11,097) |
| Dibrisiad ac amorteiddiad | 5 and 6 | **(642)** | | (588) |
| Costau gweithredu eraill | 3 | **(9,575)** | | (8,604) |
| | | | **(22,524)** | (20,289) |
| **Cyfanswm gwariant** | | | **(455,170)** | (387,141) |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredol** | | | **(127,597)** | 414 |
| Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 | | | **(127,597)** | 414 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 62 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# **Datganiad o newidiadau mewn ecwiti**
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

| | Cyfrif incwm a gwariant £'000 |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2015 | (395,502) |
| | |
| Newidiadau mewn ecwiti yn 2015–16 | |
| Gwarged a gadwyd | 414 |
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | (395,088) |
| | |
| **Newidiadau mewn ecwiti yn 2016–17** | |
| Diffyg a gadwyd | (127,597) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **(522,685)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 62 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol
ar 31 Mawrth 2017

| | Nodiadau | 2016–17 £'000 | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 5 | **290** | 543 |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 6 | **719** | 951 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau – balans yn CDLG | 8 | **496,757** | 594,904 |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 7 | **2,638** | 3,718 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian | | **2,583** | 3,368 |
| | | **501,978** | 601,990 |
| **Cyfanswm asedau** | | **502,987** | 603,484 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 9 | **(2,732)** | (2,534) |
| Ymrwymiadau grant mewn blwyddyn | 10 | **(362,039)** | (352,518) |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | **138,216** | 248,432 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Ymrwymiadau grant sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn | 10 | **(660,901)** | (643,520) |
| **Asedau wedi tynnu rhwymedigaethau** | | **(522,685)** | (395,088) |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen | | **(395,088)** | (395,502) |
| Symudiad yn y flwyddyn | | **(127,597)** | 414 |
| Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen | | **(522,685)** | (395,088) |
| | | **(522,685)** | (395,088) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 62 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Syr Peter Luff**
Cadeirydd

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2017

# Datganiad o lifoedd arian
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

| | Nodiadau | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o CDLG | 8 | **425,198** | 357,328 |
| Arian o ffynonellau eraill | 2 | **460** | 1,264 |
| Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(12,019)** | (10,974) |
| Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc | | **62** | 57 |
| Arian a dalwyd i gyflenwyr | | **(8,585)** | (9,127) |
| Arian a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciadau | 10 | **(405,744)** | (334,934) |
| **(All-lif)/mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | 13a | **(628)** | 3,614 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | 13b | **(157)** | (564) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | | **(785)** | 3,050 |

The notes on pages 40 to 62 form part of these accounts.

# Cysoni llifoedd arian net i symudiad mewn cronfeydd net
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

| | Nodiadau | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|---|
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn arian a symiau cyfwerth ag arian yn y cyfnod | | **(785)** | 3,050 |
| **Newidiadau mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | 13c | **(785)** | 3,050 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 1 Ebrill 2016 | | **3,368** | 318 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2017** | | **2,583** | 3,368 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 62 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau dan sylw, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r ymddiriedolwyr yn disgwyl y byddant yn cael effaith sylweddol ar incwm ac asedau net CGDG na'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant ac a gymeradwywyd gan Drysorlys ei Mawrhydi. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a chyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol ac mae'n mynnu defnyddio cyfrifyddu croniadau ar gyfer dyfarniadau.

Mae copïau o'r cyfarwyddiadau cyfrifon cymorth grant a dosbarthu arian y Loteri ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain, SW1W 8NR.

Pan fo Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig CGDG at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG yn y datganiad hwn. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan nad oes gan CGDG unrhyw reswm i gredu bod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu arian y Loteri ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r ymddiriedolwyr yn cymryd y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri.

### b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynwyd at ddefnydd hirdymor CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri a phan fo cyfanswm y gost uwchlaw £2,000. Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau anghyfredol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – oes y brydles; |
| Offer swyddfa | – 4–10 mlynedd; |
| Gosodiadau swyddfa | – 4–10 mlynedd; |
| Meddalwedd asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd. |

Ni chaiff unrhyw gostau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu. Mae dibrisiad yn cychwyn yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

### c) Dyrannu costau ac adrodd segmentaidd

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 8 yn pennu gofyniad bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar adroddiadau segmentaidd pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n briodol, mae uwch-reolwyr yn nodi ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredol iddynt ar sail pro rata yn seiliedig ar lefel y grant a ddyfarnwyd. Mewn

achosion lle cafwyd gwahaniaeth sylweddol yn y modd y cafodd y ceisiadau eu prosesu, byddai dulliau ad hoc yn cael eu defnyddio.

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri, y mae'n ofynnol i ni ei wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon y Loteri. Mae'r cyfrifon ar gyfer CGDG yn gwahanu ei hincwm a'i gwariant rhwng ein gweithgarwch CGDG safonol a hwnnw a geir trwy weithredu'r Gronfa Atgyweirio Toeon Mannau Addoli Rhestredig.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â *Managing Public Money,* a gyhoeddir gan Drysorlys ei Mawrhydi. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i bob gweithgaredd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri oedd 99% (2015–16: 99%).

## ch) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG yn statudol eithriedig o dan adran 507 Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988. Nid yw CGDG yn gallu adennill Treth ar Werth (TAW) a godir arni, a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

## d) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu budd-daliadau ei chodi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob aelod o'n staff yn aelodau o PCSPS neu'r cynllun alpha sydd newydd ei greu, ac mae Swyddfa'r Cabinet yn rhoi gwybod am ganran y tâl pensiynadwy cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff am ragor o fanylion.

## dd) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles. Pan fydd gan brydlesi sylwedd prydlesi cyllid, a'u bod yn berthnasol, ymdrinnir â nhw fel prydlesi cyllid. Caiff eitemau o dan brydlesi cyllid eu cyfalafu ar eu cost amcangyfrifedig, heb gynnwys unrhyw log a godwyd gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau cytundeb y brydles i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad o dan y brydles.

## e) Balansau yn CDLG

Mae'r balansau sy'n cael eu dal yn CDLG yn parhau o dan reolaeth yr ysgrifennydd dros ddiwylliant ac nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros y modd y caiff y symiau hyn eu buddsoddi. Mae cyfran y balansau hyn i'w phriodoli i ymddiriedolwyr CGDG fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, wedi'i thystio gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr ymddiriedolwyr o ran ein hymrwymiadau cyfredol ac yn y dyfodol. Caiff cronfa wrth gefn gwerth teg ei chreu a'i haddasu ar gyfer unrhyw elw neu golled ar ailbrisio balans y CDLG a adroddir i ni gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Datgelir unrhyw addasiad yn y datganiad o newidiadau mewn ecwiti. Ychwanegir unrhyw elw neu golled gan CDLG wrth waredu buddsoddiadau at werth CDLG.

## f) Penderfyniadau ynglŷn â grantiau

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau mwyach, oherwydd nad oes ar y prosiect sy'n cael

ei ariannu angen yr holl arian a neilltuwyd iddo o dan y contract grant, rydym yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy yn syth wrth dderbyn ceisiadau dilys am eu talu.

Mae ymrwymiadau fel y'u diffinnir gan gyfarwyddyd cyfrifon cynharach gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002 – nid yw'r cyfarwyddyd cyfrifon cyfredol yn cyfeirio atynt. Mae ymrwymiadau'n cynrychioli cytundeb mewn egwyddor gan yr ymddiriedolwyr i ariannu prosiect treftadaeth. Rydym yn eu trin fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn nodyn 11 ar dudalen 47 oherwydd eu bod yn cynrychioli rhwymedigaeth bosibl arwyddocaol y mae'n rhaid i ni ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am lefel yr adnoddau sydd ar gael. Ceir dau fath o ymrwymiad:

1) pan fydd y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant wedi'i wneud, ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r sawl sy'n derbyn y grant. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, disgrifir yr ymrwymiad fel rhwymedigaeth lawn.

2) pan gaiff pàs rownd gyntaf neu bàs cam cyntaf ei roi i brosiect treftadaeth. Er bod cyllid yn destun ail benderfyniad yn yr amgylchiadau hyn, mae'r ail benderfyniad hwn yn debygol iawn o fod yn un cadarnhaol, ac felly credwn ei bod yn ddoeth ystyried y pàs rownd gyntaf neu'r pàs cam cyntaf fel ymrwymiad ar yr adeg hon.

Mae dadymrwymiadau'n digwydd pan nad yw ymrwymiad yn cael ei droi'n rhwymedigaeth lawn, fel arfer gan fod y sawl sy'n derbyn y grant yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'i brosiect.

### ff) Benthyciadau

Mae hawl gan yr ymddiriedolwyr i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan gyfarwyddiadau ariannol y Loteri Genedlaethol yr ysgrifennydd dros ddiwylliant. Mae cyfraddau llog a thelerau ad-dalu fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn ddoeth.

### g) Cynlluniau grant ar y cyd

Lle mae CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd, Parciau i Bobl gyda'r Gronfa Loteri Fawr a rhaglen Lleoedd Gwych gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr), nid ydym yn cydnabod symiau a dderbyniwyd gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, caiff arian a dderbynnir gan y cyrff hyn, yn syml, ei drosglwyddo i'r derbynyddion grant neu gyflenwyr. Felly, rydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan ein bod wedi trosglwyddo cyfran y Gronfa Loteri Fawr i'r derbynnydd grant. Yn yr un modd, rydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredol ar gyfer y cynlluniau hyn, ac wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredol a dderbyniwyd gan y Gronfa Loteri Fawr i'r cyflenwyr.

## 2. Incwm amrywiol

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | **460** | 1,264 |

Gwnaethom dderbyn £153,000 gan dderbynnydd grant yn dilyn gorchymyn llys am hawliadau grant twyllodrus a £261 gan Vivat Trust Ltd oherwydd iddo ddiddymu'n wirfoddol. Roedd naw swm bach arall.

## 3. Diffyg gweithredol

Datgenir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl yr archwilydd | **39** | 39 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredol | | |
| – safleoedd lesddaliadau | **1,226** | 1,171 |
| – llogi offer swyddfa | **8** | 13 |

Ni thalwyd unrhyw ffïoedd ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio i'r archwilwyr allanol. Mae dadansoddiad o daliadau gweithredol eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | **1,552** | 1,522 |
| Post a ffôn | **495** | 523 |
| Cyflenwadau swyddfa, argraffu ac offer ysgrifennu | **528** | 561 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – ymddiriedolwyr | **105** | 109 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – staff | **496** | 458 |
| Ffïoedd proffesiynol – cysylltiedig â grant | **2,614** | 2,485 |
| Ffïoedd proffesiynol – heb fod yn gysylltiedig â grant | **2,213** | 1,562 |
| Cyfathrebu | **757** | 731 |
| Offer swyddfa | **412** | 303 |
| Hyfforddiant staff | **173** | 216 |
| Treuliau amrywiol | **230** | 134 |
| | **9,575** | 8,604 |

## 4. Costau a ailgodir

Fel y crybwyllwyd yn nodyn 1 ar dudalen 40, mae gofyn i CGDG ddatgelu ei gweithgareddau Loteri ar wahân yn ei chyfrifon dosbarthu arian y Loteri. Roedd llawer o'r costau cyffredinol yr aethpwyd iddynt yn y brif swyddfa yn Llundain o fantais i'n gweithgareddau cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i weithgareddau dosbarthu arian y Loteri oedd 99% (2015–16: 99%). Mae'r holl weithgareddau cymorth grant yn digwydd yn y brif swyddfa yn Holbein Place, Llundain. Mae costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn cael eu hailgodi'n llawn ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

.

## 5. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Gwefan | | Technoleg Gwybodaeth | | Cyfanswml | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 456 | 456 | 2,165 | 2,018 | 2,621 | 2,474 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 147 | 0 | 147 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **456** | 456 | **2,165** | 2,165 | **2,621** | 2,621 |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | 352 | 283 | 1,726 | 1,556 | 2,078 | 1,839 |
| Cost am y flwyddyn | 69 | 69 | 184 | 170 | 253 | 239 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **421** | 352 | **1,910** | 1,726 | **2,331** | 2,078 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 104 | 173 | 439 | 462 | 543 | 635 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **35** | 104 | **255** | 439 | **290** | 543 |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli'r gwaith o ddatblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesiadau ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebwyd i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Nid oes unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol wedi'u cyfalafu. Mae ychwanegiadau wedi'u hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, sef diwedd cyfnod disgwyliedig gwreiddiol Fframwaith Strategol 4, h.y. hyd at 31 Mawrth 2018. Mae cyfnod y fframwaith wedi cael ei ymestyn i fis Mawrth 2019, ond ni wnaed unrhyw addasiad i amcangyfrif oes asedau oherwydd disgwylir y bydd llawer o'r feddalwedd yn cael ei hamnewid yn ystod 2018–19 i baratoi ar gyfer y fframwaith newydd.

Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau sefydlog anniriaethol, ar 31 Mawrth 2017, unrhyw wahaniaeth sylweddol i werthoedd cost hanesyddol. O'r herwydd, nid oes unrhyw addasiad wedi'i wneud i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol asedau sefydlog anniriaethol.

## 6. Eiddo, peiriannau ac offer

| | Eiddo prydles fer | | Offer TG a chyfarpar arall | | Ffitiadau swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **1,137** | 1,052 | **2,536** | 2,218 | **81** | 81 | **3,754** | 3,351 |
| Ychwanegiadau | **0** | 85 | **157** | 332 | **0** | 0 | **157** | 417 |
| Gwarediadau | **(0)** | (0) | **(0)** | (14) | **0** | 0 | **(0)** | (14) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,137** | 1,137 | **2,693** | 2,536 | **81** | 81 | **3,911** | 3,754 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **847** | 733 | **1,883** | 1,667 | **73** | 68 | **2,803** | 2,468 |
| Cost am y flwyddyn | **117** | 114 | **266** | 230 | **6** | 5 | **389** | 349 |
| Addasiad wrth waredu | **(0)** | (0) | **(0)** | (14) | **0** | 0 | **(0)** | (14) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **964** | 847 | **2,149** | 1,883 | **79** | 73 | **3,192** | 2,803 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **290** | 319 | **653** | 551 | **8** | 13 | **951** | 883 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **173** | 290 | **544** | 653 | **2** | 8 | **719** | 951 |

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2017 unrhyw wahaniaeth sylweddol i werthoedd cost hanesyddol. O'r herwydd, nid oes unrhyw addasiad wedi'i wneud i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mae gwerth eiddo,

peiriannau ac offer yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Ar hyn o bryd, y rhaniad hwn yw 99% ar gyfer y Loteri ac 1% ar gyfer cymorth grant (gweler hefyd nodyn 4 ar dudalen 43).

## Prydlesi cyllid

Roedd rhai o'r eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dal o dan brydles gyllid, fel y dangosir yn y tabl isod. Mae'r ffigurau hyn yn rhan o'r rheini sydd wedi'u manylu yn y tabl ar dudalen 44.

| Offer TG a chyfarpar arall | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **0** | 7 |
| Ychwanegiadau | **0** | 0 |
| Gwarediadau | **(0)** | (7) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** | 0 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **0** | 6 |
| Cost am y flwyddyn | **0** | 1 |
| Addasiad wrth waredu | **(0)** | (7) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** | 0 |
| Gwerth llyfr net | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **0** | 1 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** | 0 |

Y rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid yw:

| Offer TG a chyfarpar arall | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau am brydlesi sy'n dod i ben mewn blwyddyn | **0** | 0 |
| Symiau am brydlesi sy'n dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **0** | 0 |
| | **0** | 0 |

Mae'r rhwymedigaethau hyn wedi'u cynnwys yn y symiau sy'n daladwy (gweler nodyn 9 ar dudalen 46).

## 7. Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **2,451** | 3,528 |
| Benthyciadau | **100** | 100 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy | **56** | 48 |
| Blaensymiau staff | **31** | 42 |
| | **2,638** | 3,718 |

Mae'r benthyciad gyda sefydliad treftadaeth ac mae'n ad-daladwy mewn dwy gyfran yn 2018 a 2023. Nid oes unrhyw log yn cael ei godi ar y benthyciad. Mae swm o £9,000 yn ddyledus ymhen mwy nag un flwyddyn gan ddau gyflenwr (2015–16: £12,000).

O'r symiau uchod, roedd £2,887,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 35 aelod o staff flaensymiau cyflogres dyledus (ar 31 Mawrth 2016, roedd 44).

## 8. Buddsoddiadau

Symudiadau balansau yn CDLG:

| | 2016–17 £'000 | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn | **594,904** | 565,998 |
| Incwm a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol | **325,989** | 384,665 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr gan CGDG | **(425,198)** | (357,328) |
| Adenillion buddsoddiad | **1,062** | 1,569 |
| Elw heb ei wireddu ar fuddsoddiad | **0** | 0 |
| **Cost gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn** | **496,757** | 594,904 |

Nid oes unrhyw rwymedigaethau i drethiant ar enillion a wireddir gan CGDG. Mae'r gwaith o fuddsoddi'r arian hwn yn cael ei gyflawni gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Leihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu hadenillion at y balans cyffredinol sy'n cael ei ddal. Nid oes gan ymddiriedolwyr CGDG unrhyw reolaeth ar bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisïau cyfrifyddu yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

## 9. Symiau sy'n daladwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2016–17 £'000 | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredol sy'n daladwy | **788** | 690 |
| Symiau eraill sy'n daladwy, gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol | **471** | 401 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **1,473** | 1,443 |
| | **2,732** | 2,534 |

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG. Gellir dadansoddi'r balansau gweithredol a balansau symiau eraill sy'n daladwy fel a ganlyn:

| | 2016–17 £'000 | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **506** | 492 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **0** | 7 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **0** | 0 |
| Balansau y tu allan i lywodraeth | **753** | 592 |
| | **1,259** | 1,091 |

## 10. Rhwymedigaethau grant

| | 2016–17 £'000 | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **996,038** | 964,120 |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn ystod y flwyddyn | **453,146** | 380,955 |
| Rhwymedigaethau na chydnabyddir mwyach | **(20,500)** | (14,103) |
| Taliadau grant | **(405,744)** | (334,934) |
| **Dygwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,022,940** | 996,038 |

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau canlynol:

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn | **362,039** | 352,518 |
| Mewn dwy flynedd | **291,812** | 284,137 |
| Mewn tair blynedd | **185,149** | 180,280 |
| Mewn pedair blynedd | **99,291** | 96,680 |
| Mewn pum mlynedd | **51,647** | 50,289 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **33,002** | 32,134 |
| | **1,022,940** | 996,038 |

Mae rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **113,093** | 75,135 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **403,544** | 402,177 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **0** | 0 |
| Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau'r GIG | **4** | 9 |
| Balansau y tu allan i lywodraeth | **506,299** | 518,717 |
| | **1,022,940** | 996,038 |

## 11. Rhwymedigaethau digwyddiadol

### Ymrwymiadau

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **634,443** | 571,817 |
| Ymrwymiadau a wnaed | **490,945** | 467,997 |
| Dadymrwymiadau | **(11,133)** | (24,416) |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn ystod y flwyddyn | **(453,146)** | (380,955) |
| **Balans a ddygwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **661,109** | 634,443 |

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn cynrychioli ymrwymiadau, sef gwerth pasiau rownd un a roddwyd gan ymddiriedolwyr. Pan fydd yr ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n dod yn ddyfarniadau grant neu'n cael eu gwrthod.

## 12. Ymrwymiadau prydles

Mae cyfanswm y taliadau prydles gweithredol isafsymiol ar gyfer y dyfodol a gafwyd gan weithgareddau dosbarthu arian y Loteri CGDG fel a ganlyn:

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| **Eiddo prydles fer** | | |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | **1,412** | 1,412 |
| Hwyrach nag un flwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | **4,010** | 4,473 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **2,148** | 3,096 |
| | **7,570** | 8,981 |
| **ymhlith ymgeiswyr** | | |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | **7** | 8 |
| Hwyrach nag un flwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | **0** | 7 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **7** | 15 |

Roedd ein prydles ar gyfer Holbein Place, Llundain, yn destun adolygiad rhent ar 30 Medi 2014. Cynyddodd hyn y rhent i £850,000 y flwyddyn. Rydym yn aros am ganlyniad adolygiad rhent ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaeredin a Manceinion.

Daeth prydles ein swyddfa flaenorol yng Nghaergrawnt i ben ar 31 Mawrth 2015. Rydym wedi adleoli i safle arall yng Nghaergrawnt erbyn hyn. Mae gennym Femorandwm Telerau Meddiannu gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi hyd at 31 Mawrth 2018.

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd isbrydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG yn 7 Holbein Place, Llundain. Ym mis Awst 2016, cafodd yr ardal a ddefnyddir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei gostwng o oddeutu hanner gyda lleihad cymesurol mewn rhent a chyfraniadau at ffïoedd gwasanaeth. Mae'r isbrydles hon am oddeutu 13 o flynyddoedd, a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.4miliwn.

Mae Safon Gyfrifeg Ryngwladol 17 yn mynnu bod prydlesi eiddo yn cael eu rhannu rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi'i wneud yn y ffigurau uchod ar gyfer eiddo prydles fer gan mai bach iawn o dir sydd o dan y prydlesi hyn.

Nid oes gan CGDG unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

## 13. Nodiadau i'r datganiad o lifoedd arian

### a) Cysoni diffyg gweithredol i fewnlif arian o weithgareddau gweithredu

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged gweithredol | **(127,597)** | 414 |
| Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian parod: | | |
| – dibrisiad | **642** | 588 |
| – colled wrth waredu asedau sefydlog anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer | **0** | 0 |
| – symudiad yn y gronfa wrth gefn gwerth teg | **0** | 0 |
| – cynnydd yn y gronfa wrth gefn ymrwymiadau grant | **26,902** | 31,918 |
| – gostyngiad/(cynnydd) yn y balans yn CDLG | **98,147** | (28,906) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau di-log sy'n dderbyniadwy | **1,080** | (468) |
| Cynnydd mewn symiau di-gyfalaf sy'n daladwy | **198** | 68 |
| (All-lif)/mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu | **(628)** | 3,614 |

### b) Gwariant cyfalaf

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol | **0** | 147 |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau ac offer | **157** | 417 |
| | **157** | 564 |

### c) Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | Ar 1 Ebrill 2016 £'000 | Llifoedd arian £'000 | **Ar 31 Mawrth 2017 £'000** |
|---|---|---|---|
| Arian yn y banc | 3,368 | (785) | **2,583** |

## 14. Trafodion partïon perthynol

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr ystyrir ei bod yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri) wedi cael trafodion sylweddol amrywiol, heblaw am ddyfarniadau grantiau, â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei hun, ac â phedwar endid yr ystyrir mai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n eu noddi: y Gronfa Loteri Fawr, Sport England, Arts Council England a Historic England.

Gwnaethom lofnodi prydles â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Mawrth 2015 i barhau i feddiannu ein swyddfa yn Birmingham tan fis Mai 2018. Cyfanswm disgwyliedig y gwariant o dan y cytundeb yw £127,000 ac roedd £0 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2017.

Cyfrannodd y Gronfa Loteri Fawr tuag at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parciau i Bobl, a hefyd tuag at gostau gweithredu'r rhaglen. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ar y Gronfa Loteri Fawr £1,814,849 i CGDG, sef £104,154 ar gyfer costau gweithredu a £1,710,695 ar gyfer ei chyfran o daliadau grant. Hefyd, gwnaethom dalu'r Gronfa Loteri Fawr am nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn – yn fwyaf nodedig, darparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael. Gwnaethom dalu oddeutu £101,000 i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn, ac roedd arnom ni £25,200 iddi ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom gyfraniad, yn dod i gyfanswm o £14,372, i Sport England am gost gwasanaeth cwynion annibynnol dosbarthwyr y Loteri. Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom dalu £10,447 i Arts Council England tuag at gost gwasanaeth gweinyddu Fforwm y Loteri yn 2016–17, yr oedd £6,267 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Hefyd, cyfrannodd Arts Council England £100,000 tuag at gostau cynnal rhaglen grant ar y cyd Lleoedd Gwych. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd arno £50,000 i ni.

Gwnaethom ddefnyddio Historic England i ddarparu cyngor arbenigol a gwasanaethau mentora ar gyfer rhai o'n grantiau, gan dalu £5,841 iddo yn 2016–17; roedd £3,951 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaeth Historic England ddarparu gwerth £5,000 o ymchwil ar ein cyfer hefyd ar effaith toriadau i gyllidebau treftadaeth awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae'n parhau i weithredu ein rhaglen Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr. Gwnaethom ei ad-dalu am daliadau grant a wnaed ar ein rhan. Daeth y rhain i gyfanswm o £840,211 yn 2016–17. Nid oedd unrhyw beth yn ddyledus i English Heritage ar ddiwedd y flwyddyn.

Cafwyd trafodion sylweddol â Swyddfa'r Cabinet hefyd, gwerth £6,129, am weinyddu pensiynau ar ein rhan; nid oedd unrhyw beth yn ddyledus iddi ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom dalu £3,864 i Amgueddfa Cymru am gyflenwi cyfleusterau cynadledda yng Nghaerdydd. Nid oedd unrhyw arian yn ddyledus iddi ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom dalu £7,200 yn 2016–17 i Lywodraeth yr Alban am adolygiad o effaith prosiectau treftadaeth anghyffyrddadwy a ariennir gan CDL. Nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaed y gwaith gan Museums Galleries Scotland. Gwnaethom ailgodi'r costau o fonitro a mentora rhai prosiectau â chymorth grant i ganghennau o Lywodraeth yr Alban (Creative Scotland, y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant a Threftadaeth, Scottish Enterprise, a Historic Environment Scotland). Cyfanswm y biliau oedd £41,440 yn ystod y flwyddyn, ac roedd £31,171 yn ddyledus ganddynt at ddiwedd y flwyddyn.

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd isbrydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG yn 7 Holbein Place, Llundain. Ym mis Awst 2016, cafodd yr ardal a ddefnyddir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei gostwng o oddeutu hanner gyda lleihad cymesurol mewn rhent a chyfraniadau at ffïoedd gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir ar y cyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Defra, Llywodraeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'r isbrydles hon am oddeutu 13 o flynyddoedd, a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.4miliwn. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn gwneud cyfraniadau at gost cynnal Holbein Place o oddeutu £37,000 y flwyddyn ar lefelau prisiau 2016–17. Ar 31 Mawrth 2017, roedd ar y Pwyllgor Newid Hinsawdd oddeutu £3,000 am ffïoedd gwasanaeth ac roedd arnom ni oddeutu £6,000 iddo am rent.

Fel y nodir ar dudalennau 51 i 59, roedd gan ymddiriedolwyr CGDG fuddiannau mewn cyrff y gwnaed grantiau Loteri iddynt gan CGDG. Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau fuddiannau mewn prosiectau yr oedd eu pwyllgor yn rhoi grantiau Loteri iddynt neu eu cymeradwyo i'r Bwrdd. Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor ddatgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod a pheidio â mynychu unrhyw ran o gyfarfodydd lle mae'r cais hwnnw am grant yn cael ei drafod. Nid ydynt yn cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad ynglŷn â dyfarnu grant nac unrhyw benderfyniad dilynol a wneir ynglŷn â'r grant hwnnw. Mae rheolau llym hefyd o ran yr amgylchiadau pryd y gall ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor dderbyn gwaith am dâl gan dderbynnydd grant. Felly, mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon na wnaeth yr unigolion ddylanwadu ar y broses benderfynu mewn unrhyw achos.

Bydd trafodion partïon perthynol wedi digwydd yn 2016–17 hefyd, ar ffurf taliadau grant yn ymwneud â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Am fod y trafodion partïon perthynol hynny wedi'u datgelu'n flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma.

## Bwrdd yr ymddiriedolwyr

### Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Archeoleg Norfolk

Grant o £462,400 a dyfarnwyd pàs rownd gyntaf o £9,219,200 – 'Norwich Castle: Gateway to Medieval England'
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Archeoleg Norfolk, yr ymgeisydd.

### Cyngor Sir Norfolk: Gwasanaethau Cymunedol ac Amgylcheddol

Grant o £455,000 – 'Marriotts Way Heritage Trail'
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gyfarwyddwr cynorthwyol dros dro gwasanaethau cymunedol ac amgylcheddol (gwasanaethau diwylliannol) ar gyfer Cyngor Sir Norfolk, yr ymgeisydd.

### Cyngor Bwrdeistref King's Lynn a Gorllewin Norfolk

Grant o £89,500 – 'The South Gate Project'
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gyfarwyddwr cynorthwyol dros dro gwasanaethau cymunedol ac amgylcheddol (gwasanaethau diwylliannol) ar gyfer Cyngor Sir Norfolk, ac yn bennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk a Gwasanaeth Celfyddydau Norfolk, am fod yr ymgeisydd yn aelod o'r cytundeb ar y cyd rhwng amgueddfeydd.

### Cyngor Sir Norfolk

Grant o £554,600 – 'The Mill and the Marsh Folk; Stracey Arms Drainage Mill, Norfolk'
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gyfarwyddwr cynorthwyol dros dro gwasanaethau cymunedol ac amgylcheddol (gwasanaethau diwylliannol) ar gyfer Cyngor Sir Norfolk, yr ymgeisydd.

### Cyngor Tref Diss

Cynnydd grant o £214,000, er mwyn rhoi cyfanswm grant o £1,870,400 – 'Diss Heritage Triangle' a 'Diss Corn Hall Built for Exchange'
Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gyfarwyddwr cynorthwyol dros dro gwasanaethau cymunedol ac amgylcheddol (gwasanaethau diwylliannol) ar gyfer Cyngor Sir Norfolk, am fod y cyngor yn darparu arian partneriaeth ar gyfer y prosiect.

### Eglwys Gadeiriol Caergaint

Grant o £12,849,500 – 'The Canterbury Journey'
Datganodd Syr Roger De Haan CBE wrthdaro buddiannau am fod Ymddiriedolaeth Elusennol Roger De Haan wedi cyfrannu arian at y prosiect.

### Historic England

Cynnydd grant o £7,894,200 i wneud cyfanswm grant o £20,717,500 – 'Ditherington Flax Mill Maltings, International Heritage site at the heart of the community'
Datganodd Syr Neil Cossons OBE wrthdaro buddiannau am fod ganddo ddiddordeb hirsefydlog yn y safle a chysylltiad ag ef.

### Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Grant o £2,468,800 – 'Roundhouse Birmingham – an innovative blend of historical discovery, outdoor activities and urban enterprise'
Datganodd Syr Neil Cossons OBE wrthdaro buddiannau am ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Dreftadaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

#### Ymddiriedolaeth Natur Swydd Amwythig

Grant o £786,000 – 'Restoring the Marches Mosses'
Datganodd Syr Neil Cossons OBE wrthdaro buddiannau am fod ei wraig yn llywydd y sefydliad ymgeisiol.

#### Cyngor Dinas Nottingham

Grant o £13,883,400 – 'Revisioning Nottingham Castle – 1000 years of history'
Datganodd Syr Neil Cossons OBE wrthdaro buddiannau am ei fod yn noddwr Ymddiriedolaeth Castell Nottingham.
Datganodd Jim Dixon wrthdaro buddiannau oherwydd ei frawd yw'r swyddog arweiniol ar gyfer y prosiect.

#### Cyngor Dinas Brighton a Hove

Grant o £2,524,266.67 – 'The Stanmer Park restoration project: reviving and celebrating the heritage of the Stanmer Estate'
Datganodd Anna Carragher wrthdaro buddiannau am fod ei merch yng nghyfraith ar dîm prosiect yr ymgeisydd.

#### Amgueddfa Cymru

Cynnydd grant o £997,300 i wneud cyfanswm grant o £12,547,300 – 'Creu Hanes – Making History'
Datganodd y Farwnes Kay Andrews OBE wrthdaro buddiannau am ei bod yn ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisiol.

## Aelodau'r pwyllgorau

#### Amgueddfa Frenhinol Cernyw

Grant o £97,300 – Cynllun Busnes ac Astudiaeth Ofodol Amgueddfa a Llyfrgell Frenhinol Cernyw
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau am i'w chyflogwr, Cyngor Cernyw, roi grant blynyddol sylweddol i'r ymgeisydd ac am i'r cyngor fod ynghlwm wrth y penderfyniadau cynllunio.

#### Hall for Cornwall

Grant o £233,600 a phàs rownd gyntaf o £2,800,500 – 'Revealing City Hall: One Building, 1265 Voices'
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau am fod ei chyflogwr, Cyngor Cernyw, yn bartner cyllid o bwys ac roedd hi wedi bod yn dra chysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu'r cais.

#### Pont Tamar a Fferi Torpoint

Grant o £37,000 and phàs rownd gyntaf o £309,700 – 'Bridging the Tamar: a Learning Centre and STEAM Hub to explore Tamar's two key bridges'
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau am fod ei chyflogwr, Cyngor Cernyw, yn berchen ar yr adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu.

#### Cyngor Plwyf Calstock

Grant o £25,900 a phàs rownd gyntaf o £343,800 – Ystafell Archif a Chyfarfod Plwyf Calstock
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi rhoi cyngor i'r ymgeisydd ar gyfer ei gais gwreiddiol.

#### Eglwys Sant Pol de Leon, Paul, Pennsans

Grant o £254,000 – 'Celebrating Peace through the restoration of a significant WWI memorial Window'
Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi rhoi cefnogaeth i'r ymgeisydd ar gyfer y prosiect.

**Theatr The Dukes**

Grant o £58,700 – 'Port Stories – animating stories of Lancaster's maritime heritage'
Datganodd Ivan Wadeson wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gyfarwyddwr y sefydliad ymgeisiol.

**Curious Minds**

Grant o £10,000 – 'Blaze Harris Transformers'
Datganodd Ivan Wadeson wrthdaro buddiannau gan ei fod yn ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisiol.

**The Restoration Trust**

Grant o £53,400 – 'Human Henge – historic landscape and mental health at Stonehenge'
Datganodd Sarah Staniforth wrthdaro buddiannau gan ei bod yn ymddiriedolwr English Heritage, a fyddai ar ei elw oherwydd y prosiect.

**Cymdeithas Hanes Chipping Campden**

Grant o £26,300 – 'The Howse that was so fayre – discovering Campden House and Gardens'
Datganodd Sarah Staniforth wrthdaro buddiannau am ei bod yn ymddiriedolwr ar gyfer Ymddiriedolaeth Landmark, a oedd yn berchen ar y tir ac yn rheoli tai gwledda'r dwyrain a'r gorllewin ym Mhlasty Campden.

**Ymddiriedolaeth Landmark**

Grant o £96,000 a phàs rownd gyntaf o £582,600 – Achub Ysbyty Bwth Winsford
Datganodd Sarah Staniforth wrthdaro buddiannau am ei bod yn ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisiol.

**Plwyf yr Ynys Wair o fewn Cymuned Genhadol Glannau Hartland**

Grant o £74,900 a phàs rownd gyntaf o £931,900 – Gwarchod a datblygu canolfan Santes Helen, yr Ynys Wair, ar gyfer dysgu, ymchwilio ac addoli
Datganodd Sarah Staniforth wrthdaro buddiannau am ei bod yn ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Landmark, sy'n berchen ar Lundy Co Ltd, partner i'r prosiect a'r sefydliad a wnaeth oruchwylio'r gwaith o reoli'r adeiladau a'r ynys.

**Christchurch Activities for Young People**

Grant o £26,500 – 'Christchurch Heritage Activities for Young People'
Datganodd Wilbert Smith wrthdaro buddiannau am ei fod yn gweithio'n agos gyda'r ymgeisydd ac am ei fod yn ymddiriedolwr Christchurch Open Awards Centre, sefydliad partner yr ymgeisydd.

**Amgueddfa The Priest's House**

Grant o £145,200 a phàs rownd gyntaf o £1,127,400 – Adfywio Priest's House
Datganodd Wilbert Smith wrthdaro buddiannau oherwydd rhoddodd ei gyflogwr, cynghorau Christchurch a Dwyrain Dorset, gymorth ariannol a chymorth arall i'r ymgeisydd ac roedd wedi ysgrifennu llythyr i gefnogi'r cais.

**AHNE Cranborne Chase a Thwyni Gorllewin Wiltshire**

Grant o £105,400 a phàs rownd gyntaf o £1,782,000 – Partneriaeth Tirwedd Cranborne Chase
Datganodd Wilbert Smith wrthdaro buddiannau am fod ei gyflogwr, cynghorau Christchurch a Dwyrain Dorset, yn bartner yn y prosiect.

**Ymddiriedolaeth Dreftadaeth Swydd Lincoln**

Grant o £79,500 – 'Heritage Lincolnshire – Strengthening Our Business'
Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau am ei fod yn gadeirydd Pwyllgor Cynghori a Chyswllt yr ymgeisydd.

### Ymddiriedolaeth Dreftadaeth Swydd Lincoln

Grant o £10,000 – Tŷ Sesiynau Boston
Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau am ei fod yn gadeirydd Pwyllgor Cynghori a Chyswllt yr ymgeisydd.

### Ymddiriedolaeth Dreftadaeth Swydd Lincoln

Grant o £404,700 – 'Layers of History: Discovering Lincolnshire's Past Landscapes'
Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau am ei fod yn gadeirydd Pwyllgor Cynghori a Chyswllt yr ymgeisydd.

### Cyngor Bwrdeistref Boston

Grant o £996,000 – Prosiect treftadaeth treflun Boston
Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau am ei fod yn ymddiriedolwr Pwyllgor Cofnodi Adeiladau Cymdeithas Hanes ac Archeoleg Swydd Lincoln, a fyddai'n cyflenwi rhan o'r prosiect.

### Eglwys Gadeiriol Lincoln

Grant o £11,456,100 – 'Lincoln Cathedral Connected'
Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Adeiledd Eglwys Gadeiriol Lincoln ac wedi helpu i ysgrifennu cynllun cadwraeth yr eglwys gadeiriol.

### Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Hampshire

Grant o £100,000 – 'Westbury Manor Museum: The Westbury'
Datganodd Helen Jackson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr y sefydliad ymgeisiol.

### Cyngor Dinas Brighton a Hove

Grant o £2,524,266.67 – Prosiect adfer Stanmer Park: adfywio a dathlu treftadaeth Ystad Stanmer
Datganodd Helen Jackson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol.

### Gweithredu Cymunedol Croesoswallt

Grant o £29,900 – 'Oswestry Heritage Comics'
Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau am iddi ddarparu llythyr i gefnogi'r prosiect.

### Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol y Deyrnas Unedig

Grant o £125,400 a phàs rownd gyntaf o £1,099,900 – 'Home Hub-Spaces: Engagement in Heritage'
Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau am iddi weithio fel ymgynghorydd gyda'r ymgeisydd.

### Glandŵr Cymru (Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd)

Grant o £2,525,000 – Adfer Camlas Trefaldwyn fel adnodd ar gyfer pobl a bywyd gwyllt
Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau am iddi greu'r cynllun gweithgarwch ar gyfer y prosiect.
Datganodd Jim Harker wrthdaro buddiannau am ei fod yn aelod o gyngor y sefydliad ymgeisiol.

### Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Gogledd Lloegr

Grant o £15,200 – Rhaglen Ymgysylltu Etifeddiaeth Drydanol Armstrong
Datganodd Niall Hammond wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o Grŵp Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn rhan o Fwrdd Cynghori Rhanbarthol Swydd Efrog a Gogledd-ddwyrain Lloegr yr ymgeisydd.

**Groundwork North East**

Gostyngiad grant o £4,500 i wneud cyfanswm grant o £1,885,000 – Ailddarganfod Afon Tees
Datganodd Niall Hammond wrthdaro buddiannau oherwydd gofynnwyd i'w gwmni ymgynghorol dendro am gontract yn y prosiect.

**Ymddiriedolaeth Treftadaeth Fyw Buccleuch**

Grant o £4,200 – 'Echoes and Footsteps: researching and sharing how Geddington was affected by WWI'
Datganodd Jim Harker wrthdaro buddiannau am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Geddington, a oedd yn un o bartneriaid y prosiect.

**Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Grant o £2,468,800 – 'Roundhouse Birmingham – an innovative blend of historical discovery, outdoor activities and urban enterprise'
Datganodd Jim Harker wrthdaro buddiannau am ei fod yn aelod o gyngor y sefydliad ymgeisiol.

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi**

Grant o £1,841,800 – 'St Peter and the Old Black Lion, Northampton'
Datganodd Jim Harker wrthdaro buddiannau am fod Cyngor Sir Northampton, yr oedd yn aelod ohono ac yn arweinydd y cyngor, yn un o bartneriaid allweddol y cais.

**Ymddiriedolaeth Natur Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Swydd Northampton**

Grant o £662,800 – 'Into the Valley, Rushden'
Datganodd Jim Harker wrthdaro buddiannau am fod Cyngor Sir Northampton, yr oedd yn aelod ohono ac yn arweinydd y cyngor, yn gyd-lofnodydd fel tirfeddianwyr ar y contract.

**Silverstone Heritage Ltd**

Grant o £8,664,500 – 'The Silverstone Heritage Experience and Collections'
Datganodd Jim Harker wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gyn-gyfarwyddwr Silverstone Circuits Ltd, un o bartneriaid y prosiect.

**Sudbury Gasworks Restoration Trust Ltd**

Grant o £116,800 a phàs rownd gyntaf o £1,390,300 – 'Sudbury Gasworks: Rescued and Restored'
Datganodd Geoff Nickolds wrthdaro buddiannau am iddo fod yn aelod cyngor gynt gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a oedd yn un o bartneriaid y prosiect.

**Bwrdeistref Redbridge, Llundain**

Grant o £218,800 a phàs rownd gyntaf o £4,466,400 – Coedwig Hynafol Hainault
Datganodd Jon Sheaff wrthdaro buddiannau gan fod ei ymgynghoriaeth wedi paratoi cais yr ymgeisydd.

**Amgueddfa Beamish**

Grant o £10,891,200 – Ailwneud Beamish
Datganodd Richard Evans wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr y sefydliad ymgeisiol.

**Ymddiriedolaeth Datblygu Parc Kielder Water a Choedwig Kielder**

Grant o £336,300 – 'Living Wild at Kielder'
Datganodd Lynn Turner wrthdaro buddiannau am mai hi oedd cyfarwyddwr y sefydliad ymgeisiol.
Datganodd Chris Mullin wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Natur Northumberland, un o bartneriaid y cais.

### Ymddiriedolaeth Natur Northumberland

Grant o £20,700 a phàs rownd gyntaf o £368,500 – 'Kielderhead Wildwood'
Datganodd Lynn Turner wrthdaro buddiannau am mai hi oedd cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Parc Kielder Water a Choedwig Kielder, a fyddai'n cael elw oherwydd y prosiect.
Datganodd Chris Mullin wrthdaro buddiannau am mai fe oedd llywydd y sefydliad ymgeisiol.

### Ymddiriedolaeth Natur Northumberland

Grant o £421,900 – 'Restoring Ratty: the return of the Water Vole to Kielder Forest'
Datganodd Lynn Turner wrthdaro buddiannau am mai hi oedd cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Parc Kielder Water a Choedwig Kielder, a fyddai'n cael elw oherwydd y prosiect.
Datganodd Chris Mullin wrthdaro buddiannau am mai fe oedd llywydd y sefydliad ymgeisiol.

### Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Glannau Northumberland

Grant o £522,600 – 'Coast Care – Volunteers on the Northumberland Coast'
Datganodd Chris Mullin wrthdaro buddiannau am mai fe oedd llywydd Ymddiriedolaeth Natur Northumberland, un o bartneriaid y cais.

### Ymddiriedolaeth Ddinesig Gogledd Lloegr

Grant o £145,200 – 'NECT 50+'
Datganodd Chris Mullin wrthdaro buddiannau am ei fod yn ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisiol.

### Groundwork North East

Grant datblygu o £6,000 a phàs rownd gyntaf o £656,000 – Canolfan Dreftadaeth Tir y Derw a'r Haearn
Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Natur Durham, un o bartneriaid y prosiect.

### Ymddiriedolaeth Natur Durham

Grant o £51,100 – 'Revealing Reptiles'
Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr y sefydliad ymgeisiol.

### Ymddiriedolaeth Natur Durham

Grant o £10,000 – 'Green environment, greener economy, better health – training elected members'
Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr y sefydliad ymgeisiol.

### Ymddiriedolaeth Natur Durham

Grant o £8,400 – 'Ready for Growth'
Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr y sefydliad ymgeisiol.

### Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn

Grant o £1,997,700 – 'The Carbon Landscape'
Datganodd Steve Garland wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cadeirydd y sefydliad ymgeisiol.

### Eglwys Gadeiriol Caerliwelydd

Grant o £1,918,500 – 'Bringing Untold Stories to Life for Everyone'
Datganodd Humphrey Welfare wrthdaro buddiannau am ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynghori ar Adeiledd ar gyfer y sefydliad ymgeisiol.

### Awdurdod Parc Cenedlaethol y Cairngorms

Grant o £2,338,100 – Partneriaeth Tirwedd Hanesion Cudd Tomintoul a Glenlivet
Datganodd Alice Mayne wrthdaro buddiannau gan fod yr ymgeisydd yn gyflogwr iddi, ac am i rywfaint o'r arian cyfatebol ddod o Cairngorms LEADER, yr oedd hi'n ei reoli.

### Menter Langholme

Grant o £1,378,700 – Prosiect eryrod aur de'r Alban
Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yr Alban, ac am ei fod yn aelod o fwrdd ledled y DU y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, yr oedd yn bartneriaid prosiect.

### Coleg Hadlow

Grant o £1,317,200 – Amgueddfa Fwyngloddio Caint
Datganodd Bill Ferris wrthdaro buddiannau am ei fod yn rhan o grŵp llywio cynghorol ar gyfer yr ymgeisydd.

### Cyngor Medway

Grant o £1,782,600 – 'Command of the Heights'
Datganodd Bill Ferris wrthdaro buddiannau am mai fe oedd prif weithredwr Ymddiriedolaeth Iard Longau Hanesyddol Chatham, a fyddai'n cael elw oherwydd y prosiect.

### Amgueddfa Celf ac Archeoleg Ashmolean

Grant o £1,102,500 – 'Acquisition of the Watlington Viking Hoard'
Datganodd Susan McCormack wrthdaro buddiannau am mai hi oedd cyfarwyddwr ymgysylltiad cyhoeddus y sefydliad ymgeisiol.

### Gwarchod Glöynnod Byw

Grant o £318,100 – 'All the Moor Butterflies – Conserving the South West's threatened moorland butterflies and moths'
Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau am ei bod yn aelod o Fwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor, a oedd yn bartner yn y prosiect.

### Plantlife International

Grant o £69,800 a phàs rownd gyntaf o £504,400 – Adeiladu coetiroedd gwydn yn ne-orllewin Lloegr
Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau am fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor, yr oedd hi'n aelod o'r bwrdd, yn un o fuddiolwyr y prosiect.

### Living Options Devon

Grant o £527,000 – 'The Heritage Ability Project, South West'
Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau oherwydd byddai Amgueddfa Wheal Martyn yn cael elw o'r prosiect. Hi oedd prif weithredwr yr amgueddfa gynt ac roedd hi wedi parhau i fod yn gyfarwyddwr is-gwmni elusen yr amgueddfa, Wheal Martyn Enterprises.

### Prifysgol Caerwysg

Grant o £38,500 a phàs rownd gyntaf o £261,000 – 'Understanding Landscapes: empowering communities to preserve their heritage'
Datganodd Phil Collins wrthdaro buddiannau am fod ei wraig yn fyfyriwr PhD yn yr adran archeoleg a gallai dderbyn gwaith trwy'r prosiect.

### Cadwch Gymru'n Daclus

Grant o £611,200 – 'Y Goedwig Hir: Prosiect cymunedol er mwyn gwarchod gwrychoedd Cymru'
Datganodd Rhian Thomas wrthdaro buddiannau am ei bod yn gyn-ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisiol.

### Cadwch Gymru'n Daclus

Grant o £70,000 a phàs rownd gyntaf o £650,000 – 'Nodi, adfer a dathlu ffynhonnau sanctaidd a sbâu meddyginiaethol'
Datganodd Rhian Thomas wrthdaro buddiannau am ei bod yn gyn-ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisiol.

### Claymills Pumping Engines Trust Ltd

Grant o £56,100 a phàs rownd gyntaf o £1,748,900 – Canolfan ymwelwyr ar gyfer gorsaf bwmpio Fictoraidd Claymills
Datganodd Alan Taylor wrthdaro buddiannau am iddo weithio gyda'r tîm ymgeisiol ers sawl blwyddyn ac am ei fod mewn cysylltiad parhaus â nhw.

### Llyfrgell Walkley Carnegie

Grant o £67,000 a phàs rownd gyntaf o £1,329,000 – 'Lending a New Lease of Life to Walkley Library'
Datganodd Tony Collins wrthdaro buddiannau am mai fe oedd cyfarwyddwr y sefydliad ymgeisiol.

### Amgueddfa a Gerddi Horniman

Grant o £272,000 – Caffaeliad o bedwar offeryn allweddog hanesyddol o faenordy Finchcocks i'w defnyddio a'u harddangos
Datganodd Hillary Carty wrthdaro buddiannau am ei bod yn ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisiol.

### The West India Committee

Grant o £78,400 – 'Sugar, Spice and Everything Nice, That's What The Police Are Made Of'
Datganodd Blondel Cluff wrthdaro buddiannau am mai hi oedd prif weithredwr y sefydliad ymgeisiol.

### Ymddiriedolaeth Amgueddfa Lymington

Grant o £275,000 – 'Securing the Future of St. Barbe'
Datganodd Stephen Boyce wrthdaro buddiannau am ei fod wedi rhoi cyngor parhaus i'r sefydliad ymgeisiol.

### Coleg Askham Bryan

Grant o £155,600 a phàs rownd gyntaf o £3,198,500 – Gwarchod a gwella'r Porthdy Canolog ym Mharc Stewart, Middlesbrough, fel cyfleuster addysg wedi'i seilio ar y tir
Datganodd John Williams wrthdaro buddiannau am ei fod yn un o lywodraethwyr y sefydliad ymgeisiol.

### True Form Project CIC

Grant o £73,200 – 'Youth Generations'
Datganodd Izzy Mohammed wrthdaro buddiannau am iddo ddarparu cefnogaeth allgymorth a deongliadol trwy'r sefydliad Future Seed C.I.C., yr oedd yn gyfarwyddwr arno.

### Mercurial Arts Ltd

Grant o £79,500 – 'Histories at Hobmoor'
Datganodd Izzy Mohammed wrthdaro buddiannau am iddo ddarparu ymgynghoriad a chyngor cychwynnol ar y prosiect.

### Sefydliad Mwyngloddio a Pheirianwyr Mecanyddol Gogledd Lloegr

Grant o £600,000 a phàs rownd gyntaf o £4,100,000 – Ystafelloedd Cyffredin a Sefydliad Mwyngloddio Gogledd Lloegr
Datganodd Keith Sweetmore wrthdaro buddiannau am ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynghori ynghylch Casgliadau'r sefydliad ymgeisiol.

## Staff

### Ymddiriedolaeth Dreftadaeth Cambo

Cynnydd grant o £87,000, i wneud cyfanswm grant o £1,302,600 – 'Cambo: a window on the past, a door to the future'
Datganodd Nicholas Meny, swyddog grantiau, wrthdaro buddiannau am fod ei bartner yn un o gyflogeion y sefydliad ymgeisiol.

## 15. Offerynnau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7, *'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau'* (IFRS 7), yn mynnu y datgelir y rôl y chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan CGDG bwerau i fenthyg, a gall dim ond fuddsoddi cyllid a ddeillir o gymorth grant. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

### Risg hylifedd

Yn 2016–17, deilliodd £326miliwn (99.5%) o incwm dosbarthu arian Loteri CGDG o'r Loteri Genedlaethol. Daeth yr incwm a oedd yn weddill o adenillion buddsoddi ar y balans a ddelir gyda Chronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG), sef £1.1miliwn (0.3%), ynghyd â swm bach o log banc ac ad-daliadau grant. Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod i'w rhwymedigaethau grant a'u symiau eraill sy'n daladwy fynd y tu hwnt i werth y cronfeydd yn CDLG ar 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried nad yw eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt ddigon o adnoddau hylifol yn CDLG ac yn y banc i fodloni pob cais tebygol am dalu grant yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr, a hynny'n fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad yw'n bwriadu newid trefniadau dosbarthu arian y Loteri ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, cynyddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyfran dreftadaeth arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012 ymlaen. Mae'r ymddiriedolwyr wedi llunio strategaeth dyfarnu grantiau tymor hir i sicrhau bod eu rhwymedigaethau dosbarthu arian y Loteri yn cyd-fynd ag asedau, a bod yr ymddiriedolwyr yn gallu bodloni eu hymrwymiadau tan fis Mawrth 2023, pan fydd pedwaredd drwydded gweithredu'r Loteri yn dod i ben. Felly, hyd yn oed pe bai dirywiad tymor hir yn incwm y Loteri, byddai'r ymddiriedolwyr, yn syml, yn addasu cyllidebau grant blynyddol i wneud iawn am hynny.

### Risg marchnad a chyfradd llog

Mae asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu arian Loteri CGDG yn cael eu buddsoddi yn CDLG, sy'n buddsoddi mewn amrediad cul o asedau risg isel megis bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r cronfeydd hyn. Am y ddau reswm hyn, nid ydym wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o risgiau'r farchnad. Ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, gwerth marchnad ein buddsoddiadau yn CDLG oedd £497miliwn. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi gwybod i ni fod cronfeydd CDLG wedi ennill 0.34% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Mae ein balansau arian parod, sef symiau a dynnir i lawr o CDLG i ganiatáu i ni dalu grantiau a chostau gweithredol, yn cael eu dal mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol mynediad uniongyrchol, a oedd â chyfradd llog o 0.45% yn ystod y flwyddyn. Mae'r gostyngiad cyflym a fu i gyfraddau llog marchnad yn 2008, ynghyd â'r gostyngiad bach yn 2016–17, wedi cael effaith sylweddol ar adenillion buddsoddi, ond gan nad oes llawer o le i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £2.6miliwn. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn nad yw eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risgiau cyfradd llog sylweddol. Roedd gan asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eraill gyfraddau llog o ddim.

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian parod | | |
| – sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol | **2,583** | 3,368 |
| – sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog | **496,757** | 594,904 |
| | **499,340** | 598,272 |

## Risg credyd

Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys rhagdaliadau, incwm cronedig (prydlesi eiddo ac ardrethi busnes yn bennaf), a balansau rhyng-lywodraeth bron yn gyfan gwbl. Mae'r balansau rhyng-lywodraeth gyda chyrff sy'n cael eu noddi gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn bennaf. Roedd pob un ohonynt wedi cael eu talu erbyn i'r cyfrifon gael eu llofnodi, heblaw am fenthyciad nad yw'n ddyledus am sawl blwyddyn. Nid yw'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risg credyd sylweddol.

## Risg arian tramor

Nid yw gweithgareddau dosbarthu arian Loteri CGDG yn agored i unrhyw risgiau cyfnewidfa dramor.

## Asedau ariannol yn ôl categori

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu | **496,757** | 594,904 |
| – arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **2,583** | 3,368 |
| – benthyciadau a symiau derbyniadwy | **2,638** | 3,718 |
| | **501,978** | 601,990 |

## Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – darpariaeth | **0** | 0 |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • ymrwymiadau grant | **1,022,940** | 996,038 |
| • symiau taladwy gweithredol | **788** | 690 |
| • symiau taladwy eraill | **471** | 401 |
| • croniadau | **1,473** | 1,443 |
| | **1,025,672** | 998,572 |

## Gwerthoedd teg

Nodir ar dudalen 61 cymhariaeth, fesul categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol CDL ar 31 Mawrth 2017.

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2017

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod[1] | **2,583** | **2,583** |
| Buddsoddiadau[2] | **496,757** | **496,757** |
| Symiau derbyniadwy[3] | **2,638** | **2,638** |
| | **501,978** | **501,978** |

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod[1] | 3,368 | 3,368 |
| Buddsoddiadau[2] | 594,904 | 594,904 |
| Symiau derbyniadwy[3] | 3,718 | 3,718 |
| | 601,990 | 601,990 |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2017

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant[4] | **1,022,940** | **1,022,940** |
| Symiau taladwy gweithredol[5] | **788** | **788** |
| Symiau taladwy eraill[5] | **471** | **471** |
| Croniadau[5] | **1,473** | **1,473** |
| | **1,025,672** | **1,025,672** |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant[4] | 996,038 | 996,038 |
| Symiau taladwy gweithredol[5] | 690 | 690 |
| Symiau taladwy eraill[5] | 401 | 401 |
| Croniadau[5] | 1,443 | 1,443 |
| | 998,572 | 998,572 |

Sail prisiad teg

1 Y ffigur yma yw gwerth adneuon gyda banciau masnachol. Disgwylir bod gwerth llyfr yn gyfwerth â gwerth teg.

2 Rheolir buddsoddiadau gan yr ysgrifennydd dros ddiwylliant. Ef neu hi sy'n rhoi manylion i'r ymddiriedolwyr am werth llyfr a gwerth teg ein balansau ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

3 Ni thybir bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Nid yw'r un o'r dyledion yn rhai tymor hir heblaw am un benthyciad tymor hir.

4 Er ein bod yn datgelu £661miliwn o ymrwymiadau grant nad ydynt yn ddyledus tan ar ôl un flwyddyn yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r ymddiriedolwyr dan ymrwymiad contract i dalu'r symiau hyn ar gais, yn amodol ar gontract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf pe bai'r prosiectau treftadaeth perthnasol yn symud ymlaen yn gynt na'r disgwyl.

5 Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn telerau cytundebol arferol, 14–30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng gwerth llyfr a gwerth teg.

## Rhwymedigaethau ariannol yn aeddfedu

| | 2016–17 £'000 | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | **1,025,672** | 998,572 |
| Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd | **0** | 0 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **1,025,672** | 998,572 |

Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigurau ar dudalen 61 ac yn gwahanu'r ffigurau rhwng symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn a symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn. Nid yw ein contractau â derbynyddion grant yn cynnwys rhaniad rhwng symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn a rhai sy'n ddyledus y tu hwnt i un flwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn wedi'i seilio'n unig ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnwyd i lawr gan dderbynyddion grant i ariannu eu prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai derbynyddion grant fynnu cael eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf pe bai eu prosiectau'n cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwnnw. O'r herwydd, rydym wedi defnyddio dull gochelgar ac wedi dangos aeddfedrwydd yr holl rwymedigaethau o fewn blwyddyn.

## 16. Datganiad o golledion

Gwnaeth CDL golledion drwy ddiddymu pum grant yn dod i gyfanswm o £58,564 yn ystod y flwyddyn (2015–16: naw grant yn dod i gyfanswm o £107,887).

## 17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2017 hyd at y dyddiad y llofnododd y swyddog cyfrifyddu'r cyfrifon hyn y mae angen eu datgelu. Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi ar 3 Gorffennaf 2017 gan yr ymddiriedolwyr a'r swyddog cyfrifyddu ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 18. Costau staff

Roedd costau staff ar gyfer 2016–17 fel a ganlyn:

| | **2016–17 £'000** | 2015–16 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **9,423** | 8,646 |
| Taliadau YG y cyflogwr | **887** | 582 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **1,847** | 1,740 |
| Costau staff dros dro | **150** | 129 |
| | **12,307** | 11,097 |

## 19. Cyflwyno adroddiad blynyddol a chyfrifon

Mae'r swyddog cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon at ei gilydd yn deg, yn fantoledig ac yn ddealladwy, a'i bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r crebwyll angenrheidiol ar gyfer pennu eu bod yn deg, yn fantoledig ac yn rhesymol.

# Cyfarwyddiadau polisi

Mae'r llywodraeth yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi i CDL o dan Ddeddf 1993. Daeth y cyfarwyddiadau presennol i rym yn 2008. Fel o'r blaen, mae'r rhain yn faterion sydd i'w hystyried wrth ddosbarthu arian.

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddiadau polisi yn ymwneud ag arian a ddosberthir yng Nghymru, ac yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gyfarwyddiadau ar gyfer arian a ddosberthir yn yr Alban. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau'r Deyrnas Unedig, ac fe'u hatgynhyrchir yn llawn ar dudalennau 70 i 73.

## a) Anghenion y dreftadaeth

"Asesiad CDL o anghenion y dreftadaeth genedlaethol a'u blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â nhw."

Yn 2016–17, gwnaeth y galw am arian y Loteri ar gyfer treftadaeth aros yn uchel. Am fod gwerthiannau tocynnau wedi parhau'n gryf, roeddem yn gallu ymrwymo £468.4miliwn mewn dyfarniadau, yn erbyn ceisiadau gwerth £1.13biliwn (cynnydd o 28% ers 2015–16).

Hon oedd y bedwaredd flwyddyn y gweithredwyd o dan Fframwaith Strategol 4. Rydym wedi parhau i gefnogi'r sector mewn amgylchedd gweithredu heriol, gan sefydlu rhaglenni a mentrau newydd, gan gynnwys Treftadaeth Gydnerth a Chynllun Lleoedd Gwych, i fynd i'r afael â'r angen i gynyddu cydnerthedd mewn sefydliadau treftadaeth, i sefydlu diwylliant mewn cynlluniau lleol ac wrth wneud penderfyniadau, ac i gefnogi twf.

Parhaodd canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf i ddenu llawer o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau eleni. Ers mis Ebrill 2010, mae CDL wedi dyfarnu £86miliwn i 1,720 o brosiectau a oedd yn nodi'r canmlwyddiant, gan gynnwys grantiau mawr i Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol ar gyfer HMS Caroline (£15,086,100), Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (£16.5miliwn), rhaglen celfyddydau 14–18 NOW (£10miliwn), yr Amgueddfa Danciau (£2,709,600), ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer gwarchod yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn (£2,972,500). Ers lansio'r rhaglen grantiau bach, y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw, ym mis Mai 2013, rydym wedi dyfarnu £10.7miliwn i fwy na 1,285 o brosiectau gyda nifer o sefydliadau'n derbyn grant CDL am y tro cyntaf. Mae'r dyfarniadau wedi helpu amrediad eang o sefydliadau cymunedol i archwilio a choffáu'r canmlwyddiant. Mae CDL wedi ariannu prosiectau canmlwyddiant yn 93% o ardaloedd awdurdod lleol y Deyrnas Unedig.

Rydym wedi cyhoeddi rhai mesurau ymatebol newydd i fodloni'r angen cynyddol a'n blaenoriaethau ar gyfer sector treftadaeth mwy cynhwysol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfuno cyllid cydnerthedd cyfredol i greu rhaglen Treftadaeth Gydnerth newydd, gyda chyllideb fwy a grant uchaf mwy (£250,000), rownd arall o'r rhaglenni Gwaddolion Treftadaeth a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, a rhaglen pobl ifanc newydd, Tynnu'r Llwch.

Rydym hefyd wedi datblygu ein cymunedau ar-lein ymhellach fel canolbwynt ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arfer da ar draws y sector. Yn 2016–17, gwnaethom gynnal sgyrsiau byw ynghylch rhaglenni megis Treftadaeth Gydnerth a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, yn ogystal â materion megis prentisiaethau, cynaliadwyedd amgylcheddol, partneriaethau, ac addysgu oedolion mewn meysydd treftadaeth a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae ein fforymau sy'n ymwneud â'r rhaglen Partneriaethau Tirwedd a themâu cysylltiedig â phobl ifanc a threftadaeth, a sgiliau a chydnerthedd yn parhau i ddarparu canolbwynt ar gyfer y rhai hynny sy'n rhannu diddordeb ynddynt.

## b) Cynnwys y cyhoedd

"Yr angen i gynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian."

Wrth ddatblygu ein strategaethau ariannu, rydym yn ymgynghori'n rheolaidd â chwsmeriaid a'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri er mwyn cael safbwynt y defnyddiwr olaf ar ein gwaith, i lywio polisïau ac arferion, ac i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn a wnawn. Rhoddir ein holl ddeunyddiau a phrosesau ymgeisio ar brawf gyda chwsmeriaid ar yr holl lefelau grant. Gwnaethom ddechrau'r broses ymgynghori ar gyfer ein fframwaith strategol nesaf, a

fydd yn cychwyn yn 2019, trwy gynnal gweithdai gyda chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ledled pob rhanbarth a gwlad yn y DU. Fel rhan o raglen Tynnu'r Llwch, ein rhaglen grantiau newydd a enwyd gan bobl ifanc, rydym yn bwriadu recriwtio panel o bobl ifanc i gynghori ynghylch penderfyniadau dyfarnu.

Rydym wedi parhau â'n polisi o recriwtio'n agored i'n pwyllgorau ym mhob ardal o'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, a Lloegr. Yn 2016–17, gwnaethom benodi 21 aelod pwyllgor newydd. Mae pwyllgorau'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau rhwng £100,000 a £2filiwn.

## c) Mynediad a chyfranogiad

> "Yr angen i gynyddu mynediad a chyfranogiad i'r rheini nad ydynt yn elwa ar hyn o bryd ar y cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig."

Mae un o ganlyniadau allweddol Fframwaith Strategol 4 yn parhau, sef bod 'mwy o bobl, ac amrediad ehangach o bobl, yn ymwneud â threftadaeth' o ganlyniad i'r prosiectau rydym yn eu hariannu. Mae ein cynllun busnes eleni wedi blaenoriaethu'r gwaith o amrywiaethu ein dyfarniadau grant trwy waith datblygu targededig a gweithredu polisi newydd o ran gwneud penderfyniadau. Mae ein Grŵp Llywio Cydraddoldeb, a gadeirir gan y prif weithredwr ac, eleni, ag uwch-gynrychiolaeth ehangedig, wedi parhau i fonitro ac adrodd ar y gwaith hwn.

Mae ein rhaglenni grantiau llai yn parhau i fod yn ddulliau arbennig o lwyddiannus wrth sicrhau bod ein cyllid yn cyrraedd pobl yn lleol ac yn ysgogi cyfranogiad. Yn 2016–17, gwnaethom ariannu dros 480 o brosiectau Rhannu Treftadaeth ledled y DU, gan ddyfarnu cyfanswm o £4.15miliwn; gwnaethom ariannu 211 o brosiectau y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw hefyd. Mae'r ddwy raglen yn dyfarnu grantiau gwerth llai na £10,000, ac maent wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer grwpiau cymunedol. Gwnaethom 98 o ddyfarniadau hefyd, a ddaeth i gyfanswm o £852,120, fel rhan o'n hymgyrch gyllid benodol ar gyfer yr Alban, 'Stories, Stones and Bones'. Gwnaeth yr ymgyrch, a ddyluniwyd i gefnogi'r dathliad ledled yr Alban, Blwyddyn Hanes, Treftadaeth ac Archeoleg, ac i annog pobl i gymryd rhan mewn treftadaeth am y tro cyntaf, ddyfarnu 52 grant i ymgeiswyr tro cyntaf.

Mae ein 12 tîm datblygu rhanbarthol a gwladol yn parhau i hyrwyddo'n weithredol ein cyllid i grwpiau newydd sy'n cyrraedd cymunedau lleol ac sy'n gallu annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn treftadaeth. Mae'r gwaith ymestyn allan hwn wedi canolbwyntio ar fannau daearyddol lle'r ydym wedi gweld gwariant islaw'r cyffredin ac, mewn rhai mannau, ar gynulleidfaoedd penodol â nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gwaith ariannu, yn enwedig pobl ag anabledd a'r rheini o gymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, a thrawsrywiol. Eleni, mae'r holl ranbarthau a gwledydd wedi parhau i annog mwy o geisiadau gan sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau cymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac, ers mis Mai 2016, mae'r holl bobl sy'n gwneud penderfyniadau wedi blaenoriaethu ceisiadau a arweinir gan gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig pan fo mwy nag un cais yn cyrraedd y brig. Er enghraifft, mae hyn wedi arwain at ddau o'r 18 prosiect a ariennir trwy'r rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn cael eu harwain gan sefydliadau sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. At ei gilydd, rydym wedi dyfarnu £7,968,900 i 91 prosiect a arweinir gan sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau cymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mae ein gwaith i gynyddu cyfranogiad trwy wneud grantiau wedi'i ategu gan gyfathrebiadau a gweithgarwch eiriolaeth newydd eleni. Gwnaeth partneriaeth â'r BBC, gysylltiedig â'i thymor Black and British, ein galluogi i hyrwyddo prosiectau a gefnogir gan CDL a oedd yn canolbwyntio ar ehangu cyfranogaeth mewn treftadaeth. Roedd blog a ysgrifennwyd gan yr hanesydd David Olusoga ar ein gwefan i'w weld yn boblogaidd, ynghyd ag achosion achos newydd a luniwyd i ysbrydoli ceisiadau yn y dyfodol. Uchafbwynt maes gwaith parhaus ynghylch treftadaeth gynhwysol, a arweiniwyd gan y cadeirydd, oedd seminar ar swyddogaeth treftadaeth ym mywydau pobl â dementia a'r sawl sy'n

profi salwch meddwl. Mae cyflwyniadau wedi'u rhannu trwy ein cymuned ar-lein ac mae blogiau pellach wedi'u cyhoeddi i ysbrydoli syniadau ar gyfer prosiectau.

## ch) Plant a phobl ifanc

> "Yr angen i ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ennyn eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y gweithgareddau y mae achos da'r dreftadaeth yn ymwneud â nhw."

Rydym wedi datblygu ein gwaith cysylltiedig â phobl ifanc yn sylweddol eleni, gan lansio Tynnu'r Llwch, rhaglen beilot newydd gwerth £10miliwn, a'i hyrwyddo ledled y DU. Gwnaethom weithio gyda phobl ifanc i enwi'r rhaglen ac mae gennym gynlluniau ar waith i recriwtio llysgenhadon ieuenctid i weithio gyda ni yn ystod 2017–18. Gyda grantiau o £500,000 i £1miliwn, dyluniwyd Tynnu'r Llwch i gynyddu uchelgais sefydliadau treftadaeth sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac i gynnal eu gwaith yn y tymor hirach; mae wedi bod yn hynod o boblogaidd gyda'r sectorau treftadaeth ac ieuenctid. Gwnaed dros 200 o ddatganiadau o ddiddordeb; mae ceisiadau'r rownd gyntaf wedi bod yn gryf iawn ac mae penderfyniadau i fod i gael eu gwneud ym mis Mehefin 2017.

Mae ein rhaglen hirhoedlog Gwreiddiau Ifanc, sy'n dyfarnu grantiau llai ar gyfer gwaith sy'n canolbwyntio ar ieuenctid, wedi parhau i gyflenwi buddion lleol o bwys eleni. Ers 2002, rydym wedi gwneud dros 1,820 o ddyfarniadau Gwreiddiau Ifanc, ac yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi buddsoddi £3.64miliwn mewn 97 o brosiectau ledled y DU. Trwy'r prosiectau hyn, mae miloedd o bobl ifanc wedi dysgu am dreftadaeth ac wedi datblygu sgiliau a hyder, yn aml wrth hyrwyddo cydberthnasau rhwng cenedlaethol ac arddangos gweithredu cymdeithasol.

Mae mwyafrif helaeth y prosiectau rydym wedi eu hariannu eleni, er yn llai targededig na Gwreiddiau Ifanc, wedi ceisio ymgysylltu â phlant a phobl ifanc rywfodd. Mae ein derbynyddion grant yn gyffredinol yn cyflenwi un neu fwy o amrediad o weithgareddau, yn aml gan gyflogi staff arbenigol i gyflenwi gwaith newydd. Fel arfer, rydym wedi cyllido: adnoddau priodol i lefel ddysgu'r plant; clybiau gweithgareddau anffurfiol, mannau dysgu newydd a chyfarpar; offerynnau digidol; cyfleoedd gwirfoddoli sy'n briodol i bobl ifanc – a phob un ohonynt wedi'u dylunio i sicrhau bod ymgysylltiadau â threftadaeth yn ysbrydoledig ac yn hirhoedlog.

## d) Cymunedau

> "Yr angen i feithrin mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, sy'n cyfoethogi tir y cyhoedd ac yn cryfhau cymunedau."

Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth parhaol ar gyfer treftadaeth, pobl, a chymunedau. Rydym yn annog derbynyddion grant i gyflenwi canlyniadau sy'n helpu i gryfhau cymunedau. Yn fwy penodol, eleni rydym wedi cyllido ceisiadau partneriaeth i osod treftadaeth a diwylliant wrth galon cynllunio lleol ac i gryfhau tir y cyhoedd trwy gynllun Lleoedd Gwych, menter newydd a gyflenwir gyda Historic England ac Arts Council England.

Mae ein rhaglenni grant canolog, yn enwedig Rhannu Treftadaeth (£3,000–£10,000) ac Ein Treftadaeth (£10,000–£100,000), wedi parhau i gefnogi amrediad eang o brosiectau ledled y DU sydd wedi'u datblygu gan ac er lles grwpiau cymunedol lleol. Rydym yn gwybod yn sgil gwaith gwerthuso newydd fod ein prosiectau yn cyflenwi canlyniadau cryf ar gyfer cymunedau ac yn dod â phobl ynghyd, yn aml o wahanol genedlaethau, i ddatblygu eu dealltwriaeth, darganfod doniau newydd, dod yn hyrwyddwyr treftadaeth, neu wella eu llesiant.

Mae ein grantiau mwy o faint yn gwneud gwahaniaeth trawsffurfiol i dir y cyhoedd. Eleni, rydym wedi ariannu 16 prosiect rownd gyntaf ac 13 prosiect ail rownd Parciau i Bobl a fydd yn rhoi bywyd newydd i'n parciau trefol ac annog pobl i ddod at ei gilydd mewn amgylcheddau gwell a chefnogi canlyniadau gwell i fywyd gwyllt. Trwy ein rhaglen Grantiau Treftadaeth, mae ardaloedd trefol a gwledig wedi cael eu gwella gydag effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd ar gyfer cymunedau lleol. Mae adeiladau a oedd wedi dadfeilio neu nad oeddent yn cael digon o ddefnydd wedi cael eu dwyn yn ôl i ddefnydd, ac mae camlesi ac atyniadau i ymwelwyr wedi cael eu gwella a'u gloywi. Er enghraifft, agorodd Quay Place yn Ipswich eleni. Mae'r adeilad hwn, a oedd yn eglwys wag gynt, wedi'i adfer yn hardd a

bellach mae'n ganolfan gymunedol fywiog ac yn gartref i'r elusen iechyd meddwl, Mind.

### dd) Gwirfoddolwyr

"Yr angen i gefnogi gwirfoddolwyr, ac annog gweithgarwch gwirfoddoli, yn ein treftadaeth."

Mae gwirfoddoli yn parhau i gael ei annog drwy ein fframwaith canlyniadau ac, unwaith eto eleni, gwnaeth y mwyafrif helaeth o'r prosiectau a ariannwyd gennym greu cyfleoedd newydd i wirfoddoli neu ddatblygu sgiliau pobl o fewn sefydliadau a arweinir gan wirfoddolwyr. Boed yn cyfrannu fel ymddiriedolwyr, tywyswyr teithiau, gweithwyr cymorth dosbarth neu wirfoddolwyr cadwraeth bywyd gwyllt, rydym wedi parhau i ddathlu'r effaith trawsnewidiol y gall gwirfoddoli ei gael ar unigolion a'r sector trwy ein blogiau, crynodebau gwerthuso a'n hymgyrch eirioli, Newid Bywydau.

Mae ein model ariannu yn parhau i alluogi'r sector treftadaeth i greu profiadau gwirfoddoli cynhwysol sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cefnogi'r costau cysylltiedig yn llawn, gan gynnwys hyfforddiant, teithio a threuliau, a lle bo hynny'n briodol, penodiadau staff i gydlynu a rheoli niferoedd sylweddol o wirfoddolwyr.

### e) Sgiliau

"Yr angen i annog arloesedd a rhagoriaeth, a helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau."

Eleni, gwnaethom lansio ein drydedd rownd o gyllid ar gyfer y rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, gan hyrwyddo'r £10miliwn oedd ar gael gyda gweithdai ledled y DU. Rhaglen sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r prinder mewn sgiliau treftadaeth ac ehangu'r gweithlu drwy gynnig lleoliadau o ansawdd uchel, dros gyfnod o flwyddyn, mae Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn alinio'n glir ag anghenion y sector ac mae wedi bod yn boblogaidd iawn. Roedd y ceisiadau yn uwch o lawer na'r gyllideb, ac roedd y cystadlu rhwng y cynigion o ansawdd da yn sylweddol. Gwnaeth yr ymddiriedolwyr ddyfarnu £10.1miliwn i 18 o brosiectau, a fydd yn darparu dros 400 o leoliadau ac yn helpu i gyfrannu at weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n arbenigol ar gyfer y dyfodol, ac sy'n fwy cynrychioliadol o boblogaeth y DU.

Yn y cyfamser, mae'r derbynyddion grant a ariennir drwy ail rownd Sgiliau ar gyfer y Dyfodol wedi parhau i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel eleni. Hyd yn hyn, crëwyd dros 1,900 o leoliadau drwy'r rhaglen. Mae dros 1,000 o hyfforddeion wedi cwblhau eu hyfforddiant ac yn parhau i ddweud eu bod yn fodlon iawn o ran eu profiadau. Mae ein gwerthusiad diweddaraf o'r rhaglen wedi cadarnhau'r buddion ansawdd uchel sy'n deillio ohoni. Amcangyfrifir bod 75% o hyfforddeion wedi symud ymlaen i weithio mewn swyddi sy'n ymwneud â threftadaeth neu hyfforddiant pellach o ganlyniad i'n buddsoddiad ni.

Ar draws pob un o'n prosiectau a'n rhaglenni eleni, rydym wedi parhau i flaenoriaethu datblygiad sgiliau gwirfoddolwyr, staff cyflogedig, a'r newydd-ddyfodiaid sy'n ymuno â'r gweithlu treftadaeth. Mae'r canlyniad 'bydd pobl wedi datblygu sgiliau' yn parhau i fod yn ganlyniad sydd o bwys ar gyfer ein rhaglen Grantiau Treftadaeth. Gwyddom fod y rhan fwyaf o brosiectau Grantiau Treftadaeth yn cynnig hyfforddiant i wirfoddolwyr, e.e. y prosiect llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar les, 'if: Volunteering for wellbeing', a ddarparwyd gan IWM North ac Amgueddfa Manceinion, gyda llawer ohonynt, gan gynnwys y prosiect 'canal college' yn yr Alban, hefyd yn cynnig prentisiaethau am dâl.

### f) Gwerth cyhoeddus

"Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo gwerth cyhoeddus ac nad elw preifat yw eu bwriad pennaf."

Mae ein hathroniaeth ar gyfer y Loteri Genedlaethol yn seiliedig ar ariannu'r hyn y mae pobl yn ei drysori, ac mae ein hasesiad o geisiadau yn ystyried y deilliannau y bydd prosiectau'n eu creu ar gyfer treftadaeth, pobl a chymunedau. Rhown flaenoriaeth i sefydliadau dielw ac, er 2002, mae bron hanner ein cyllid yn ôl gwerth (44%) wedi mynd i sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eglwysig.

Darparwn rywfaint o gymorth i dreftadaeth mewn perchenogaeth breifat drwy ein rhaglen Ein Treftadaeth (grantiau o £10,000–£100,000) ar yr amod y gall ymgeiswyr ddangos bod brwdfrydedd clir gan y cyhoedd i'w prosiect, a gwir angen am fuddsoddiad y Loteri

Genedlaethol. O dan ein rhaglen Menter Treftadaeth, mae'r achos dros arian y Loteri yn dibynnu ar 'ddiffyg cadwraeth' – lle mae gwerth presennol adeilad a'r gost o'i ddychwelyd i ddefnydd yn fwy na'i werth ar ôl y prosiect. Diben yr ymagweddau hyn yw sicrhau bod y buddion cyhoeddus o'r prosiectau y buddsoddwn ynddynt yn gorbwyso unrhyw fudd preifat.

### ff) Datblygu cynaliadwy

"Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy eleni. Mae'r holl ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau am gyllid o fwy na £2filiwn yn dod o dan ein polisi ôl troed carbon, sy'n mynnu eu bod yn cynnal asesiad ôl troed carbon o'r cynnig ar gyfer y prosiect yn ystod y cyfnod datblygu. Mae'r asesiadau hyn wedi dod yn rhan annatod o'r broses gyffredinol o arfarnu prosiectau ar gyfer rhagor o brosiectau yn ystod 2016–17 wrth iddynt gyrraedd yr ail rownd.

Dim ond un rhan o'r asesiad a wnawn o effeithiau amgylcheddol tebygol prosiectau yw pennu ôl troed carbon. Er 2008, rydym wedi mynnu bod ymgeiswyr yn dweud wrthym sut y byddant yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â defnyddio adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, dŵr, deunyddiau adeiladu, gwastraff, pridd, caffael pren cynaliadwy, bioamrywiaeth a thrafnidiaeth ymwelwyr, ac rydym wedi cynnig arweiniad i helpu ymgeiswyr i gynllunio a dylunio eu prosiectau. O ran penderfyniadau Grantiau Treftadaeth a wneir gan y Bwrdd, darparwn grynodeb o ba mor dda y mae sefydliadau wedi mynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol hyn yn eu ceisiadau.

Un o'r canlyniadau sydd wedi'i bwysoli ar gyfer grantiau dros £100,000 yn ein rhaglenni agored yw y 'bydd effeithiau amgylcheddol yn cael eu lleihau'.

### g) Amddifadedd economaidd a chymdeithasol

"Dymunoldeb lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol a sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad at yr arian a ddosberthir."

Mae ychydig dros ddwy ran o bump (43%) o holl gyllid CDL wedi'i ymrwymo yn y 25% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig (yn seiliedig ar y mynegeion mwyaf diweddar o amddifadedd lluosog ar gyfer Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Mae gennym dimau datblygu yn ein swyddfeydd lleol yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr sy'n annog ceisiadau o ansawdd da o ardaloedd nad ydynt wedi cael eu cynrychioli cystal yn ein cyllido hyd yma. Mae ein timau datblygu bellach yn gweithio mewn ardaloedd blaenoriaeth a nodwyd yn Fframwaith Strategol 4.

Fel mesur o ledaenu cyllid yn deg, rydym yn adolygu nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi derbyn cryn dipyn yn llai na chyfartaledd y Deyrnas Unedig o ran gwerth dyfarniadau grant y pen. Mae nifer yr awdurdodau lleol lle mae gwerth dyfarniadau grant y pen yn llai na chwarter cyfartaledd y DU bellach yn 51 (13% o'r cyfanswm).

### ng) Gweithio ar y cyd

"Dymunoldeb gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw hyn yn ffordd effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa."

Gwnaeth y Papur Gwyn Diwylliant greu cyd-destun pwysig ar gyfer gwaith CDL yn 2016–17. Eleni, gwnaethom weithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Arts Council England, Historic England ac eraill i gyflawni uchelgais y Papur Gwyn Diwylliant, a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Mawrth 2016. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynllun Lleoedd Gwych – gwnaethom weithio mewn partneriaeth ag Arts Council England i gynllunio a darparu'r cynlag Arts Council England, rydym yn buddsoddi £20miliwn mewn 16 o leoedd yn Lloegr er mwyn rhoi'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth wraidd y weledigaeth leol a'r penderfyniadau a wneir. Rydym yn disgwyl dyfarnu £5miliwn ar gyfer cynlluniau Lleoedd Gwych yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn ystod 2017–18.

- cyllido torfol – gwnaethom weithio mewn partneriaeth gyda Nesta, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac Arts Council England i ddarparu cynllun cyllido torfol drwy Crowdfunder (www.crowdfunder.co.uk) i archwilio potensial y dull hwn ar gyfer ehangu cyllid o fewn y sector diwylliannol.
- Adolygiad Eglwysi – cyfrannodd CDL ein harbenigedd at yr adolygiad hwn o gyllid, defnydd, a chynaliadwyedd mannau addoli. Roedd ein cadeirydd, Syr Peter Luff, yn aelod o'r panel.
- Adolygiad Amgueddfeydd – cyfrannodd CDL ac Arts Council England at yr adolygiad hwn o amgueddfeydd a sut y cânt eu hariannu, arweinyddiaeth strategol yn y sector, a sut i adeiladu gwytnwch. Cyhoeddir yr adolygiad yng ngwanwyn 2017.
- adolygiad wedi'i deilwra – cychwynnodd ein hadolygiad wedi'i deilwra ym mis Chwefror 2017 a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod 2017–18.

Gwnaethom barhau i weithio gyda'r llywodraeth, Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol, y Lleng Brydeinig Frenhinol a llawer o gyrff eraill ar weithgareddau i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Ynghyd ag Arts Council England, rydym yn ariannu rhaglen ddiwylliannol fawr y DU, 14–18 NOW. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae ei gyllid yn galluogi canolfannau ymgysylltu pum prifysgol i ddarparu ymchwil arbenigol i gefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau diwylliannol sy'n ymgymryd â phrosiectau canmlwyddiant a ariennir gan CDL. Mae'r pynciau yn amrywio o'r ffrynt cartref a phrofiadau menywod i ddatblygiadau meddygol a thechnolegol a chyfraniad milwyr o'r Ymerodraeth Brydeinig at y rhyfel.

Yn rhan o Fframwaith Strategol 4, gwnaethom ymrwymo i 'siarad o blaid treftadaeth a dangos ei gwerth i fywyd modern' ac i greu 'mwy o gyfleoedd i drafod gyda phobl y mae treftadaeth yn bwysig iddynt'. Gwnaethom adeiladu ar hyn yn ystod Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd 2016, pan gynhaliodd CDL seminar ar dreftadaeth gynhwysol, gan ddod ag arweinwyr o sefydliadau iechyd a threftadaeth at ei gilydd i rannu eu gwybodaeth a thrafod iechyd meddwl, dementia a threftadaeth. Rhannwyd y trafodion yn helaeth ar ein gwefan.

Rydym wedi parhau â'n gwaith ymchwil gyda Chymdeithas Frenhinol y Celfyddydau ar dreftadaeth, hunaniaeth a lle, gan gynnal digwyddiad bwrdd crwn, 'Networked Heritage', ym mis Tachwedd 2016. Yn yr un mis, lansiwyd Mynegai Treftadaeth diweddaredig gan Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau i helpu pobl i ddeall asedau a gweithgareddau treftadaeth lleol, a chael mynediad at ddata perthnasol trwy un safle. Mae'r Mynegai Treftadaeth wedi'i gynllunio i ysgogi trafodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei werthfawrogi o'r gorffennol, a sut mae hynny'n dylanwadu ar hunaniaeth preswylwyr presennol. Gall hyn helpu lle i gyflawni ei ddyheadau i dyfu a ffynnu, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Bydd y Mynegai Treftadaeth yn llywio ymagwedd CDL at gyllido lleoedd yn y dyfodol, ac yn cefnogi datblygiad ein fframwaith strategol nesaf. Mae'r Mynegai Treftadaeth yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd allbwn ar gyfer y Papur Gwyn Diwylliant, gan fesur unrhyw gynnydd yn nifer y lleoedd sy'n gwneud y mwyaf o asedau treftadaeth.

Gwnaethom lansio adroddiad *Cyflwr Parciau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig 2016* yn ystod digwyddiad seneddol a fynychwyd gan seneddwyr a chynrychiolwyr o sectorau perthnasol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am arweiniad a phartneriaethau gweithredol er mwyn cynnal parciau cyhoeddus yn y DU.

Trwy Fforwm y Loteri ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, rydym wedi parhau i weithio gyda dosbarthwyr arian eraill y Loteri er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n parhau i gael eu cydlynu'n agos ac i roi diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Gwnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr i ddarparu ein rhaglen Parciau i Bobl yn Lloegr, ac i weithio ar y cyd â Historic England, Cadw a Historic Scotland ar ein rhaglen Grantiau ar gyfer Mannau Addoli.

## h) Cydnabyddiaeth

"Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod cyllid y Loteri trwy ddefnyddio brand cyffredin y Loteri."

Credwn fod y buddion o gynyddu ymwybyddiaeth o gyllid y Loteri yn bwysig ac rydym yn pennu gofyniad bod pob ymgeisydd yn cydnabod ein grantiau'n briodol yn ystod cyfnod cyflwyno'r prosiect, ac ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae ein dogfen ganllaw, *Sut i gydnabod eich grant,* yn rhan o'n telerau grant safonol. Eleni, rydym wedi cynyddu ein ffocws ar hyn drwy ofyn ymgeiswyr i ddweud wrthym, fel rhan o'u cais, beth yw eu cynlluniau i hyrwyddo cyfraniad y Loteri Genedlaethol at eu prosiect.

## i) Cyllid partneriaeth

"Yr angen i brosiectau gael elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniadau mewn nwyddau neu wasanaethau o ffynonellau eraill, i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol.

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn ar gyfer Fframwaith Strategol 4. Tynnodd ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn 2011 sylw at anawsterau yr oeddent yn eu rhagweld o ran cynyddu cyllid partneriaeth mewn cyfnod o her economaidd, felly rydym wedi cynnal y gofyniad lleiaf yn ein prif raglen agored, Grantiau Treftadaeth, o 5% mewn arian parod neu gyfraniad mewn nwyddau neu wasanaethau ar gyfer grantiau hyd at £1filiwn, a lleiafswm o 10% ar gyfer grantiau dros £1filiwn. Rydym yn adolygu hyn bob blwyddyn.

## l) Penderfyniadau

"Yr angen: (a) i arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau at ddiben cyfyngedig i amser penodol yn unig; (b) i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol a chyngor arbenigol ganddynt i wneud penderfyniadau am bob cais; ac (c) i ymgeiswyr ddangos hyfywedd ariannol prosiectau."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn ar gyfer Fframwaith Strategol 4.

a) Mae'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi yn rhai penodol ac yn gyfyngedig i amser. Cyfyngwn ein cymorth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gweithgareddau

b) Ceisiwn wybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y mae eu prosiectau'n cyflwyno achos cadarn dros fuddsoddi, y graddau y byddant yn cyflawni deilliannau i dreftadaeth, pobl a chymunedau, y graddau y maent yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn ariannol, a'r graddau y byddant yn darparu gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

c) Gofynnwn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos hyfywedd ariannol eu prosiect, wedi'i ddadansoddi yn ôl costau cyfalaf, gweithgarwch a chostau eraill, ac yn dangos pa gyfraniad y maent yn cynnig ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Gofynnwn am ragamcaniad llif arian ac, ar gyfer prosiectau mwy, rhagamcaniadau incwm a gwariant am 10 mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect yn y tymor hir.

## ll) Cynllunio a rheoli prosiectau

"Lle ceisir cyllid cyfalaf, yr angen (a) am gynllun busnes clir sy'n dangos sut bydd unrhyw gostau rhedeg a chostau cynnal a chadw'n cael eu talu dros gyfnod rhesymol, a (b) i sicrhau bod y gwaith arfarnu a rheoli ar gyfer prif brosiectau yn adlewyrchu Safonau Adolygiadau Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth."

a) Ar gyfer Fframwaith Strategol 4, mae'r ffurflen gais ar gyfer ein rhaglen Grantiau Treftadaeth yn parhau i ofyn i ymgeiswyr osod eu ceisiadau ail rownd mewn fformat cynllun busnes, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chynnwys mewn cynllun gweithgarwch, rhagamcaniadau llif arian, a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer grantiau dros £2filiwn, gofynnwn am gynllun busnes prosiect. Gofynnwn i brosiectau cadwraeth gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal treftadaeth yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod ganddi ddyfodol hyfyw ac i ddiogelu ein buddsoddiad trwy reolaeth hirdymor well. Ar gyfer prosiectau sy'n golygu gwerth dros £200,000 o weithiau cyfalaf, gofynnwn

am gynllun rheoli a chynnal a chadw sy'n nodi manylion sut bydd yr ymgeisydd yn talu'r costau ychwanegol hyn ar ôl cwblhau ei brosiect, a chyhoeddwn arweiniad ar sut i gynhyrchu hwn.

b) Gofynnwn i bob ymgeisydd ddangos y bydd ei brosiect yn cael ei reoli'n dda, ac y bydd yn bodloni safonau perthnasol yr ystyrir eu bod yn arfer da ar gyfer y maes y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Ar gyfer prosiectau cyfalaf, cynhwyswn bwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gyfnodau Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Defnyddiwn fonitoriaid allanol ar bob prif brosiect er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i CDL yn ddealladwy ac yn cael eu rheoli, bod arfer gorau'n cael ei gyflawni yn yr holl feysydd critigol, a bod adrodd a rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

## Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â Chymru

Mae cyfarwyddyd polisi (b) yn pennu gofyniad bod CDL yn ystyried 'yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg, ac a gaiff ei fonitro'n unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt'.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ymrwymiad CDL i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, ac i sicrhau bod polisïau a mentrau'n bodloni'r safonau a nodir yn y cynllun. Mae hyn yn cwmpasu gweithredoedd gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru, gan gynnwys cynhyrchu ffurflenni cais, nodiadau arweiniad a gwybodaeth arall ar gyfer ein gwefan, asesu a monitro ceisiadau, y wasg a gweithgarwch marchnata, prosesau staffio a recriwtio, ac ymarferion ymgynghori ac ymchwil. Rydym yn monitro ein perfformiad yn flynyddol drwy ein hymrwymiad i gynllun cydraddoldeb, ac rydym wedi cynhyrchu arweiniad i gynorthwyo ymgeiswyr yng Nghymru i ddatblygu ymagweddau dwyieithog, sef *Ymgorffori'r Gymraeg yn eich prosiect.*

### Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i ymddiriedolwyr CGDG o dan adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Trwy hyn, mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau o dan adran 26(2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'u trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac ar ôl ymgynghori ag ymddiriedolwyr CGDG yn unol ag adran 26(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa:

1. Yn y cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran benodol yn Neddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'i diwygiwyd.

2. Wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, bydd y Gronfa yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r unigolion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau iddynt, at ba ddibenion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau ar eu cyfer, a'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r grantiau neu'r benthyciadau a ddyrennir, yn ogystal â'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud wrth ddosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

a) Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o Gymru, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio lle bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

b) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg, ac a gaiff ei fonitro yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

c) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled Cymru, lle bo hwn yn ddull effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa.

ch) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth Cymru.

d) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru.

dd) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth Cymru.

e) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.

f) Yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig ein cymdeithas, gael mynediad at dreftadaeth amrywiol Cymru, dysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny, lle bo'n briodol.

## Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban

### Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i ymddiriedolwyr CGDG o dan adran 26(2) fel y'i darllenwyd gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Gyda chytundeb yr ysgrifennydd dros ddiwylliant, mae gweinidogion yr Alban, wrth arfer y pwerau o dan adran 26(2) fel y'i darllenwyd gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993**, ac ar ôl ymgynghori ag ymddiriedolwyr CGDG, yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol:

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Alban yn unig ac yn ymwneud ag unrhyw ddosbarthiad a wnaed gan yr ymddiriedolwyr at ddiben nad yw'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.
2. Wrth bennu'r unigolion y maent yn rhoi unrhyw arian iddynt, at ba ddibenion y maent yn rhoi unrhyw arian ar eu cyfer, a'r amodau ar gyfer rhoi unrhyw arian iddynt o dan adran 25(4) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 yn yr Alban, rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried y blaenoriaethau canlynol a materion eraill:

a) Yr angen i ystyried buddiannau'r Alban gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o'r Alban, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o'r Alban, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio lle bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

b) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled yr Alban, gan ddefnyddio'r egwyddorion canlynol:

**Ymgysylltu**
Dylai rhaglenni gael eu datblygu yn seiliedig ar ymgysylltiad gweithredol partneriaid priodol.

**Gwyrddach**
Darparu gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

**Iachach**
Mae pobl a chymunedau'n iachach.

**Cryfach a mwy diogel**
Mae cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

**Craffach**
Mae pobl yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd.

**Cydgefnogaeth a chydlyniad**
Sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled yr Alban yn cael y cyfle i gyfranogi, cyfrannu ac elwa er mwyn sicrhau bod yr Alban yn fwy llwyddiannus.

**Cynaliadwyedd**
Gwella amgylchedd yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ar yr un pryd â lleihau effaith yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

**Tecach a mwy cyfoethog**
Economi ffyniannus a chynaliadwy.

c) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth yr Alban, a mynediad iddi.

ch) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi arwyddocâd diwylliannol yr ieithoedd Gaeleg a Sgoteg ar draws yr Alban gyfan.

d) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth yr Alban, gan gynnwys y rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol i bobl yr Alban.

dd) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau

difreintiedig cymdeithas, ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth yr Alban.

e) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol mewn prosiectau.

f) Yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig ein cymdeithas, gael mynediad at dreftadaeth amrywiol yr Alban, dysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny, lle bo'n briodol.

ff) Yr angen i annog prosiectau treftadaeth sy'n cynnal etifeddiaeth ddiwylliannol sy'n deillio o ddigwyddiadau rhyngwladol yn yr Alban.

g) Yr angen i roi gwybodaeth gyson i weinidogion yr Alban am ddatblygiad polisïau, pennu blaenoriaethau a rhoi grantiau yn yr Alban.

** Trosglwyddwyd y swyddogaeth a roddwyd i'r ysgrifennydd dros ddiwylliant i weinidogion yr Alban drwy Atodlen 1 i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Trosglwyddo Swyddogaethau i Weinidogion yr Alban ac ati) 1999 (O.S. 1999/1750).

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd ar brosiectau sy'n cynnwys £5miliwn neu fwy o arian y Loteri.

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ *dyddiad dyfarnu* |
|---|---|---|---|---|
| "The Hold" Gwasanaeth Archif Suffolk ar gyfer 21ain Ganrif | Dwyrain Lloegr | Cyngor Sir Suffolk | 20,338,522 | 538,100 (datblygu) 10,363,700 (cyflawni) *Ebrill 2016* |
| Amgueddfa newydd i Blackpool | Gogledd-orllewin Lloegr | Gwasanaeth Treftadaeth Cyngor Blackpool | 21,030,800 | 1,240,200 (datblygu) 13,676,800 (cyflawni) *Ebrill 2014* |
| Oriel Gelf Aberdeen: Inspiring Art and Music | Yr Alban | Cyngor Dinas Aberdeen – Oriel Gelf ac Amgueddfeydd Aberdeen | 25,236,063 | 126,200 (datblygu) 9,997,500 (cyflawni) *Medi 2014* |
| Palas Alexandra: Reclaiming the People's Palace | Llundain | Ymddiriedolaeth Elusennol Parc a Phalas Alexandra | 26,737,903 | 844,800 (datblygu) 18,850,000 (cyflawni) *Mawrth 2015* |
| Aspire (paentiad Constable 'Salisbury Cathedral from the Meadows') | Llundain | Tate Britain | 24,723,455 | 15,800,000 *Ebrill 2013* |
| Ymddiriedolaeth Castell Auckland | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Ymddiriedolaeth Castell Auckland | 20,520,200 | 1,000,000 (datblygu) 11,400,000 (cyflawni) *Awst 2016* |
| Bath Abbey Footprint | De-orllewin Lloegr | Cyngor Plwyf Eglwysig Abaty Caerfaddon | 19,441,846 | 389,000 (datblygu) 10,725,300 (cyflawni) *Mawrth 2016* |
| Buxton Crescent & Spa | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Sir Derby a Chyngor Dosbarth High Peak | 46,709,827 | 497,000 (datblygu) 23,853,000 (cyflawni) *Gorffennaf 2002* |
| Castell Aberteifi – Datgloi Potensial | Cymru | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan | 11,583,420 | 295,500 (datblygu) 6,258,300 (cyflawni) *Mawrth 2011* |
| Courtauld Connects | Llundain | Sefydliad Celf Courtauld | 33,316,885 | 650,000 (datblygu) 8,850,000 (cyflawni) *Ebrill 2016* |
| Creu Hanes – yn Sain Ffagan | Cymru | Amgueddfa Cymru | 24,477,415 | 450,000 (datblygu) 12,547,300 (cyflawni) *Gorffennaf 2012* |

| Statws y prosiect a % y grant a a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2017 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Datblygu<br>10 | Ymgynghorwyr cam datblygu wedi'u penodi. Adolygiad canol datblygu wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2017. |
| Datblygu<br>84 | Mae'r prosiect hwn bellach wedi cyflwyno ei gais ail rownd, a fydd yn cael ei asesu yn ystod cyfarfod y Bwrdd fis Mehefin. |
| Cyflawni<br>45 | Mae'r gwaith adeiladu bron wedi ei gwblhau. Disgwylir i'r casgliad gael ei ailosod yn yr oriel erbyn diwedd mis Medi 2017. Mae mwy o orgyffwrdd rhwng y contract adeiladu a gwaith gosod yr oriel wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni hyn. |
| Cyflawni<br>17 | Yn dilyn cynnydd mewn costau nas rhagwelwyd, gwnaethom gymeradwyo newid o ran dibenion cymeradwy er mwyn caniatáu i gwmpas gwaith llai gael ei gyflawni gan ddefnyddio'r un maint o arian grant. |
| Cyflawni<br>99 | Mae'r paentiad yn parhau ar ei daith. Mae newydd fod yn Amgueddfa Caersallog ac, o 8 Ebrill 2017, bydd yn cael ei arddangos yn Orielau Cenedlaethol yr Alban hyd fis Mawrth 2018, pan fydd yn dychwelyd i Tate Britain. |
| Cyflawni<br>7 | Cynhaliwyd cyfarfod cynnydd ym mis Chwefror 2016. Ar y cam dylunio manwl ar hyn o bryd. Rhaglen gyfalaf ar y trywydd iawn. Gwaith galluogi wedi'i gwblhau. |
| Cyflawni<br>3 | Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda gyda rhai materion sensitif mewn perthynas â'r gwaith arfaethedig ar y lloriau a'r eisteddleoedd. Mae'r broses cynllunio statudol yn mynd rhagddi a bydd y rhaglen waith yn ystyried sut i ymdrin â'r materion sensitif hyn. |
| Cyflawni<br>35 | Mae'r prosiect wedi'i ariannu'n llawn ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Disgwylir i'r gwaith ar yr ystafell bwmpio gael ei gyflawni'n ymarferol yng ngwanwyn 2017. Mae'r prif gontractwr ar y safle. Y bwriad yw y bydd y gwesty a chanolfan ymwelwyr ar agor erbyn 2019. |
| Cyflawni<br>96 | Mae'r cam cyfalaf wedi'i gwblhau a'r mân broblemau wedi'u datrys. Mae ymgynghorydd busnes wedi'i benodi i helpu â hyfywdra. Mae'r dyddiad y daw'r grant i ben wedi'i estyn i 31 Rhagfyr 2017. |
| Datblygu<br>44 | Mae'r cam datblygu yn mynd rhagddo'n dda. Cynhaliwyd yr adolygiad datblygu ym mis Ionawr 2017 – disgwylir y cais ar gyfer yr ail rownd ym mis Awst 2017 |
| Cyflawni<br>75 | Dyfarnwyd codiad yn y grant ym mis Tachwedd 2016. Mae'r prif waith adeiladu wedi'i gwblhau. Bydd gwaith gosod cyffredinol a gwaith gosod yr oriel yn dilyn. Mae'r cynllun gweithgarwch yn mynd rhagddo'n dda iawn. Mae agoriadau meddal rhannol wedi'u cynllunio yn haf 2017 a bydd y prif adeilad yn agor yn 2019. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Melin Sidan Derby – Museum of Making | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Derby | 16,999,900 | 817,300 (datblygu) 8,570,400 (cyflawni) *Ebrill 2015* |
| Ditherington Flax Mill Maltings, International Heritage site at the heart of the community | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Historic England | 30,382,488 | 465,300 (datblygu) 20,717,500 (cyflawni) *Gorffennaf 2013* |
| Portrait of Mademoiselle Claus Edouard Manet | De-ddwyrain Lloegr | Amgueddfa Gelf ac Archaeoleg yr Ashmolean | 7,929,300 | 5,999,300 *Ebrill 2012* |
| First Light at Jodrell Bank | Gogledd-orllewin Lloegr | Prifysgol Manceinion | 19,733,200 | 784,800 (datblygu) 11,362,400 (cyflawni) *Ebrill 2015* |
| Rhaglen Ddiwylliannol Canmlwyddiant y Rhyfel Cyntaf (14–18 NOW) | Traws-ranbarthol | Yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol | 50,009,614 | 10,000,000 *Tachwedd 013* |
| Castell Hartlebury | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Hartlebury | 7,239,665 | 413,700 (datblygu) 4,975,100 (cyflawni) *Medi 2014* |
| Pier Hastings | De-ddwyrain Lloegr | Hastings Pier Charity Ltd | 14,248,352 | 357,400 (datblygu) 12,044,000 (cyflawni) *Tachwedd 2012* |
| HMS Caroline, Belfast | Gogledd Iwerddon | Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol | 17,800,732 | 845,600 (datblygu) 14,240,500 (cyflawni) *Medi 2014* |
| Inspired by Knole | De-ddwyrain Lloegr | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 24,181,947 | 7,750,000 *Gorffennaf 2013* |
| Kings and Scribes – The Birth of a Nation | De-ddwyrain Lloegr | Eglwys Gadeiriol Caer-wynt | 14,693,759 | 475,500 (datblygu) 11,017,400 (cyflawni) *Gorffennaf 2013* |
| Kresen Kernow: A new home for the stories of Cornwall | De-orllewin Lloegr | Cyngor Cernyw | 18,506,591 | 386,800 (datblygu) 11,786,500 (cyflawni) *Gorffennaf 2015* |

| Statws y prosiect a % y grant a a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2017 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Datblygu<br>63 | Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir cais yr ail rownd ym mis Mehefin 2017. |
| Cyflawni<br>0 | Cymeradwywyd cynnydd grant o £7,894,200 gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2017. Roedd costau wedi cynyddu o ganlyniad i effaith amserlen gwario gywasgedig ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, hysbysiadau tendr uwch, cynnydd mewn costau adeiladu (gwaith dur strwythurol), a cholli ychydig o gyllid partneriaeth. Mae'r cynllun diwygiedig bellach yn canolbwyntio ar y brif felin ac odyn. Disgwylir y bydd yr hawl i ddechrau yn cael ei hawdurdodi ym mis Ebrill 2017. |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Cwblhawyd y prosiect ar amser. Cyflawnwyd y dibenion cymeradwy ac mae'r gweithgarwch wedi bod yn llwyddiannus ar y mwyaf yn ôl pob tebyg. Gwerthusiad llawn wedi'i ddarparu. |
| Datblygu<br>15 | Cwblhawyd y prosiect ar amser. Cyflawnwyd y dibenion cymeradwy ac mae'r gweithgarwch wedi bod yn llwyddiannus ar y mwyaf yn ôl pob tebyg. Gwerthusiad llawn wedi'i ddarparu. |
| Cyflawni<br>48 | Mae tymor 2016 bellach wedi'i gwblhau ac mae'r adroddiad gwerthuso ar gyfer yr ail rownd o gomisiynau yn cael ei gwblhau. Bydd maint cyfyngedig o weithgaredd yn cael ei gynnal yn 2017, gyda'r prif ffocws ar gynllunio'r tymor olaf o gomisiynau yn 2018 a nodi canmlwyddiant y Cadoediad. |
| Cyflawni<br>39 | Cafodd hen balas esgobion Caerwrangon ei gaffael gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Hartlebury ar 27 Mawrth 2015. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Mai 2016. Mae'r gwaith cyfalaf bellach yn mynd rhagddo ac mae'r gwaith dehongli a gweithgaredd wedi cychwyn. |
| Cyflawni<br>100 | Agorodd y pier ynghyd â chanolfan ymwelwyr ac adeilad y pafiliwn ym mis Mai 2016 ac mae wedi derbyn 400,000 o ymwelwyr, sy'n fwy na'r disgwyl. Bydd y rhaglen cynllunio gweithgarwch yn cael ei chwblhau yn y 12 mis nesaf. Mae'r cam gweithredol wedi dechrau. |
| Cyflawni<br>62 | Cafodd cynnydd grant ym mis Gorffennaf 2016. Cafodd y gwaith ar y llong ei gwblhau ym mis Mai 2016. Mae gwaith ailwampio'r doc a'r tŷ pwmpio yn mynd rhagddo a bydd y llong yn ailagor i ymwelwyr yn haf 2017 ar ôl i'r holl waith gael ei gwblhau. |
| Cyflawni<br>48 | Mae'r caffi, tŵr y porthdy, y ganolfan ddysgu a'r stiwdio gadwraeth i gyd ar agor bellach. Mae'r gwaith yn parhau ar yr ystafelloedd arddangos, gan gynnwys y gwaith o warchod casgliadau a dehongliadau newydd. Mae tua hanner o gynllun gweithgarwch y prosiect wedi cael ei gyflawni. |
| Cyflawni<br>61 | Agorodd y ganolfan addysg wedi'i hadnewyddu yn 2014 ac agorodd y ganolfan ddysgu newydd yn 2016. Mae'r gwaith ailosod plwm ar do'r eglwys gadeiriol wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith ar y fowt a'r ffenestri yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen. Mae gwaith ar y transept deheuol bellach yn mynd rhagddo, gyda gwaith cynllunio arddangosfa wedi'i drefnu'n bell ymlaen llaw. Mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithgaredd, darparu rhagor o gyfleoedd i wirfoddoli, a chynnig prentisiaethau yn parhau'n llwyddiannus. |
| Cyflawni<br>6 | Mae'r prif gontract ar gyfer gwaith cyfalaf ar y safle ac yn mynd rhagddo. Mae'r elfennau dysgu a gweithgaredd yn datblygu'n dda. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Lincoln Castle Revealed | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Sir Swydd Lincoln | 19,982,405 | 227,640 (datblygu) 12,000,000 (cyflawni) *Mawrth 2012* |
| Lincoln Cathedral Connected | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Eglwys Gadeiriol Lincoln | 16,111,266 | 909,700 (datblygu) 11,456,100 (cyflawni) *Ionawr 2017* |
| Gweithfeydd Halen Lion | Gogledd-orllewin Lloegr | Awdurdod Lleol Gorllewin Swydd Gaer a Chaer | 6,962,250 | 5,290,000 (cyflawni) *Mawrth 2008* |
| Main Line – Bridging the Nation, Caerlŷr | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Great Central Railway plc | 17,778,197 | 494,500 (datblygu) 9,504,900 (cyflawni) *Ebrill 2015* |
| Prosiect Amgueddfa Mary Rose | De-ddwyrain Lloegr | Ymddiriedolaeth Mary Rose | 36,172,338 | 26,298,000 *Mehefin 2009* |
| Prosiect Medicine Galleries | Llundain | Amgueddfa Gwyddoniaeth | 20,949,628 | 400,000 (datblygu) 7,600,000 (cyflawni) *Medi 2016* |
| Amgueddfa Lerpwl | Gogledd-orllewin Lloegr | Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl | 19,373,633 | 400,000 (datblygu) 11,000,000 (cyflawni) *Gorffennaf 2008* |
| Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin, Building for the Future | Llundain | Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin | 23,250,000 | 350,000 (datblygu) 11,500,000 (cyflawni) *Ebrill 2014* |
| Castell Norwich: Gateway to Medieval England | Dwyrain Lloegr | Gwasanaeth Archeolegol ac Amgueddfeydd Norfolk | 13,174,200 | 462,400 (datblygu) 8,756,800 (cyflawni) *Ebrill 2016* |
| Canolfan Hanes Plymouth: Plymouth's role in History and History's role in Plymouth | De-orllewin Lloegr | Cyngor Dinas Plymouth | 33,326,900 | 940,300 (datblygu) 14,833,200 (cyflawni) *Gorffennaf 2016* |
| Remaking Beamish | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Amgueddfa Beamish | 16,699,062 | 603,800 (datblygu) 10,891,200 (cyflawni) *Medi 2016* |
| Renaissance of the Cotswold Canals | De-orllewin Lloegr | Cyngor Dosbarth Stroud | 19,013,111 | 12,716,300 *Ionawr 2016* |

| Statws y prosiect a % y grant a a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2017 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Cyflawni<br>76 | Mae'r castell wedi bod ar agor ers mis Mawrth 2015 ac mae'n parhau i dderbyn mwy o ymwelwyr na'r targedau. Mae Llyfr Domesday wedi'i drefnu ar gyfer arddangosfa ochr yn ochr â'r Magna Carta o fis Mai 2017. Mae llawer o oedi wedi bod wrth gwblhau'r rhestr mân broblemau ar y gwaith cyfalaf. Disgwylir y bydd gweddill y cyllid yn cael ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. |
| Cyflawni<br>0 | Dyfarnwyd grant ym mis Ionawr 2017; bydd caniatâd i ddechrau yn cael ei gymeradwyo ddiwedd mis Mawrth 2017. Mae archwiliadau archaeolegol wedi dechrau. |
| Cyflawni<br>93.75 | Agorwyd Gweithfeydd Halen Lion yn llwyddiannus i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2015 ac mae perfformiad gweithredol wedi bod yn dda, gyda dros 12,000 o ymwelwyr, sy'n uwch na'r disgwyl. Mae'r rhaglen weithgareddau yn mynd rhagddi'n dda ac ym mis Awst cafodd ei ethol yn Brosiect Treftadaeth Gorau Gwobrau'r Loteri Genedlaethol 2016. |
| Datblygu<br>3 | Dyfarnwyd pàs rownd gyntaf ym mis Ebrill 2015 i sefydlu amgueddfa reilffordd o safon fyd-eang yng Nghanolbarth Lloegr. Cafwyd oedi gyda'r prosiect o ganlyniad i newidiadau llywodraethu a disgwylir y bydd cais yn cael ei gyflwyno i estyn y cam datblygu. Mae'r gwaith dylunio bellach yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir cais ail rownd ar ddechrau 2018. |
| Cyflawni<br>100 | Gwnaethpwyd y taliad olaf ym mis Hydref 2016. |
| Cyflawni<br>0 | Cyflwynwyd y cais i ddechrau ym mis Tachwedd 2016 – mae'r cymeradwyaethau olaf yn yr arfaeth i ganiatáu i'r gwaith cyfalaf ddechrau. |
| Cyflawni<br>97 | Agorwyd yr amgueddfa yn 2011. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau a'i gau. |
| Cyflawni<br>90 | Mae'r gwaith ailddatblygu ar yr adeilad yn Chelsea wedi'i gwblhau, gan gynnwys yr ardal croesawu ymwelwyr, cyfeiriadaeth, gwybodaeth i ddod o hyd i'r ffordd, orielau newydd, caffi/bwyty mwy o faint, siop ac ystafelloedd dysgu. Bydd yn ailagor i'r cyhoedd ar 30 Mawrth 2017. |
| Datblygu<br>1 | Mae ymgynghorwyr cam datblygu wedi'u penodi. Mae adolygiad canol y datblygiad wedi'i drefnu ar gyfer 1 Medi 2017. |
| Cyflawni<br>0 | Dyfarnwyd y grant ym mis Gorffennaf 2016 a dechreuwyd y gwaith paratoi gan yr ymgeisydd ar y safle ar ddiwedd mis Ionawr 2017. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda – sicrhawyd arian ychwanegol (eisoes dan warant y cyngor) ac achrediad ar gyfer yr archifdy. |
| Cyflawni<br>0 | Mae trafodaethau ar y brydles yn parhau rhwng Cyngor Sir Durham ac Amgueddfa Beamish. Bydd y caniatâd i ddechrau yn dilyn. |
| Cyflawni<br>92 | Mae dyddiad cwblhau'r prosiect wedi cael ei ddiwygio i fis Ragfyr 2017. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Adfer Dreamland Margate | De-ddwyrain Lloegr | Cyngor Dosbarth Thanet ac Ymddiriedolaeth Dreamland | 11,102,520 | 493,500 (datblygu) 5,800,000 (cyflawni) *Tachwedd 2011* |
| Restoring our Fenland Heritage – the purchase and restoration of the Holmewood Estate | Dwyrain Lloegr | Ymddiriedolaeth Natur Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Swydd Northampton | 16,851,774 | 67,000 (datblygu) 9,101,700 (cyflawni) *Gorffennaf 2008* |
| Revealing, Celebrating and Exploring the Heritage of the Royal Academy of Arts | Llundain | Academi Frenhinol y Celfyddydau | 30,156,969 | 458,700 (datblygu) 12,274,500 (cyflawni) *Medi 2013* |
| Revisioning Nottingham Castle – 1000 Years of History | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Dinas Nottingham | 24,750,158 | 599,500 (datblygu) 13,883,400 (cyflawni) *Tachwedd 2016* |
| SeaMore: sharing the newest National Collection | De-ddwyrain Lloegr | Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol | 17,569,737 | 433,500 (datblygu) 13,421,200 (cyflawni) *Ebrill 2016* |
| Silverstone Heritage Experience and Collection and Research Centre | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Silverstone Heritage Ltd | 19,121,014 | 446,000 (datblygu) 8,664,500 (cyflawni) *Tachwedd 2016* |
| Syr Anthony Van Dyck: Acquiring and Sharing His Last Self-Portrait | Llundain | Yr Oriel Portreadau Genedlaethol | 10,343,536 | 6,343,500 *Ebrill 2014* |
| Prosiect Canolfan Newydd Amgueddfa ac Archif Post Prydain yn Mount Pleasant | Llundain | Yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Bost | 22,064,557 | 250,000 (datblygu) 5,229,300 (cyflawni) *Rhagfyr 2015* |
| Canolfan Arddangos Chadwraeth y Byd yr Amgueddfa Brydeinig | Llundain | Yr Amgueddfa Brydeinig | 37,784,645 | 10,000,000 *Ionawr 2012* |
| Casgliad Burrell | Yr Alban | Glasgow Life | 55,000,000 | 1,000,000 (datblygu) 14,000,000 (cyflawni) *Mai 2015* |
| The Canterbury Journey | De-ddwyrain Lloegr | Eglwys Gadeiriol Caergaint | 23,150,153 | 930,400 (datblygu) 12,849,500 (cyflawni) *Medi 2016* |
| Y Ganolfan Darganfod Casgliadau yn Amgueddfa Dorset | De-orllewin Lloegr | Cymdeithas Hanes Naturiol ac Archaeoleg Dorset | 14,173,837 | 483,900 (datblygu) 9,908,500 (cyflawni) *Ebrill 2015* |

| Statws y prosiect a % y grant a a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2017 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Cyflawni<br>93 | Mae'r prosiect bellach yn ei gamau terfynol. Mae'r gwaith cyfalaf a ariennir gan CDL ar y safle bron wedi dod i ben. Mae dehongliad safle newydd yn cael ei osod ac rydym yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Dreamland ar ei gwedd newydd er mwyn creu rhestr derfynol o'r gweithgareddau sy'n weddill i'w cyflawni. |
| Cyflawni<br>97.89 | Mae buddion cadwraeth hirdymor bellach yn weledol ac mae canlyniadau gweithgaredd cryf wedi'u cyflawni eisoes. Mae'r grant sy'n weddill yn ymwneud â gweithgaredd ac elfennau adfer yn unig. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2017. |
| Cyflawni<br>44 | Mae gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo – cyflawniad ymarferol wedi ei ohirio tri mis hyd Ionawr 2018, gyda gweithgareddau'n cynnal hyd Rhagfyr 2018. |
| Cyflawni<br>0 | Cytunwyd ar y dyfarniad grant ym mis Tachwedd 2016; bydd caniatâd i ddechrau yn cael ei gymeradwyo ar ddiwedd mis Mawrth 2017. |
| Datblygu<br>3 | Mae'r cam datblygu'n mynd rhagddo gyda chaffaeliad y timau dylunio a gweithgarwch yn mynd rhagddo. |
| Cyflawni<br>0 | Cytunwyd ar y penderfyniad ail rownd ym mis Tachwedd 2016, a bydd caniatâd i ddechrau yn cael ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Mawrth 2017. |
| Cyflawni<br>97 | Mae'r paentiad wedi'i dderbyn; ar hyn y bryd, mae rhaglen weithgareddau ar daith, a fydd yn cael ei chyflwyno hyd ddiwedd mis Ebrill 2018. |
| Cyflawni<br>72 | Mae'r cyflawniad ymarferol wedi llithro ychydig ac ar hyn o bryd mae wedi'i drefnu ar gyfer 28 Ebrill 2017 ar gyfer yr Amgueddfa Post a 13 Mai ar gyfer Mail Rail. Mehefin 2017 yw'r dyddiad arfaethedig ar gyfer agor i'r cyhoedd. Bydd y gweithgareddau'n cynnal hyd Rhagfyr 2018. |
| Cyflawni<br>95 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac agorodd y ganolfan i glod mawr. Y prosiect sy'n weddill yw'r cynllun gweithgarwch ar gyfer Lloegr gyfan, sy'n cael ei gynnal hyd at 2018. |
| Datblygu<br>69 | Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu a bwriedir cyflwyno cais ail rownd ym mis Mehefin 2017 ar gyfer penderfyniad gan y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r dyluniadau pensaernïol ac arddangosfa yn mynd rhagddynt yn dda. Mae gwaith ychwanegol ar gynlluniau gweithgaredd a busnes yn cael ei wneud ar hyn o bryd. |
| Cyflawni<br>2 | Dyfarnwyd y grant cyflawni ym mis Medi 2016 ac mae cam cyntaf y gwaith cyfalaf bellach wedi dechrau ar y safle. Mae gweithgareddau, gan gynnwys allgymorth cymunedol, gwirfoddoli, gweithio gydag ysgolion, a gwella mynediad at gasgliadau'r eglwys gadeiriol, yn mynd rhagddynt yn dda, gyda staff prosiect yn weithredol yn eu swyddi a'r prentisiaid wedi'u penodi. |
| Datblygu<br>84 | Mae'r cam datblygu yn datblygu'n dda. Mae'r prif risgiau ar hyn o bryd yn ymwneud â chaffael tir a threfniadau mynediad ar gyfer y safle wedi i'r gwaith ddechrau. |

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| The Piece Hall – Treftadaeth Halifax | Swydd Efrog a'r Humber | Cyngor Calderdale | 10,770,888 | 239,000 (datblygu) 7,000,000 (cyflawni) *Gorffennaf 2012* |
| The Sill: Unspoilt Landscapes, Inspiring People | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland | 13,593,300 | 399,200 (datblygu) 7,748,000 (cyflawni) *Ionawr 2015* |
| Prosiect y Tŷ Tymherus | Llundain | Y Gerddi Botaneg Cenedlaethol, Kew | 34,250,148 | 890,900 (datblygu) 15,650,600 (cyflawni) *Mawrth 2013* |
| Unlocking the Geffrye | Llundain | Amgueddfa Geffrye | 17,630,233 | 425,300 (datblygu) 11,941,900 (cyflawni) *Mawrth 2017* |
| Unlocking the Severn for People and Wildlife | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren | 19,432,406 | 233,100 (datblygu) 10,577,200 (cyflawni) *Ebrill 2015* |
| Unlocking the UK's Sound Heritage | Llundain | Llyfrgell Prydain | 18,631,085 | 215,900 (datblygu) 9,353,000 (cyflawni) *Ebrill 2015* |
| V&A yn Dundee | Yr Alban | Adran Datblygu'r Ddinas, Cyngor Dinas Dundee | 84,358,156 | 200,000 (datblygu) 13,900,000 (cyflawni) *Ionawr 2014* |
| Amgueddfa Llongau Ager Windemere | Gogledd-orllewin Lloegr | Ymddiriedolaeth Celfyddydau Lakeland | 16,002,614 | 494,000 (datblygu) 12,076,400 (cyflawni) *Gorffennaf 2013* |
| York Minster Revealed | Swydd Efrog a'r Humber | Deon a Glwysgor Efrog | 18,295,155 | 746,000 (datblygu) 9,797,000 (cyflawni) *Medi 2010* |

| Statws y prosiect a % y grant a a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2017 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Cyflawni<br>83 | Bydd y cyflawniad ymarferol, gan gynnwys gosod unedau manwerthu, yn cael ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2017. Disgwylir i'r gweithgareddau ddechrau yn ystod yr haf. |
| Cyflawni<br>62 | Mae'r prosiect yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen a disgwylir iddo agor yn haf 2017. |
| Cyflawni<br>64 | Bydd y prosiect yn gwarchod y Tŷ Tymherus rhestredig Gradd I, sef y tŷ gwydr Fictoraidd mwyaf yn y byd. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda, a disgwylir y cyflawniad ymarferol ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r cynllun gweithgarwch yn parhau. |
| Cyflawni<br>0 | Dyfarnwyd grant ym mis Mawrth 2017 – rhoddwyd caniatâd i ddechrau ar y broses. |
| Datblygu<br>0 | Bydd y grant datblygu hwn, a ddyfarnwyd ym mis Ebrill 2016 i ailagor Afon Hafren ac Afon Tefeidiad i bysgod o bob rhywogaeth sy'n mudo, yn arwain at y prosiect mwyaf o'i fath yn Ewrop. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Tachwedd 2016. Mae'r gwaith safle ac arolwg ar gyfer y llwybrau pysgod yn mynd rhagddo. Mae ymgynghorwyr wedi cael eu penodi ar gyfer gwaith dehongli a gweithgaredd. |
| Datblygu<br>100 | Dyfarnwyd y grant ym mis Ebrill 2017. |
| Cyflawni<br>38 | Mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n dda. Mae datblygu'r amgueddfa a chynllunio gweithredol yn parhau. |
| Cyflawni<br>62 | Mae'r prosiect ar y safle ond cafwyd ychydig o oedi ac efallai y bydd angen gohirio'r dyddiad agor hyd 2018. |
| Cyflawni<br>85.06 | Cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus a chynhaliwyd digwyddiad dathlu ar 31 Mawrth 2016. Mae'r taliad terfynol wedi'i wneud, mae ein cofnodion bellach wedi cau, ac mae'r prosiect wedi'i gofnodi'n gyflawn. |

# Monitro cyflogaeth

Staff parhaol mewn swydd ar 1 Mai 2017

| Ethnigrwydd | Cyfanswm |
|---|---|
| Affricanaidd | 7 |
| Asiaidd – Bangladeshaidd | 1 |
| Asiaidd – Indiaidd | 5 |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 1 |
| Asiaidd a Gwyn | 2 |
| Du Affricanaidd a Gwyn | 1 |
| Caribïaidd | 6 |
| Tsieineaidd Dwyreiniol | 2 |
| Arall | 2 |
| Gwyn | 298 |
| **Cyfanswm** | **325** |

Dynion a menywod mewn swydd ar 31 Mawrth 2017

| Rhyw | % |
|---|---|
| Menywod | 76% |
| Dynion | 24% |

## Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Gan fod cydraddoldeb yn rhan ganolog o'n holl waith, rydym yn parhau i gyflawni gofynion y dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Cyflwynwyd ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2016. Mae cynllun gweithredu newydd ar gydraddoldeb yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cynnal hyd ddiwedd Fframwaith Strategol 4 yn 2019.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru trwy Gynllun Iaith Gymraeg y Gronfa, a gyhoeddwyd yn 2007. Mae'r broses o weithredu'r cynllun yn cael ei monitro a'i thrafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddog iaith Gymraeg CDL a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Ym mis Chwefror 2015, rhoddwyd ymateb ffurfiol gennym i ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg a byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod y broses drosglwyddo o'n Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg mor ddidrafferth â phosibl.

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

ISBN 978-1-4741-4241-0